RHIF YMCHWIL GYMDEITHASOL:
51/2021
DYDDIAD CYHOEDDI:
20/07/2021

# Mae Tîm Ewropeaidd y Trydydd Sector (3-SET) Gwerthusiad

© Hawlfraint y Goron ISBN Digidol 978-1-80195-660-4

Mae Tîm Ewropeaidd y Trydydd Sector (3-SET) Gwerthusiad

Awduron / cwmni

Dyfan Powel / Wavehill

Anna Burgess / Wavehill

Sam Grunhut / Wavehill

Adroddiad ymchwil llawn - dyfyniad: Powel, D., Burgess A., and Grunhut, S. (2021). *Mae Tîm Ewropeaidd y Trydydd Sector (3-SET) Gwerthusiad*. Caerdydd: Llywodraeth Cymru, GSR adroddiad rhif 51/2021.

Ar gael yn: https://llyw.cymru/gwerthusiad-y-tim-ewropeaidd-y-trydydd-sector-3-set

Barn yr ymchwilwyr a fynegir yn yr adroddiad hwn ac nid yw o reidrwydd yn farn Llywodraeth Cymru.

I gael rhagor o wybodaeth, cysylltwch â:

Charlotte Guinee
Swyddfa Cyllid Ewropeaidd Cymru
Llywodraeth Cymru
Parc Cathays
Caerdydd
CF10 3NQ
Ffôn: 0300 025 0734
E- bost: RME.Mailbox@llyw.cymru

**Tabl cynnwys**

Rhestr tablau....................2
Rhestr ffigurau....................3
Geirfa....................4
1. Cyflwyniad/Cefndir....................5
2. Methodoleg....................9
3. Canfyddiadau: Canlyniadau....................13
4. Canfyddiadau: y Broses....................45
5. Casgliadau....................61
Argymhellion....................70
Adran gyfeiriadau....................74
Atodiad A....................75
Atodiad B....................77

**Rhestr tablau**

Tabl 1.1: Dangosyddion cyfnod llawn 3-SET ........................................................................ 7
Tabl 3.1: Perfformiad 3-SET yn erbyn targedau dangosyddion .......................................... 13
Tabl 3.2: Y digwyddiadau lledaenu gwybodaeth a gynhaliwyd .......................................... 15
Tabl A.1: Rhestr lawn o’r digwyddiadau a gynhaliwyd neu a gynlluniwyd ........................... 75

**Rhestr ffigurau**

Ffigur 2.1: Maes gwaith y rhai a gyfwelwyd ........ 11
Ffigur 2.2: Cymorth a gafwyd/gwasanaethau a ddefnyddiwyd ........ 11
Ffigur 3.1: Lleoliad yr hyfforddiant ........ 14
Ffigur 3.2: Effaith ar eich sefydliad ........ 17
Ffigur 3.3: Faint wnaeth eich sefydliad elwa o'r cyswllt a gawsoch â 3-SET? ........ 18
Ffigur 3.4: Faint wnaethoch chi elwa o'r cyswllt a gawsoch â 3-SET? ........ 18
Ffigur 3.5: Ydych chi wedi gwneud unrhyw newidiadau o ganlyniad i'r cymorth? ........ 20
Ffigur 3.6: Sut roedd 3-SET wedi annog ceisiadau? ........ 21
Ffigur 3.7: Sut mae 3-SET wedi hyrwyddo rhwydweithio a chydweithredu yn y trydydd sector? ........ 27
Ffigur 3.8: Sut/gyda phwy mae 3-SET wedi llwyddo i frocera cysylltiadau rhwng y trydydd sector, WEFO, partneriaid rhanbarthol ac/neu awdurdodau lleol? ........ 29
Ffigur 3.9: Heriau yn y tymor byr/dyfodol agos ........ 35
Ffigur 3.10: Pa mor effeithiol y mae 3-SET wedi eich helpu chi a'ch sefydliad i baratoi at y dyfodol a'r hirdymor? ........ 37
Ffigur 4.1: Sut y daethoch i wybod am y gwasanaethau y gallai 3-SET eu cynnig i chi? ........ 50
Ffigur 4.2: Heriau yn y tymor byr ........ 54
Ffigur 4.3: Heriau yn y tymor hirach, y tu hwnt i 12/18 mis ........ 55
Ffigur 4.4: Pa elfennau o gymorth 3-SET fydd eu hangen yn y dyfodol? ........ 58

**Geirfa**

| | |
|---|---|
| 3-SET | Tîm Ewropeaidd y Trydydd Sector |
| AIF | Y Gronfa Cynhwysiant Gweithredol |
| Buddiolwr | Defnyddir y term 'buddiolwr' (*beneficiary*) yn helaeth yn y ddogfen i gynrychioli pobl neu sefydliadau sydd wedi elwa o gefnogaeth 3-SET. Fodd bynnag, mae gan 'buddiolwr' ystyr benodol yn ESIF. Yn dechnegol, buddiolwr yw un sy'n derbyn cyllid Ewropeaidd yn uniongyrchol, h.y. noddwr prosiect, boed yn un cyhoeddus, preifat neu wirfoddol, sy'n cael cyllid Cronfeydd Strwythurol er mwyn gweithredu prosiect. Fodd bynnag, er nad yw'n hollol gywir galw sefydliadau eraill sy'n elwa o 3-SET yn 'fuddiolwyr', yn y cyd-destun hwn, serch hynny, defnyddir y term hwn er eglurder. Mae'r adroddiad hwn yn diffinio 'buddiolwyr' fel pobl neu sefydliadau sydd wedi elwa o gefnogaeth 3-SET. |
| CGGC | Cyngor Gweithredu Gwirfoddol Cymru (WCVA) |
| CVC | Cyngor Gwirfoddol Sirol |
| ERDF | Cronfa Datblygu Rhanbarthol Ewrop |
| ESF | Cronfa Gymdeithasol Ewrop |
| ESIF | Cronfeydd Strwythurol a Buddsoddi Ewropeaidd |
| IB | Corff Cyfryngol (*intermediary body*): mae CGGC yn gorff cyfryngol sy'n golygu ei fod wedi'i gymeradwyo gan WEFO i roi cyllid yr UE ar waith. Mae gan gyrff cyfryngol ran allweddol i'w chwarae hefyd wrth hyrwyddo a chefnogi partneriaethau. Mae sicrhau cynaliadwyedd ac effaith hirdymor yn dibynnu ar ddatblygu cysylltiadau mewn sefydliadau gwahanol, ar draws y sefydliadau hynny a rhyngddynt. |
| PQASSO | System Sicrhau Ansawdd Ymarferol i Fudiadau Bach |
| SBGF | Y Gronfa Tyfu Busnesau Cymdeithasol |
| TSSW | Cefnogi Trydydd Sector Cymru |
| WCFDP | Cyngor Cymru i Bobl Fyddar |
| WEFO | Swyddfa Cyllid Ewropeaidd Cymru |

## 1. Cyflwyniad/Cefndir

1.1 Mae rhaglenni Cronfeydd Strwythurol a Buddsoddi Ewropeaidd (ESIF) wedi bod o gymorth hollbwysig i amcanion polisi Llywodraeth Cymru ers tro byd. Mae’r trydydd sector wedi gallu (ac maent wedi) defnyddio’r cronfeydd hyn ers sawl blwyddyn.

1.2 Mae Tîm Ewropeaidd y Trydydd Sector (3-SET) yn ‘swyddogaeth’ neu tîm ‘dan berchnogaeth’, wedi’i redeg a’i boblogi gan staff Cyngor Gweithredu Gwirfoddol Cymru (CGGC) sydd wedi’u cyflogi i gyflawni swyddogaethau penodol i roi cymorth i’r trydydd sector ledled Cymru parthed rhaglenni ESIF 2014-2020 gan gynnwys cyfeirio at gronfeydd Ewropeaidd eraill megis Erasmus+ a Horizon 2020. Wedi'i ariannu trwy Gymorth Technegol o'r pedair rhaglen, mae'r 3-SET yn cyfrannu at gyflawni nodau ac amcanion ehangach pob un o’r pedwar rhaglen, sef Gorllewin Cymru a'r Cymoedd, a Dwyrain Cymru, Cronfa Datblygu Rhanbarthol Ewrop (ERDF) a Chronfa Gymdeithasol Ewrop (ESF). Rhagamcanwyd y byddai cyfanswm y gost o weithredu'r gwasanaeth dros ei chyfnod bywyd o wyth mlynedd yn £2,526,984 gyda £1,779,368 wedi'i ymrwymo o Gronfeydd Strwythurol yr UE.

1.3 Disgwylir y bydd cyfranogiad Cymru mewn rhaglenni a ariennir gan yr UE yn parhau tan ddiwedd y cyfnod 2014-2020 (h.y. hyd at 31 Rhagfyr 2023), er bod y Deyrnas Unedig wedi gadael yr UE.

1.4 Cynigir cefnogaeth i sefydliadau’r trydydd sector trwy roi cyngor technegol (e.e. awdit, costau, cadw cofnodion), helpu i weithredu rhaglenni a ariennir gan Ewrop trwy nodi’r strategaethau gorau sydd ar gael, bod yn ‘gyfaill beirniadol’ (e.e. o ran cynllunio busnes), a thrwy daflenni gwybodaeth ar-lein. Cynhelir nifer o gyrsiau hyfforddi hefyd. Ymhlith y pynciau hyfforddi mae cyllid Ewropeaidd, terfynu prosiectau, cynllunio olyniaeth a chyllidebu. Er mwyn cynorthwyo’r trydydd sector i barhau i fod yn ymwybodol o ddatblygiadau cyllido’r UE, mae 3-SET yn cynnal digwyddiadau gwybodaeth yn rheolaidd. At hynny, mae 3-SET yn eirioli ar ran y trydydd sector trwy gynrychioli buddiannau a phrofiadau’r trydydd sector, ac yn codi materion gyda Llywodraeth Cymru.

1.5 Mae’r gwasanaeth cyngor technegol a gynigir gan 3-SET yn adeiladu ar raglenni llwyddiannus blaenorol CGGC megis y Gwasanaeth Cymorth i’r Sector Gwirfoddol (a sefydlwyd yn 2000), er bod pob iteriad yn wahanol ac wedi ceisio mynd i’r afael ag amcanion a nodau penodol pob rownd ariannu.

1.6 Yn ei ffurf bresennol, mae gan 3-SET 2014-2020 dri amcan, sef:

1) **Cynyddu ymwybyddiaeth** ymysg sefydliadau'r trydydd sector am Gronfeydd Strwythurol a Buddsoddi Ewropeaidd (ESIF) a rhaglenni Ewropeaidd eraill sydd ar gael yng Nghymru.

2) **Cynyddu ymgysylltiad y trydydd sector** i weithredu rhaglenni'r ESIF yn ystod cyfnod ariannu 2014-2020.

3) **Gwella cyfrannau cydymffurfio** a lleihau'r risgiau yng nghyswllt cyflawni prosiectau yn y trydydd sector.

1.7 Mae'r amcanion hyn i'w cyflawni trwy bedwar llinyn gweithgarwch:

1) Gwybodaeth a chyngor.

2) Hyfforddiant a digwyddiadau.

3) Trefnu rhwydweithiau a rhwydweithio.

4) Cynrychioli a hyrwyddo'r trydydd sector.

1.8 Lluniwyd y cynllun busnes gwreiddiol yn y cyd-destun bod Cymru yn yr UE, gan ragweld y byddai'n parhau i gymryd rhan mewn rhaglenni olynol wedi'u hariannu gan yr UE. Gan fod Brexit ar fin digwydd wrth gasglu data ar gyfer yr adroddiad hwn, roedd prif ffocws gwaith 3-SET hefyd yn cynnwys cefnogi sefydliadau i sicrhau bod eu gweithgarwch **yn gynaliadwy mewn dyfodol a allai fod y tu allan i'r UE**. Felly aeth 3-SET ati i newid ffocws ei weithrediadau i ganolbwyntio ar faterion yn ymwneud ag etifeddiaeth ac olyniaeth a lleihau ei ffocws ar ddarparu hyfforddiant.[1]

1.9 Gosodwyd dangosyddion gweithredol yn ystod y cam cynllunio busnes ar gyfer gwaith 3-SET. Cynlluniwyd y dangosyddion hyn i gael eu hadolygu yn y cam canol tymor. Roedd y goblygiadau a ddeilliai o Brexit wedi bod yn sail i lawer o'r adolygiad, a hynny wedi arwain at adolygu dangosyddion, allbynnau a strwythur y tîm.

1.10 Dengys Tabl 1.1 y dangosyddion diwygiedig sydd i'w cwblhau rhwng 1 Medi 2015 a 30 Mehefin 2023.

---

[1] Mae'r 3-SET yn parhau i weithredu o dan reolau cymhwysedd cenedlaethol Cymru a chamau gweithredu cymwys fel y'u diffinnir yn yr amcan penodol perthnasol a gynhwysir ym mhob un o raglenni gweithredol 2014-2020. Gweler Rhaglen Cronfeydd Strwythurol yr UE 2014 i 2020: rhaglen weithredol | LLYW.CYMRU. Cronfeydd Strwythurol yr UE 2014 i 2020: canllawiau rheolau cymhwystra ac amodau | LLYW.CYMRU.'

**Tabl 1.1: Dangosyddion cyfnod llawn 3-SET**

| Dangosydd Craidd WEFO | Cyfanswm |
|---|---|
| Nifer y digwyddiadau hyfforddi a gynhaliwyd | 108 |
| Nifer yr adroddiadau ymchwil a gyhoeddwyd | 1 |
| Nifer y digwyddiadau lledaenu gwybodaeth | 43 |
| Nifer y datganiadau i'r wasg | 15 |
| Nifer yr e-gylchlythyrau a gyhoeddwyd | 435 |

### Y gwerthusiad hwn

1.11 Comisiynodd Llywodraeth Cymru Wavehill i gynnal gwerthusiad ar ganlyniadau a phrosesau Tîm Ewropeaidd y Trydydd Sector (3-SET) yn 2020. Bydd canfyddiadau'r gwerthusiad hwn – a gyflwynir yn yr adroddiad hwn – nid yn unig yn hysbysu Llywodraeth Cymru mewn perthynas â pherfformiad 3-SET, ond hefyd yn helpu i lywio dull gweithredu 3-SET ar ôl Brexit, yn ogystal â llywio gweithgareddau 3-SET am weddill cyfnod rhaglennu 2014-2020 a thu hwnt.

### Pandemig y coronafeirws

1.12 Mae pandemig y coronafeirws wedi effeithio ar waith 3-SET a'r gwerthusiad ill dau. Roedd rhaid cynnal gweithgareddau 3-SET o bell, a hynny'n golygu newid y cyfarfodydd rhwydweithio a'r hyfforddiant i fod ar-lein. Yn yr un modd, roedd yn rhaid casglu data'r gwerthusiad o bell. Oherwydd effaith y pandemig ar allu staff yn y sefydliadau i gymryd rhan yn y gwerthusiad, roedd y cyfraddau ymateb gan sefydliadau ychydig yn is na'r disgwyl.

### Yr adroddiad hwn

1.13 Mae'r adroddiad wedi'i drefnu fel a ganlyn:

- Mae Pennod 2 yn cyflwyno'r fethodoleg a ddefnyddiwyd i gasglu data a'i ddadansoddi ar gyfer yr adroddiad hwn.
- Mae Pennod 3 yn cyflwyno canfyddiadau'r ymchwil, gan ddechrau gyda'r allbynnau ac yna symud ymlaen i effaith gweithgareddau cymorth 3-SET ar y buddiolwyr (sef sefydliadau'r trydydd sector sy'n cael cymorth). Mae'r canfyddiadau yn y bennod hon yn rhoi sylw penodol i'r cwestiynau ymchwil

allweddol (fel y nodir yn yr adran ar fethodoleg; gweler 2.1). Yn ogystal, trafodir canfyddiadau perthnasol ehangach hefyd.

- Mae Pennod 4 yn amlinellu'r broses werthuso ac yn archwilio mecanwaith y model darparu (gan gynnwys ei resymeg, ei ddyluniad, ei weithredu a'i ddyfodol).
- Daw Pennod 5 â'r adroddiad i ben drwy grynhoi'r canfyddiadau mewn perthynas â'r cwestiynau ymchwil allweddol ac unrhyw gasgliadau pellach. Wedi hynny, cyflwynir cyfres o argymhellion i fod yn sail i weddill y gefnogaeth ac unrhyw gynllunio ar ôl 3-SET.

## 2. Methodoleg

2.1 Roedd y fframwaith gwerthuso (a ddatblygwyd ar y cyd â rheolwyr a rhanddeiliaid allweddol 3-SET) wedi nodi'r canlynol i fod yn brif gwestiynau ymchwil er mwyn archwilio'r effaith a gafwyd. Bydd casgliad yr adroddiad hwn ym Mhennod 5 yn archwilio'r data a'r canfyddiadau a drafodir ym Mhenodau 3 a 4 yng nghyswllt y cwestiynau ymchwil hyn.

*Prif gwestiynau ymchwil*

A yw 3-SET wedi:

1) Llwyddo i annog sefydliadau'r trydydd sector i ymgeisio am Gronfeydd Strwythurol pan na fyddent fel arall efallai wedi gwneud hynny?
2) Rhoi arweiniad clir ac effeithiol sydd wedi cefnogi sefydliadau'r trydydd sector i ymgeisio'n llwyddiannus am Gronfeydd Strwythurol?
3) Rhoi arweiniad clir ac effeithiol sydd wedi cefnogi sefydliadau'r trydydd sector i weithredu prosiectau'r Cronfeydd Strwythurol yn llwyddiannus?
4) Hyrwyddo rhwydweithio a chydweithredu yn y trydydd sector?
5) Brocera cysylltiadau yn llwyddiannus rhwng y trydydd sector, WEFO, partneriaid rhanbarthol ac/neu awdurdodau lleol?
6) Cefnogi sefydliadau i gyflawni'r Themâu Trawsbynciol?

2.2 Cynhaliwyd y tasgau canlynol er mwyn casglu data i'w ddadansoddi:

- Cyfweliadau cwmpasu ansoddol gyda staff gweithredu a rheoli allweddol a rhanddeiliaid allweddol (N=7). Pennwyd y rhanddeiliaid mewn ymgynghoriad â thîm y prosiect a Llywodraeth Cymru. Roedd y rhain yn drafodaethau cyffredinol am 3-SET, gan fod yn sail i gwestiynau a dulliau ymchwil y gwerthusiad.
- Adolygu dogfennaeth ac ymchwil. Roedd hyn yn cynnwys dogfennau megis y cynllun busnes a diwygiadau dilynol, y model rhesymeg a'r Theori Newid bresennol, a pholisïau a chynlluniau cyflenwi perthnasol.
- Adolygu data monitro a gwerthuso prosiectau a gasglwyd gan 3-SET yn ystod ei weithrediadau. Ni chododd unrhyw broblemau mewn perthynas â'r data monitro a oedd ar gael, ac roedd y data wedi'i gwblhau hyd at adeg y dadansoddiad.

- Cyfweliadau â rhanddeiliaid cyflenwi, rheoli (N=7) a rhanddeiliaid ehangach (N=10).
- Cyfweliadau ansoddol, lled-strwythuredig gyda buddiolwyr[2] (N=52).
- Arolwg ar-lein i fuddiolwyr (N=29) a sefydliadau'r trydydd sector nad oedd wedi ymgysylltu â 3-SET (N=30).
- Gweithdy a thrafodaeth ar y canfyddiadau gyda'r rhanddeiliaid allweddol.

2.3 Mae'r data monitro yn cynnig dull gwrthrychol o fesur y gweithgareddau, y cynnydd a wnaed tuag at dargedau, a rhai elfennau'r cwestiynau ymchwil a amlinellir uchod. Yn benodol, mae'r data monitro yn rhoi modd amcangyfrif graddfa a chyrhaeddiad y gweithgareddau. Fodd bynnag, yn y pen draw gellir crisialu pob cwestiwn i un cwestiwn craidd, sef: 'A yw'r trydydd sector wedi cael cefnogaeth gan 3-SET?' Yn y pen draw, dim ond data goddrychol manwl gan fuddiolwyr sy'n gallu cynnig mewnwelediad ac atebion i'r cwestiynau hyn. O ganlyniad, pwysodd y fethodoleg a'r dadansoddiad yn helaeth ar ddata ansoddol gan fuddiolwyr, rhanddeiliaid a phersonél rheoli.


2.4 Rhoddodd 3-SET fanylion cysylltu ar gyfer y 91 o sefydliadau a gydsyniodd i ni gysylltu â nhw ar gyfer y gwerthusiad, sef rhai a oedd wedi derbyn cefnogaeth sylweddol, e.e. mynychu cwrs hyfforddi neu ddigwyddiad rhwydwaith neu wedi ymgysylltu â'r tîm i gael cyngor neu arweiniad. Gwahoddwyd pob un o'r 91 sefydliad i gyfrannu at y gwerthusiad trwy gyfweliad lled-strwythuredig. Cyfwelwyd cyfanswm o 52 sefydliad, a'r sefydliadau eu hunain a enwebodd gyfrannwr addas. Felly, roedd hwn yn sampl hunanddewisol yn cynrychioli 57 y cant o'r sefydliadau cydsyniol sydd wedi derbyn cefnogaeth sylweddol. Ni chafwyd unrhyw ymateb mewn rhai achosion, tra bod diffyg capasiti i gymryd rhan yn yr ymchwil yn nodweddu llawer o'r rhai eraill a wrthododd. Rhesymau yn ymwneud â phandemig y coronafeirws a phroblemau staffio neu gapasiti a roddwyd yn aml.

2.5 Mae Ffigur 2.1 isod yn amlinellu meysydd gwaith y rhai a gyfwelwyd, tra bod Ffigur 2.2 yn cyflwyno dosbarthiad y gwasanaethau cymorth a ddefnyddiwyd gan y sampl.

---


[2] Fel y nodwyd yn yr Eirfa: Defnyddir y term 'buddiolwr' (*beneficiary*) yn helaeth yn y ddogfen i gynrychioli pobl neu sefydliadau sydd wedi elwa o gefnogaeth 3-SET. Fodd bynnag, mae gan 'buddiolwr' ystyr benodol yn ESIF. Yn dechnegol, yr unig 'fuddiolwr' yw CGGC gan mai dyma'r sefydliad a dderbyniodd ddyfarniad cyllid uniongyrchol gan WEFO i gyflawni ei weithgareddau amrywiol, gan gynnwys rhai 3-SET. Fodd bynnag, er nad yw'n hollol gywir galw sefydliadau neu bobl eraill y cyfeirir atynt yn yr adroddiad hwn yn 'fuddiolwyr', yn y cyd-destun hwn, serch hynny, defnyddir y term hwn er eglurder. Mae'r adroddiad hwn yn diffinio 'buddiolwyr' fel pobl neu sefydliadau sydd wedi elwa o gefnogaeth 3-SET.

**Ffigur 2.1: Maes gwaith y rhai a gyfwelwyd**




Ffynhonnell: Cyfweliadau â buddiolwyr (N=52)

**Ffigur 2.2: Cymorth a gafwyd/gwasanaethau a ddefnyddiwyd**




Ffynhonnell: Cyfweliadau â buddiolwyr (N=52)

2.6 Cynhaliwyd y cyfweliadau o bell dros y ffôn neu dros Microsoft Teams. Rhoddwyd canllawiau trafod iddynt ymlaen llaw, a nododd y mwyafrif eu bod wedi paratoi at y cyfweliadau, ac yn aml wedi trafod eu hymatebion gyda chydweithwyr. Roedd y

canllaw trafod (sydd i'w weld yn Atodiad B) yn ymdrin ag ystod o faterion yn ymwneud â chanlyniadau a phrosesau.

2.7 Cafodd yr arolwg ar-lein ei ddosbarthu a'i hyrwyddo trwy restr bostio CGGC. Roedd y gyfradd ymateb o 59 ychydig yn siomedig o ystyried maint posibl y sampl, h.y. pob sefydliad y cysylltodd CGGC ag ef. Roedd yr arolwg ei hun yn cynnwys dwy 'gangen' ar gyfer ymatebion gan fuddiolwyr yn ogystal â rhai nad oeddent yn fuddiolwyr. Gofynnwyd i sefydliadau a oedd wedi cyfrannu at yr ymchwil trwy'r cyfweliadau i beidio â llenwi'r arolwg. Gofynnai'r arolwg hefyd gyfres o gwestiynau ansoddol caeedig a phenagored, tebyg i'r rhai a ofynnwyd yn y cyfweliadau.

2.8 Roedd y sampl o 59 o sefydliadau a atebodd yr arolwg yn cyfyngu ar allu i gyffredinoli unrhyw ddata meintiol y gellid ei godio o'r sampl. Mae'r adroddiad hwn felly wedi cyfyngu ar y defnydd a wna ar ddata'r arolwg i ymatebion ansoddol, gan yn hytrach ddewis cyfeirio at y data ansoddol dim ond pan fydd yn cyferbynnu'n llwyr â'r data o'r cyfweliadau â buddiolwyr neu pan fydd yn cynnig dirnadaeth unigryw. Oni nodir yn wahanol a'i nodi'n benodol, felly, mae'r holl ddata buddiolwyr wedi codi o'r cyfweliadau â buddiolwyr.

# 3. Canfyddiadau: Canlyniadau

## Allbynnau a pherfformiad yn erbyn y dangosyddion

3.1 Mae Tabl 3.1 isod yn amlinellu'r perfformiad hyd yn hyn, yn ogystal â'r allbynnau a ragwelir erbyn diwedd oes 3-SET a'r cyfanswm a gyflawnwyd mewn perthynas â'r dangosyddion craidd. Disgwylir i 3-SET ragori ar ei darged nifer y digwyddiadau hyfforddi a gynhaliwyd er mwyn cyflawni'i dargedau lledaenu gwybodaeth a datganiadau i'r wasg a chyrraedd 90 y cant o'i darged cylchlythyrau a gyhoeddwyd. Ailosodwyd y targedau yn dilyn Brexit er mwyn cyfrif am y llai o ffocws ar hyfforddiant, ond dywedodd personél rheoli fod hynny wedi arwain at sgil-effaith o ran pa mor ddefnyddiol oedd y cylchlythyrau a'r angen am gynifer ohonynt. Yn sgil hyn, gwnaed penderfyniad i anfon llai o gylchlythyrau mewn cytundeb â WEFO:

> 'Rydyn ni wedi gorfod newid hynny yn ystod y prosiect. Roeddem yn arfer anfon mwy o wybodaeth ond roeddem yn gweld fod hynny'n ormod. Roedd llawer o hyrwyddo ar ein cyrsiau hyfforddi. Dechreuon ni yrru ychydig yn llai allan ond bod mwy o ansawdd ynddo.' (Cyfweliad â rheolwr, 2020)

**Tabl 3.1: Perfformiad 3-SET yn erbyn targedau dangosyddion**

| Dangosydd Craidd WEFO | Cyfanswm y Targed | Cyflawnwyd erbyn Chwarter 2 2020 | Nifer ychwanegol a ragwelir erbyn 2023 | Cyfanswm a gyflawnwyd ac a ragwelir |
|---|---|---|---|---|
| Nifer y digwyddiadau hyfforddi a gynhaliwyd | 108 | 89 | 30 | 119 |
| Nifer yr adroddiadau ymchwil a gyhoeddwyd | 1 | 0[3] | 1 | 1 |
| Nifer y digwyddiadau lledaenu gwybodaeth | 43 | 34 | 15 | 49 |
| Nifer y datganiadau i'r wasg | 15 | 10 | 5 | 15 |
| Nifer yr e-gylchlythyrau a gyhoeddwyd | 435 | 335 | 100 | 435 |

Ffynhonnell: 3-SET


[3] Cyhoeddwyd adroddiad ymchwil. Fodd bynnag, roedd 3-SET yn rhan o'r tîm a gydlynodd yr adroddiad Grymuso Cymunedau yng Nghyd-destun Brexit; o'r herwydd, ni chafodd ei hawlio yn ganlyniad, gan nad oedd y ffocws yn dod yn llawn o dan gylch gwaith 3-SET. Yn dechnegol, ni chafodd ei gyhoeddi fel adroddiad 3-SET. Gweler hefyd yr adran 'Eiriolaeth ac ymgysylltu â pholisi' isod.

**Digwyddiadau hyfforddi**

3.2 O'r cyfanswm o 119 o ddigwyddiadau hyfforddi a gyflawnwyd ac a ragwelwyd, roedd disgwyl (neu mae disgwyl) i tua hanner fod mewn ystafell ddosbarth, tra bod disgwyl (neu mae disgwyl) i'r hanner arall fod naill ai'n weminarau neu'n gyrsiau ar-lein, ac oherwydd pandemig y coronafeirws rhagwelir y bydd hi'n angenrheidiol cyflenwi mwy ar-lein yn ystod 2020 a thu hwnt.

3.3 Cynhaliwyd digwyddiadau hyfforddiant yn y cnawd ledled Cymru, er bod y mwyafrif wedi'u cynnal yng Nghaerdydd, Caerfyrddin, Wrecsam, a Bae Colwyn. Er yr ymddengys bod rhai ardaloedd yng Nghymru heb gynrychiolaeth ddigonol, tuedda lleoliad yr hyfforddiant yn y cnawd i adlewyrchu daearyddiaeth y sector. Yn naturiol, roedd y digwyddiadau o bell ar gael i unrhyw un mewn unrhyw ran o Gymru.

**Ffigur 3.1: Lleoliad yr hyfforddiant**




3.4 Cynhaliwyd yr hyfforddiant gan ddarparwyr allanol ar 38 achlysur. Mae'r rhain yn bersonél neu sefydliadau darparu arbenigol.

3.5 Mae'r cyrsiau hyfforddi wedi ymdrin ag ystod o bynciau. Mae'r rhain yn cynnwys digwyddiadau rhagarweiniol a gwybodaeth fel 'Beth yw Cyllid Ewropeaidd'; cyrsiau

yn seiliedig ar reolaeth gyffredinol, gweithredu, a gwerthuso, megis 'Diogelu Data a Chyfrinachedd'; cyrsiau prosiect-benodol fel 'Casglu Data a Chywirdeb ar gyfer Prosiectau Cynhwysiant Gweithredol'; a chyrsiau sydd wedi'u hanelu at ddatblygu a chefnogi'r sector yn fwy cyffredinol, megis 'Cynllunio Olyniaeth'. Mae rhestr lawn o gyrsiau a sawl gwaith y cawsant eu cynnal i'w gweld yn Atodiad A.

**Digwyddiadau lledaenu gwybodaeth**

3.6 Cynhaliwyd cyfanswm o 34 o ddigwyddiadau lledaenu gwybodaeth hyd yn hyn. Amlinellir y rhain yn Nhabl 3.2 isod. Roedd tua thraean (11) o'r rhain wedi'u cynnal yng Nghaerdydd, gyda'r gweddill wedi'u lleoli ledled Cymru neu eu cynnal ar-lein. Ar gyfartaledd roedd 21 o bobl yn bresennol yn y digwyddiadau, er bod yr union nifer yn amrywio o bedwar i 104.

**Tabl 3.2: Y digwyddiadau lledaenu gwybodaeth a gynhaliwyd**

| Digwyddiad lledaenu gwybodaeth | Sawl gwaith y'i cynhaliwyd |
|---|---|
| 'Mae Ewrop o bwys i Gymru' – Trechu tlodi ac allgáu cymdeithasol | 1 |
| Digwyddiad gwybodaeth Rhaglen Gwaith ac Iechyd yng Nghymru | 2 |
| Digwyddiad rhanbarthol Cyflogadwyedd a Sgiliau | 3 |
| Gofod3 – gweithdy Cronfa Cynhwysiant Gweithredol | 1 |
| Cynhwysiant Gweithredol – y bennod nesaf (digwyddiadau rhanbarthol) | 3 |
| Cynhwysiant Gweithredol – y bennod nesaf (prif ddigwyddiad yng Nghaerdydd) | 1 |
| Dyfodol Cyllid Datblygu Rhanbarthol ar ôl Brexit | 4 |
| Diwrnod Ewrop 2018 – y Gronfa Tyfu Busnesau Cymdeithasol (SBGF) ac Ewrop | 1 |
| Digwyddiad Cefnogi Trydydd Sector Cymru (TSSW): Grymuso Cymunedau yng [illegible] | 3 |
| Gofod3 – Grymuso Cymunedau yng nghyd-destun Brexit | 1 |
| Cynhwysiant Gweithredol a digwyddiad MAP | 3 |
| Cyfarfodydd rhwydwaith 3-SET | 8 |
| Gweminar: Ymgynghoriad ar y fframwaith buddsoddi rhanbarthol | 1 |
| Ymgynghoriad buddsoddi rhanbarthol – grwpiau ffocws bord gron | 2 |
| **Cyfanswm** | **34** |

**Ymholiadau**

3.7 Mae 3-SET hefyd yn ymgysylltu â buddiolwyr trwy ymateb i ymholiadau uniongyrchol. Ymatebodd y tîm i gyfanswm o 311 o ymholiadau ar ystod o bynciau. Fodd bynnag, roedd y rhai mwyaf cyffredin yn ymholiadau cyffredinol (37 y cant o'r holl ymholiadau), yn gofyn am wybodaeth neu am gael eu cyfeirio i rywle arall. Nid oedd yr un pwnc penodol wedi ennyn ymholiadau aml na niferus. Roedd tua naw y cant yn ymwneud â digwyddiadau hyfforddi, saith y cant yn benodol am broblemau a ffynonellau cyllid, a phedwar y cant yn ymwneud â Brexit.

**E-gylchlythyrau**

3.8 Dosbarthwyd cyfanswm o 335 o e-gylchlythyrau, er bod data ar gael mewn perthynas â 309 ohonynt. Anfonwyd bron i hanner y rhain (43 y cant) fel rhan o gylchlythyr CGGC, tra bod dros draean (36 y cant) yn ddiweddariadau uniongyrchol am gyllid. Ar ben hynny, roedd tua 50 o gylchlythyrau mewn perthynas â materion neu elfennau penodol ar gylch gwaith 3-SET, megis 'diweddariad Erasmus+', 'Arolwg Cyllido Ewropeaidd', neu hyrwyddo 'Ymgynghoriad ar Fuddsoddi Rhanbarthol yng Nghymru'.

**Eiriolaeth ac ymgysylltu â pholisi**

3.9 Mae 3-SET wedi ymgysylltu'n uniongyrchol â'r strwythurau llunio polisi ffurfiol yng Nghymru a thu hwnt, yn bennaf trwy ymateb i ymgynghoriadau, cyflwyno tystiolaeth i ymholiadau pwyllgorau Cymru a'r Deyrnas Unedig, ac ymchwilio a chyhoeddi adroddiadau ymchwil a thystiolaeth. Yn gyfan gwbl, hyd yma, mae 3-SET wedi ymateb i 15 ymgynghoriad neu ymholiad yng Nghymru neu'r DU, wedi cyfrannu at Grŵp Cynghori ar Brexit yr Ysgrifennydd Gwladol, wedi cyflwyno sylwadau i Adolygiad Cynhwysfawr o Wariant 2020, ac wedi cyhoeddi adroddiad 'Grymuso Cymunedau yng nghyd-destun Brexit' (CGGC, 2019). Yn ogystal, mae 3-SET wedi mynychu a chyfrannu at 16 o rwydweithiau ffurfiol yn amrywio o rwydweithiau trawswladol Iwerddon-Cymru i'r Glymblaid Cydraddoldeb a Hawliau Dynol ac i rwydweithiau sy'n ymwneud â datblygu rhaglenni newydd a chynllunio ar gyfer y dyfodol, megis Grŵp Llywio Buddsoddi Rhanbarthol Cymru (RIWSG).


**Effaith**

*Effaith gyffredinol*

3.10 Yn rhan o’r gwerthusiad hwn, aeth yr ymchwil ati i chwilio am dystiolaeth o’r effaith y mae’r gweithgareddau wedi’i chael ar sefydliadau a’r sector yn fwy cyffredinol.

3.11 Pan ofynnwyd iddynt drafod yr effaith arnynt hwy eu hunain neu ar eu sefydliad, awgrymodd mwyafrif sylweddol o’r rhai a gyfwelwyd fod o leiaf un maes o’u gweithrediad neu eu sefydliad wedi’i wella neu ei ddatblygu oherwydd y gefnogaeth gan 3-SET. Mae Ffigur 3.2 isod wedi categoreiddio ymatebion y cyfweliad. Mae’r ffigur yn dangos y meysydd y nodwyd yr effeithiwyd arnynt yn sgil eu hymgysylltiad â 3-SET. Mae’r ymateb yn adlewyrchiad o’r sampl, h.y. nid oedd pob categori’n berthnasol i bob ymatebydd. Fodd bynnag, yr hyn sy’n bwysig ei nodi yma yw mai ychydig iawn o ymatebion a nododd ‘dim effaith’ neu ‘dim effaith eto’. Mewn geiriau eraill, roedd y gefnogaeth o ryw fudd i bron pawb a ymgysylltodd â 3-SET.


**Ffigur 3.2: Effaith ar eich sefydliad**




(Nifer yr ymatebion = 52)


3.12 Archwiliodd y cyfweliadau hefyd i ba raddau y mae sefydliadau wedi elwa o'r gefnogaeth. Gofynnwyd i'r rhai a gyfwelwyd roi sgôr rhwng 1 a 10 i fudd y gefnogaeth iddynt. Er ei fod yn fesur goddrychol, y mae (serch hynny) yn esboniadol ddefnyddiol, a chan fod y rhan fwyaf o'r sgoriau yn 8 (32 y cant), 9 (34 y cant) neu 10 (12 y cant), h.y. 78 y cant o'r holl sgoriau, awgrymir bod mwyafrif y rhai a gyfwelwyd wedi gwerthfawrogi a gweld budd i'r cymorth a gawsant. Cyflwynir y data isod i ddangos y budd i'r sefydliad a'r unigolyn a gâi ei gyfweld.

**Ffigur 3.3: Faint wnaeth eich sefydliad elwa o'r cyswllt a gawsoch â 3-SET?**




Ffynhonnell: Cyfweliadau â buddiolwyr (N=52)

**Ffigur 3.4: Faint wnaethoch chi elwa o'r cyswllt a gawsoch â 3-SET?**




Ffynhonnell: Cyfweliadau â buddiolwyr (N=52)

3.13 Roedd y sylwadau a roddwyd yn ymwneud â’r effaith yn adlewyrchu’r sgôr gadarnhaol a ddangosir yn Ffigurau 3.3 a 3.4, ac yn awgrymu’n gryf bod buddiolwyr yn gwerthfawrogi’r gefnogaeth a dderbyniwyd. Nododd bron pob un ohonynt elfennau penodol yn eu sefydliad neu eu gwaith sydd wedi datblygu o ganlyniad i'r gefnogaeth:

> ‘[...] o, wyth, ie. [Fe wnaethon ni] ddatblygu cysylltiadau gyda sefydliadau’r trydydd sector, ac wedi hyrwyddo fy sefydliad gyda phobl ledled yr ardal, [ac mae] wedi datblygu fy ngwybodaeth am wneud ceisiadau a rheoli prosiect.’ (Cyfweliad â buddiolwr, 2020)

> ‘Deg allan o ddeg. Rwyf wedi gwella fy sgiliau rheoli prosiect a, gyda chefnogaeth 3-SET, rydym wedi rhoi gwell prosesau adrodd a monitro ar waith.’ (Cyfweliad â buddiolwr, 2020)

3.14 Roedd tystiolaeth hefyd o gefnogi a datblygu sgiliau meddalach megis hyder, ynghyd ag annog a chefnogi sefydliadau i ddyfalbarhau ag ymdrechion i gynnwys eu hunain mewn cyllid Ewropeaidd:


> ‘Wyth. Fe roeson nhw hwb i fy hyder a fy helpu i ddeall y prosesau monitro trwy hyfforddiant a chael cyngor gan fy mherson cyswllt yn 3-SET.’ (Cyfweliad â buddiolwr, 2020)

> ‘Mae 3-SET wedi rhoi arweiniad gwerthfawr i ni ac wedi ein cadw ar y trywydd iawn ac wedi diweddaru’r hyfforddiant pan oedd angen. Fe wnaeth ein prosiect ESF cyntaf ni fethu ond roedd y gwersi a ddysgwyd a mantais ychwanegol cefnogaeth 3-SET yn golygu bod y prosiect cyfredol hwn wedi bod yn llwyddiant mawr.’ (Cyfweliad â buddiolwr, 2020)

3.15 Soniodd tua deuparth (67 y cant) y buddiolwyr a gafodd eu cyfweld hefyd am newidiadau penodol a wnaed i’r sefydliadau o ganlyniad i’r gefnogaeth.

3.16 Dywedodd mwyafrif y rhai a gyfwelwyd (65 y cant) hefyd fod y newidiadau a wnaethant o ganlyniad i gefnogaeth 3-SET yn dal i fod ar waith. Nododd y gweddill eu bod yn credu y byddai’r newidiadau hyn yn aros yn eu lle tan ddiwedd y prosiect (o leiaf).

**Ffigur 3.5: Ydych chi wedi gwneud unrhyw newidiadau o ganlyniad i'r cymorth?**




Ffynhonnell: Cyfweliadau â buddiolwyr (N=52)

*Cwestiynau ymchwil allweddol*

3.17 Bydd yr is-adrannau a ganlyn yn mynd i'r afael â chwe chwestiwn ymchwil allweddol y gwerthusiad yn eu tro. Archwiliwyd y cwestiynau hyn yn benodol yn y cyfweliadau a'r arolwg ar-lein.

**Cwestiwn ymchwil allweddol 1: A yw 3-SET wedi llwyddo i annog sefydliadau'r trydydd sector i ymgeisio i Gronfeydd Strwythurol pan na fyddent fel arall efallai wedi gwneud hynny?**

3.18 Y farn yn eang oedd bod gwaith 3-SET wedi annog sefydliadau'r trydydd sector i wneud cais am gyllid Ewropeaidd. Roedd hyn yn wir er bod llawer yn derbyn ei bod yn anoddach ymgeisio yn ystod y cylch cyllido presennol oherwydd newidiadau strategol.[4]

3.19 Roedd mwyafrif y rhai a gyfwelwyd (82 y cant) o'r farn bod 3-SET, i ryw raddau neu i raddau helaeth, wedi eu hannog i wneud cais. Dywedodd y 18 y cant arall fod y penderfyniad eisoes wedi'i wneud ac nad oedd angen unrhyw anogaeth. Awgrymodd 14 o'r 27 a ymatebodd i'r un cwestiwn yn yr arolwg ar-lein fod 3-SET

[4] Yn benodol, roedd crynodiad y cyllid trwy raglenni mwy o faint wedi arwain at gyfleoedd i sefydliadau llai gymryd rhan yn bennaf trwy ddarparu ar ran y rhaglenni mwy hyn, megis Cynhwysiant Gweithredol, yn hytrach na bod yn fuddiolwyr uniongyrchol dyfarniadau cyllido. Fodd bynnag, byddai cyflawni i amcanion Cynhwysiant Gweithredol yn naturiol yn culhau nifer y sefydliadau sydd â'r sgiliau a'r arbenigedd ar gyfer hynny.


wedi annog ceisiadau, gyda phedwar ymateb yn awgrymu nad oeddent wedi gwneud hynny[5]:

‘Cyn 3-SET byddem wedi bod yn bryderus ynghylch gwneud cais uniongyrchol am gyllid gyda WEFO. Roedd gwybod bod gennym gefnogaeth tîm 3-SET wedi rhoi hyder inni gyflwyno’r syniad prosiect hwn a gwneud cais am y cyllid. Fe wnaeth 3-SET ein helpu i ddrafftio ein cais, a gwneud awgrymiadau i wella’r cais a chyd-fynd yn well â gofynion yr UE.’ (Cyfweliad â buddiolwr, 2020)

3.20 Soniodd buddiolwyr am ystod o ffyrdd y cawsant eu hannog i ymgeisio. Mae’r rhain wedi’u casglu ynghyd yn Ffigur 3.6 isod. Cyfeiriodd bron i hanner (48 y cant) y rhai a gyfwelwyd at y gefnogaeth a gawsant trwy gydol y broses, gan sôn yn aml am eu hyder y byddai cefnogaeth 3-SET ar gael trwy gydol oes y cais. Cyfeiriodd tua thraean (36 y cant) hefyd at yr ymdrechion i godi ymwybyddiaeth o’r cyllid sydd ar gael:

‘[Fe wnaethant] ein hannog a’n tywys trwy’r broses ymgeisio gyfan. [Fe wnaethant] esbonio beth oedd y cyllid a sut roedd yn gweithio ac roedden ni’n gwybod y bydden nhw’n rhoi cyngor ar gyfer y cais.’ (Cyfweliad â buddiolwr, 2020)

**Ffigur 3.6: Sut roedd 3-SET wedi annog ceisiadau?**




[5] ‘Ddim yn berthnasol’ oedd naw ateb.

Ffynhonnell: Cyfweliadau â buddiolwyr (N=52)

3.21 Roedd llawer hefyd yn ystyried bod ffactorau meddalach yn bwysig, megis cynyddu hyder i wneud cais (33 y cant), gyda thua un bob pump (21 y cant) hefyd yn awgrymu bod 3-SET wedi gwneud y broses yn fwy hygyrch:

> ‘Mae 3-SET yn codi ymwybyddiaeth am gyllid ESF ac yn esbonio ac yn rhoi cymorth drwy’r broses ymgeisio er mwyn i sefydliadau deimlo’n fwy hyderus ynghylch ymgeisio.’ (Cyfweliad â buddiolwr, 2020)

3.22 Cyfeiriodd buddiolwyr gan mwyaf at yr wybodaeth a oedd yn cael ei lledaenu, yn aml trwy gylchlythyrau a chynadleddau, i fod y prif ffyrdd y cawsant eu hannog i wneud cais. Yn ogystal, soniodd ambell un am yr hyder a ddatblygwyd o ganlyniad i’r hyfforddiant, gan awgrymu bod gweithgareddau ehangach 3-SET yn cefnogi meithrin hyder yn y sector trwy uwchsgilio:

> ‘Mae’r hyfforddiant wedi rhoi sgiliau gwell i ni ysgrifennu cais a mwy o gyfleoedd cydweithredu i fod yn rhan o brosiectau Ewropeaidd. Esboniodd 3-SET yn dda iawn hefyd y broses ysgrifennu cais.’ (Cyfweliad â buddiolwr, 2020)

3.23 Nododd rhanddeiliaid hefyd fod 3-SET wedi bod yn llwyddiannus wrth annog ceisiadau, yn enwedig trwy godi hyder darpar ymgeiswyr. Dywedwyd bod lledaenu gwybodaeth a’r cynadleddau a gynhaliwyd yn ffactorau allweddol. Soniodd rhanddeiliaid eraill am sefydliadau newydd yn ymgeisio am arian, yn rhannol o leiaf oherwydd cefnogaeth 3-SET:

> ‘Maen nhw wedi bod yn hynod lwyddiannus wrth sicrhau bod sefydliadau’r trydydd sector yn gwneud cais. Ond mae rhai yn dychryn ac maen nhw’n helpu’r trydydd sector i fynd trwy hynny. Maen nhw’n cynnal cynadleddau a chyfarfodydd cenedlaethol i roi gwybod y gallan nhw helpu gyda hynny.’ (Cyfweliad â rhanddeiliad, 2020)

> ‘Ar ôl cael profiad gyda rhaglenni blaenorol, [gallaf ddweud mai] y rhai arferol sy’n gysylltiedig ag ymgeisio am arian. Ond rydym hefyd wedi gweld sefydliadau newydd yn dod i’r gofod hwnnw a allai cyn hynny fod wedi diystyru cyllid Ewropeaidd.’ (Cyfweliad â rhanddeiliad, 2020)

3.24 Adlewyrchwyd yr awgrymiadau hyn mewn cyfweliadau â phersonél rheoli a oedd yn aml wedi nodi ffyrdd tebyg y mae 3-SET, yn eu barn nhw, wedi ymgysylltu ac annog ceisiadau:

> ‘Yn sicr. Dechreuais yn [enw’r sefydliad] ac ers hynny, beth rydw i wedi’i weld yw – roedd gennym gynulleidfa eisoes o’r prosiect blaenorol – roedd gennym gynulleidfa. Ond mi gawson ni lawer o bobl (sydd ers hynny wedi dod i wybod am brosiectau) nad oeddent yn gwybod pa gyfleoedd oedd ganddynt. Rydyn ni wedi gallu rhoi gwybodaeth sylfaenol nad oedd pobl yn gwybod amdani o’r blaen. Roedd llawer o bobl newydd wedi dod ar ein rhestrau postio ac wedi mynychu ein digwyddiadau.’ (Cyfweliad â rheolwr, 2020)

**Cwestiwn ymchwil allweddol 2: A yw 3-SET wedi rhoi arweiniad clir ac effeithiol sydd wedi cefnogi sefydliadau’r trydydd sector i ymgeisio’n llwyddiannus am Gronfeydd Strwythurol?**

3.25 Roedd mwyafrif y buddiolwyr o’r farn fod 3-SET wedi darparu canllawiau effeithiol i’w cefnogi i wneud cais llwyddiannus am gyllid. Awgrymodd 78 y cant o’r rhai a gyfwelwyd eu bod wedi gwneud hynny i ryw raddau (10 y cant) neu i raddau mwy (68 y cant). Ni chafwyd awgrym gan unrhyw un nad oeddent wedi cael cefnogaeth ynghylch gwneud cais am gyllid.[6] O’r 27 ymatebydd a atebodd y cwestiwn yn yr arolwg ar-lein, dim ond tri a awgrymodd nad oedd y gefnogaeth wedi eu helpu yn eu ceisiadau am arian.

3.26 Soniodd buddiolwyr fel arfer am ddwy ffordd arwyddocaol yr oedd arweiniad 3-SET wedi cefnogi eu ceisiadau. Awgrymodd oddeutu pedwar o bob pump ohonynt (79 y cant) fod adolygu ffurflenni yn aml yn arbennig o fuddiol:

> ‘Roedd 3-SET bob amser ar gael i edrych drwy rannau o’n cais a dweud wrthon ni sut y gellid ei wella.’ (Cyfweliad â buddiolwr, 2020)

3.27 Tynnodd dros hanner (55 y cant) sylw arbennig hefyd at y ffordd yr oedd cefnogaeth gan aelodau 3-SET wedi gwella eu ceisiadau. Roedd llawer o’r rhai a gyfwelwyd wedi priodoli’r gwelliannau a awgrymwyd i lwyddiant eu ceisiadau yn y pen draw:

> ‘Mae 3-SET yn mynd drwy’r holl broses ymgeisio ac yn ei hegluro’n dda iawn. Mae 3-SET yn adolygu eich cais ac yn awgrymu newidiadau i’w wneud yn well.’ (Cyfweliad â buddiolwr, 2020)

[6] Teimlai 22 y cant nad oedd y cwestiwn yn berthnasol, yn aml oherwydd nad oedd yr unigolyn a gafodd ei gyfweld yn teimlo y gallent wneud sylw, gan nad oeddent wedi bod yn rhan o’r broses ymgeisio.

3.28 Roedd hyd yn oed y rhai a nododd eu bod wedi gwneud cais cyn ymgysylltu wedi dweud eu bod wedi cael arweiniad effeithiol yng nghamau diweddarach y prosiectau, gan dystiolaethu'r ffaith bod hyd yn oed y rhai a oedd eisoes wedi llwyddo yn eu cynigion yn dal yn barod i fynd i ofyn am arweiniad a chefnogaeth 3-SET:

> 'Roedden ni eisoes wedi gwneud y cais cyn bod mewn cysylltiad â 3-SET. Fe wnaethon nhw adolygu ein cais i adnewyddu'r cyllid a gwneud awgrymiadau ar sut y gellid ei wella.' (Cyfweliad â buddiolwr, 2020)

**Cwestiwn ymchwil allweddol 3: A yw 3-SET wedi rhoi arweiniad clir ac effeithiol sydd wedi cefnogi sefydliadau'r trydydd sector i weithredu prosiectau'r Cronfeydd Strwythurol yn llwyddiannus?**

3.29 Yn yr un modd â'r canllawiau mewn perthynas â cheisiadau, roedd mwyafrif llethol y buddiolwyr hefyd o'r farn fod 3-SET wedi rhoi arweiniad effeithiol ar gyfer cefnogi cyflawni eu prosiectau. Ymysg y rhai a gyfwelwyd, awgrymodd 76 y cant eu bod wedi gwneud hynny i ryw raddau (10 y cant) neu i raddau mwy (66 y cant). Unwaith eto, nid oedd unrhyw un ohonynt wedi awgrymu nad oeddent wedi darparu cefnogaeth o'r fath.[7] O'r 27 ymatebydd i'r arolwg ar-lein, teimlai 11 ymatebydd fod y gefnogaeth wedi cynorthwyo'r cyflawni, tra mai dim ond pedwar a ddywedodd nad oedd yr arweiniad wedi cefnogi eu ceisiadau; ni theimlai'r gweddill fod y cwestiwn yn berthnasol.

3.30 Cyfeiriai buddiolwyr yn aml at bedair prif ffordd yr oedd arweiniad 3-SET wedi cefnogi eu gwaith yn cyflawni prosiectau. Yn gyntaf, awgrymodd bron i naw o bob 10 (87 y cant) o'r rhai a gyfwelwyd fod cefnogaeth gan 3-SET wedi eu helpu i ddatblygu eu prosesau monitro:

> 'Fe wnaethon nhw ein helpu i roi gweithdrefnau ar waith ar gyfer caffael a rhoi arweiniad a hyfforddiant penodol inni ynghylch casglu data, cofnodi tystiolaeth a gwneud hawliadau. Ac fe roeson nhw gyngor inni pan wnaethon ni gamgymeriadau a dod ar draws problemau gyda'r broses hawlio.' (Cyfweliad â buddiolwr, 2020)

[7] Teimlai 24 y cant nad oedd y cwestiwn yn berthnasol – fel arfer nid oedd yr ymatebwyr hyn yn teimlo eu bod wedi derbyn cefnogaeth wrth gyflawni prosiectau ac, felly, ni allent wneud sylwadau ar effaith cefnogaeth o'r fath.

3.31 Yn ail, awgrymodd tua chwarter (26 y cant) fod 3-SET wedi cefnogi eu hymgysylltiad â WEFO yn benodol, ac, yn drydydd (hefyd 26 y cant), wedi eu helpu i fodloni'r gofynion y disgwylid ohonynt wrth gyflawni'r prosiect. Yn olaf, roedd tua chwarter (23 y cant) yn teimlo bod 3-SET yn cefnogi ac yn annog gwell prosesau gweinyddol a oedd yn y pen draw wedi eu galluogi i gyflawni'r prosiectau yn llwyddiannus. Unwaith eto, cyfeiriwyd at y cyrsiau hyfforddi (ynghyd â sgyrsiau anffurfiol ac ymholiadau cyflym) fel y prif ffyrdd y rhoddwyd y gefnogaeth hon:

> 'Maen nhw wedi rhoi llawer o ganllawiau ar reoli prosiect, hefyd trwy'r hyfforddiant. Maen nhw hefyd wedi rhoi hyfforddiant i staff newydd ar y broses casglu tystiolaeth a hawliadau.' (Cyfweliad â buddiolwr, 2020)

3.32 At hynny, roedd y rhai a gyfwelwyd wedi gallu dangos effeithiolrwydd a gwerth rôl 3-SET fel cyfryngwr rhwng y sefydliadau cyflenwi a'r sefydliadau cyllido. Roedd rhai wedi manylu ynghylch y ffordd yr oedd 3-SET nid yn unig wedi rhoi arweiniad a hyfforddiant ond hefyd wedi cefnogi sefydliadau wrth ddelio â WEFO, yn ogystal â sicrhau bod y data y gofynnai WEFO amdano yn ei dro yn cael ei gasglu'n effeithiol gan y sefydliadau cyflenwi:

> 'Ydyn, maen nhw'n rhoi gwybodaeth, hyfforddiant ac arweiniad ond, yn bwysicach fyth, maen nhw'n eich cefnogi chi gyda'r cyfarfodydd gyda WEFO. Mae 3-SET yn sicrhau eich bod yn bodloni'r gofynion cyllido o ran tystiolaeth, ond yn eich helpu i addasu a newid. Er enghraifft, mae ein carfan yn rhai anodd iawn eu cyrraedd ac mae problemau yn ymwneud â phwy sy'n gymwys, ond helpodd 3-SET i ddadlau hyn gyda WEFO [mewn perthynas â heriau yn ymwneud â chasglu data].' (Cyfweliad â buddiolwr, 2020)

3.33 Roedd gan randdeiliaid farn debyg, gan weld gwerth 3-SET fel cyfryngwr, yn cefnogi sefydliadau cyflenwi a chyllido i gyflawni eu hamcanion:

> 'Rwy'n credu bod rhai pobl yn meddwl mai mynd yn uniongyrchol at WEFO yw'r ffordd iawn i'w wneud ac yna mae hynny'n gallu achosi rhai problemau go iawn iddyn nhw. Mae 3-SET yn osgoi hyn ac yn helpu sefydliadau gyda hynny.' (Cyfweliad â rhanddeiliad, 2020)

3.34 Awgrymodd personél rheoli fod y gefnogaeth y mae 3-SET yn ei chynnig, yn enwedig yr arweiniad, yn cyfrannu at fodloni gofynion cydymffurfio ac, yn y pen draw, cyflawni effeithiol. Cyfeiriwyd yn aml at y Corff Cyfryngol (IB) o fod yn ffordd o hwyluso'r gefnogaeth hon:

'O'r hyn dwi'n ei ddeall mae'r corff cyfryngol yn dechnegol o dan strwythur 3-SET[8] ac maen nhw'n cynnig cefnogaeth gyda hawliadau, ac mae'n dangos gymaint o wahaniaeth mae'r gefnogaeth yn ei wneud. Mae yna ganran – alla i ddim cofio'r union ffigur – sy'n dangos cyfraddau cydymffurfio uwch. Hefyd, yn gyffredinol, dros y blynyddoedd mi gredaf fod y sector wedi'i phrofi i fod yn effeithlon ac yn llwyddiannus iawn wrth gyflawni'r prosiectau hyn ac yn fy marn i mae'n dangos y gallan nhw ei wneud e gyda'r gefnogaeth gywir.' (Cyfweliad â rheolwr, 2020)

'Yn enwedig gyda'r ffordd yr ydyn ni'n gweithio gyda'r corff cyfryngol a'r rôl sydd gennym i weithredu ar eu rhan. O'r strwythurau hyn sy'n bodoli, ni yw'r unig un nid-er-elw ac rydyn ni wedi helpu sefydliadau i fynd trwy'r rheoliadau, ac yna lledaenu canllawiau mewn ffordd hawdd eu deall. Dydych chi ddim yn gallu diogelu ar gyfer pob sefyllfa, ond (o'r hyn a ddeallaf i) roedd cydymffurfiad sefydliadau eraill yn bendant wedi cynyddu.' (Cyfweliad â rheolwr, 2020)

**Cwestiwn ymchwil allweddol 4: A yw 3-SET wedi hyrwyddo rhwydweithio a chydweithredu yn y trydydd sector?**

3.35 Mae hyrwyddo rhwydweithio a chydweithredu yn elfen allweddol arall ar gefnogaeth 3-SET i sefydliadau sy'n gweithredu yn y trydydd sector. Dywedodd naw o bob 10 o'r rhai a gyfwelwyd (90 y cant) fod cydweithredu wedi'i hybu, gyda hanner y cyfranogwyr hefyd yn nodi'n benodol mai digwyddiadau a drefnwyd gan 3-SET, ynghyd â'r cyfarfodydd rhwydwaith i'r rhai a fynychodd, oedd y prif ffyrdd y cyflawnwyd hyn. Fodd bynnag, dywedodd y rhai a gyfwelwyd hefyd fod y sesiynau hyfforddi yn gyfleoedd pellach i rwydweithio, ynghyd â'r cylchlythyr/bwletin wrth iddynt godi ymwybyddiaeth am brosiectau ehangach.

3.36 Mae cydweithredu wedi cynnwys rhannu arfer gorau rhwng sefydliadau, gallu adolygu effaith prosiectau lleol ac ymgysylltu â phersonél sy'n cyflwyno prosiectau tebyg iddynt hwy. Roedd yr olaf yn arbennig o amlwg ymhlith sefydliadau sy'n cynnal rhaglen gyffredin, megis Cynhwysiant Gweithredol:

'Rydyn ni wedi gwneud cysylltiadau â nifer o sefydliadau partner sy'n gwneud prosiectau Cynhwysiant Gweithredol. Mae cyfarfodydd rhwydwaith 3-SET hefyd

[8] Yn dechnegol, rhoddwyd statws corff cyfryngol (*Intermediary Body*/IB) i CGGC gan WEFO i fod yn awdurdod rheoli wrth wneud penderfyniadau cyllido ar geisiadau i'w nifer o gynlluniau cymorth ESF. Er yr ariannir costau IB a chostau 3-SET drwy Gymorth Technegol, mae 3-SET ar wahân i IB. Mae'r CGGC yn cael Cymorth Technegol o bedwar 'pot' cyllid gwahanol i gyflawni eu gweithgareddau IB a 3-SET.


yn golygu ein bod yn cysylltu â sefydliadau mewn gwahanol rannau o Gymru. Rydyn ni wedi bod yn fentoriaid i sefydliadau newydd sy'n dechrau cyflwyno prosiectau ESF am y tro cyntaf. Mae'r digwyddiadau rhwydwaith a gynhelir gan 3-SET yn golygu bod gan sefydliadau'r trydydd sector lwyfan i rannu gwybodaeth a phrofiadau.' (Cyfweliad â buddiolwr, 2020)

'Mae 3-SET yn cynnig llawer o gyfleoedd i rwydweithio trwy gyfarfodydd a digwyddiadau. Maen nhw hefyd yn eich cyfeirio at sefydliadau eraill sydd wedi gwneud prosiectau tebyg i gael help neu gefnogaeth [ganddynt]. Mae 3-SET yn tynnu sefydliadau'r trydydd sector at ei gilydd i gydweithio i gael canlyniadau gwell.' (Cyfweliad â buddiolwr, 2020)

3.37 Nid yn unig yr oedd y rhai a gyfwelwyd wedi sôn am fuddion rhwydweithio'r digwyddiadau hyn, ond hefyd wedi cyfeirio at y platfform a'r cyfleoedd a ddarparai 3-SET i arddangos a chodi proffil sefydliadau:

'Mae 3-SET yn trefnu digwyddiadau a chyfarfodydd rhwydweithio i roi cyfle i gysylltiadau ddatblygu rhwng sefydliadau'r trydydd sector. Cefais hyd yn oed fy ngwahodd i gyflwyno a thrafod ein profiadau mewn digwyddiad gwybodaeth CGGC ac roedd hwn yn hwb mawr i broffil ein sefydliad.' (Cyfweliad â buddiolwr, 2020)

**Ffigur 3.7: Sut mae 3-SET wedi hyrwyddo rhwydweithio a chydweithredu yn y trydydd sector?**




Ffynhonnell: Cyfweliadau â buddiolwyr (N=52)

3.38 Nododd rhanddeiliaid hefyd fod cynadleddau a chyfleoedd llai ffurfiol trwy sesiynau hyfforddi yn cynnig cyfleoedd i sefydliadau rwydweithio a datblygu'r potensial i gydweithio:

> 'O, do, ... rhai wedi cael cynadleddau a hyfforddiant. Mae [pandemig COVID-19] wedi golygu bod pethau'n wahanol, ond fel arfer byddai llawer o gyfleoedd i ddysgu am geisiadau a rhedeg prosiectau.' (Cyfweliad â rhanddeiliad, 2020)

**Cwestiwn ymchwil allweddol 5: A yw 3-SET wedi brocera'r cysylltiadau yn llwyddiannus rhwng y trydydd sector, WEFO, partneriaid rhanbarthol ac/neu awdurdodau lleol?**

3.39 Archwiliodd cyfweliadau hefyd i ba raddau yr oedd 3-SET wedi brocera cysylltiadau rhwng y trydydd sector a phartneriaid ehangach. Wrth gymharu'r cwestiwn ymchwil hwn â'r rhai a astudiwyd uchod, gwelir nad oedd yr ymatebion mor gadarnhaol. Serch hynny, roedd dros hanner (58 y cant) y rhai a gyfwelwyd yn dal i deimlo bod 3-SET wedi broceru cysylltiadau o'r fath i ryw raddau neu i raddau mwy, er bod tua un pumed (17 y cant) yn credu bod hyn wedi'i wneud i raddau bach yn unig. Awgrymai'r ymatebion y gellid gwneud mwy i ddatblygu'r cysylltiadau rhwng y trydydd sector a phartneriaid ehangach.

3.40 Dywedodd dros hanner y cyfranogwyr (59 y cant) fod eu hymwneud â 3-SET wedi arwain at frocera perthynas â'u hawdurdod lleol. Roedd hyn ddwywaith yn fwy na'r rheiny a oedd wedi nodi bod unrhyw gysylltiad wedi'i frocera â phartneriaid eraill. Yn aml, nodwyd bod y cysylltiadau hyn wedi datblygu yn sgil y ffaith fod personél awdurdodau lleol wedi bod yn rhan o rwydwaith 3-SET a'r cydweithredu â chynghorau ar brosiectau penodol:

> 'Ydym, i raddau helaeth, gan ein bod wedi cwrdd â nifer o awdurdodau lleol, cymdeithasau tai, a darparwyr hyfforddiant preifat ac wedi datblygu cysylltiadau trwy ddigwyddiadau a chyfarfodydd 3-SET.' (Cyfweliad â buddiolwr, 2020)

3.41 Er bod digwyddiadau penodol fel cynadleddau yn cael eu crybwyll weithiau fel y modd y ffurfiwyd neu y datblygwyd cysylltiadau, ochr yn ochr â rhwydwaith 3-SET, eto ymddengys bod y mwyafrif yn cael eu brocera trwy brosiectau penodol. Roedd hyn yn arbennig o wir yn achos sefydliadau a oedd yn cyflawni ar ran rhaglenni mwy o faint:

'Drwy brosiectau Cynhwysiant Gweithredol, rydyn ni wedi gweithio gydag awdurdodau lleol eraill a nifer o sefydliadau'r trydydd sector, ac mae 3-SET yn helpu'r cydweithredu hwn drwy drefnu a chynnal y cyfarfodydd rhwydweithio.' (Cyfweliad â buddiolwr, 2020)


3.42 Soniodd cyfranogwyr hefyd am ffurfio cysylltiadau â phartneriaid rhanbarthol (30 y cant), WEFO (24 y cant), a Llywodraeth Cymru (14 y cant):

'Mae 3-SET wedi paratoi'r ffordd a hwyluso ein perthynas â WEFO a'n helpu i ddangos sut roedd y targedau cychwynnol a osodwyd gan WEFO yn afrealistig. Yn y cyfarfodydd rhwydwaith mae cynrychiolwyr o'r awdurdodau lleol a darparwyr hyfforddiant preifat.' (Cyfweliad â buddiolwr, 2020)

3.43 Nododd tua un o bob pump o'r rhai a gyfwelwyd (22 y cant), fodd bynnag, mai prin iawn oedd y cyfleoedd a gawsant i rwydweithio â phartneriaid o'r tu allan i'r trydydd sector. Mynegwyd awydd unwaith eto gan rai i feithrin cysylltiadau y tu hwnt i'r trydydd sector pan ofynnwyd iddynt yn y cyfweliad beth deimlent oedd ar goll o gefnogaeth 3-SET:

'Dylai 3-SET geisio datblygu mwy o gysylltiadau rhwng y trydydd sector a'r awdurdodau lleol. Dylai 3-SET helpu i ddatblygu strategaeth drosfwaol ar draws rhanbarth cyfan gyda chydweithredu rhwng y trydydd sector, awdurdod lleol a chwmnïau preifat.' (Cyfweliad â buddiolwr, 2020)

**Ffigur 3.8: Sut/gyda phwy mae 3-SET wedi llwyddo i frocera cysylltiadau rhwng y trydydd sector, WEFO, partneriaid rhanbarthol ac/neu awdurdodau lleol?**



Ffynhonnell: Cyfweliadau â buddiolwyr (N=52)

3.44 Cafwyd rhagor o fanylion gan y rhanddeiliaid ynghylch sut yr oedd 3-SET wedi datblygu a brocera'r cysylltiadau â phartneriaid ehangach. Tynnwyd sylw arbennig at Lysgenhadon Cyllid yr UE a'r modd y casglwyd gwybodaeth gan bartneriaid allweddol a'i throsglwyddo i'r sector, a hynny yn ei dro wedi meithrin ymddiriedaeth a dealltwriaeth:

> 'Maen nhw wedi gwneud hyn yn llwyddiannus ac rwy'n credu bod gwaith [Llysgenhadon Cyllid yr UE] hefyd wedi canolbwyntio ar y berthynas honno, yn cwrdd ag arweinwyr rhanbarthol ac yna yn trosglwyddo'r wybodaeth i'r sector. Roedd hynny wedyn yn creu'r cysylltiadau ac yn meithrin y berthynas. Y rhan anoddaf yw gwneud hyn ar lefel leol, felly maen nhw wedi bod yn fwy llwyddiannus ar lefel genedlaethol.' (Cyfweliad â buddiolwr, 2020)

3.45 Teimlai rhanddeiliaid yn ogystal fod 3-SET, trwy weithredu fel cyfryngwr rhwng cyllidwyr a sefydliadau cyflenwi, yn ychwanegu gwerth a dealltwriaeth ac yn ehangu cyrhaeddiad CGGC a WEFO:

> '… byddai cyrhaeddiad WEFO yn llawer iawn llai heb 3-SET. Maen nhw'n gallu siarad â'r awdurdodau lleol ac â'r bobl maen nhw'n eu hariannu, ond hefyd mae'r ffordd maen nhw'n siarad yn rheolaidd â sefydliadau'r trydydd sector – mae 3-SET yn ychwanegu at gyfathrebu ehangach CGGC. [Yn ogystal] allai WEFO fyth gyrraedd [sefydliadau'r trydydd sector] yn yr un ffordd. Ac mae gan bobl ddiddordeb mewn [ymgysylltu, arweiniad a chyfathrebu] oherwydd ei fod wedi'i ysgrifennu gan 3-SET, nid gweision sifil.' (Cyfweliad â rhanddeiliad, 2020)

3.46 Teimlai personél rheoli 3-SET fod brocera a datblygu perthnasoedd yn ganolog i'w rôl a'u bod yn gweithredu fel corff cyfryngu, yn 'gyfieithydd' (cyfweliad â rheolwr, 2020) rhwng y sector a phartneriaid ehangach, yn enwedig cyllidwyr. Cyfeiriwyd ar fwy nag un achlysur at gyflwyno llofnodion digidol yn enghraifft o sut roedd 3-SET wedi gallu datblygu cyfaddawd ac atebion a oedd yn addas ar gyfer sefydliadau cyflenwi a'r sefydliadau cyllido:

> 'Mae hyn yn rhan enfawr o'r hyn y mae 3-SET yn ei wneud, gan wneud pethau'n ddealladwy i'r ddwy ochr – [gwneud pethau] Brwsel a pholisi yn ddealladwy i sefydliadau, a [gwneud] materion sefydliadau yn ddealladwy i lunwyr polisi. Mae cyflwyno llofnodion digidol yn enghraifft dda. Nid yw'n swnio llawer ond mae cymaint o fiwrocratiaeth ynghlwm [wrth gymeradwyo taliadau]. Gallai 3-SET

ledaenu'r wybodaeth am lofnodion digidol [a oedd yn hwyluso ac yn cynyddu'r cyflymder y gellid cymeradwyo taliadau a'u talu i sefydliadau gan fod cynifer o unigolion yn gweithio gartref yn ystod pandemig COVID-19]. Mae cael cefnogaeth 3-SET yn datgloi'r cyflenwi ac mae'n golygu y gall y trydydd sector gael ei dalu, ac mae llwybr awdit ar gyfer WEFO.' (Cyfweliad â rheolwr, 2020)

**Cwestiwn ymchwil allweddol 6: A yw 3-SET wedi cefnogi sefydliadau i gyflawni'r Themâu Trawsbynciol?**

3.47 Mae'r meini prawf sydd ynghlwm wrth y prosiectau yng nghylch gwaith 3-SET a ariennir gan Ewrop yn ei gwneud yn ofynnol i raglenni ymdrechu i integreiddio canlyniadau economaidd, cymdeithasol ac amgylcheddol. Mae hyn yn cyd-fynd ag egwyddor sefydliadol ganolog Llywodraeth Cymru o ddatblygu cynaliadwy a chyfrannu at ganlyniadau Themâu Trawsbynciol. Mae tair thema drawsbynciol:

- Cyfle cyfartal a phrif ffrydio rhywedd (gan gynnwys y Gymraeg a phrif ffrydio'r Gymraeg yng Nghymru oherwydd deddfwriaeth ddomestig);
- Datblygu cynaliadwy;
- Trechu Tlodi ac Allgáu Cymdeithasol.

3.48 Tynnwyd sylw gan sawl un a gyfwelwyd at y gred bod y trydydd sector yn gwneud cyfraniadau arbennig o werthfawr mewn perthynas â'r themâu trawsbynciol. Nododd rhanddeiliaid yn benodol fod y gwaith sy'n cael ei wneud gan y trydydd sector yn aml yn gwneud cyfraniadau fertigol, h.y. roedd y prosiectau a'r gwaith sy'n cael ei gyflawni yn mynd i'r afael yn uniongyrchol â thlodi ac yn mynd i'r afael ag allgáu cymdeithasol, prif ffrydio'r Gymraeg, neu ddatblygu cynaliadwy. Mae hyn yn amlwg o'r ystod o raglenni a ddarperir gan y trydydd sector, megis y rhai sy'n gysylltiedig â Chynhwysiant Gweithredol, sy'n ceisio mynd i'r afael â thlodi yn benodol trwy gefnogi cyflogaeth a mynediad at wasanaethau.

3.49 Roedd 3-SET hefyd o'r farn nid yn unig fod y trydydd sector wedi cyfrannu'n sylweddol at y themâu trawsbynciol, ond hefyd fod yr egwyddorion sy'n sail i'r themâu hefyd yn rhan annatod o'r sefydliadau cyflenwi eu hunain a'u gweithgareddau:

'Mae'r Themâu Trawsbynciol hynny yn sylfaenol i lawer o sefydliadau y mae 3-SET yn gweithio gyda nhw. Yn aml mae Cydraddoldeb, Amrywiaeth a Chynhwysiant, a chynaliadwyedd, wedi'u hysgrifennu drwy sefydliadau'r sector

fel neges mewn darn o roc, felly mae gan 3-SET gryn brofiad ac ymrwymiad i Themâu Trawsbynciol a'r buddiolwyr hynny, felly gallant gefnogi eu cyflawni a chyfeirio hynny'n ôl at WEFO.' (Cyfweliad â rheolwr, 2020)

3.50 Serch hynny, cred rhai rhanddeiliaid ei bod yn dal yn her cael tystiolaeth am gyfraniadau tuag at y themâu trawsbynciol, hyd yn oed i'r sefydliadau hynny sy'n cyflawni'n fertigol, h.y. pan fo'r prosiectau eu hunain yn benodol yn mynd i'r afael â'r themâu. Yn aml, yn ôl barn rheolwyr a rhanddeiliaid, mae'r broblem yn un gysyniadol neu'n ymwneud â dealltwriaeth o beth yw'r themâu a sut y gellir tystiolaethu cyfraniadau, hyd yn oed i sefydliadau sy'n cyflawni'n fertigol.

3.51 Mae'r data gan fuddiolwyr yn awgrymu bod 3-SET wedi cefnogi sefydliadau mewn amryw o ffyrdd mewn perthynas â'r themâu trawsbynciol. Mae llawer o'r gefnogaeth yn gyfystyr â phroses o egluro'r themâu trawsbynciol a dangos neu enghreifftio ble a sut y gall y sefydliadau dystiolaethu eu cyfraniadau yn effeithiol ac yn effeithlon. Nid yn unig y mae hyn yn adlewyrchu'r materion a godwyd gan randdeiliaid – sef bod sefydliadau'n ei chael hi'n anodd deall sut i dystiolaethu'r themâu – ond mae hefyd yn awgrymu bod 3-SET yn mynd i'r afael â'r materion hyn.

3.52 Nododd bron i ddeuparth (64 y cant) y rhai a gyfwelwyd, er enghraifft, fod 3-SET wedi cefnogi ymdrechion i dystiolaethu eu cyfraniadau. Roedd hyn ar adegau yn cynnwys cyflwyno ac enghreifftio arferion cael tystiolaeth:

> 'Yn wreiddiol, edrychodd 3-SET ar ein cais a dweud bod y Themâu Trawsbynciol yn faes oedd yn wan gennym ac yna ein helpu i wella'r elfen honno. Fe wnaethon nhw ein helpu i ddeall beth y gallem ei wneud i ddangos gweithgareddau a oedd yn gysylltiedig â'r Themâu Trawsbynciol a rhoi gweithgareddau enghreifftiol inni. Fe wnaethon nhw ein helpu i ddatblygu modiwl ar-lein ar gyfer Cydraddoldeb ac Amrywiaeth.' (Cyfweliad â buddiolwr, 2020)

3.53 Roedd yr ymdrechion hyn hefyd yn cynnwys ymgysylltu â chyflenwyr profiadol a mireinio ymhellach ar eu harferion casglu tystiolaeth:

> 'Roedden ni'n gwybod llawer am y Themâu Trawsbynciol yn barod, ond roedd 3-SET wedi adolygu ein gweithgareddau ac awgrymu ffyrdd y gallem eu symleiddio a pharhau i fodloni'r gofynion cyllido.' (Cyfweliad â buddiolwr, 2020)

3.54 Awgrymodd tua hanner (49 y cant) y rhai a gyfwelwyd fod y cyrsiau hyfforddi neu ddeialog yn unig gyda swyddogion 3-SET wedi helpu i ddangos sut roedd eu gweithgareddau eisoes yn cyfrannu at y themâu trawsbynciol. Mae hyn yn

gorgyffwrdd ychydig â'r syniad o gefnogi'r broses dystiolaethu, ond yn yr achos hwn roedd y gefnogaeth yn fwy cysyniadol, tra bod y cymorth â thystiolaethu fel y disgrifir uchod yn tueddu i fod yn benodol ac yn gysylltiedig â'r broses fonitro a chasglu tystiolaeth:

> 'Mae 3-SET wedi dangos pa feysydd yn y prosiect a'r gweithgareddau rydyn ni'n eu cynnal sy'n cyd-fynd yn naturiol â'r Themâu Trawsbynciol. Fe wnaethon nhw ein helpu i ddiffinio ein targedau a'n canlyniadau ar gyfer y thema Amrywiaeth.' (Cyfweliad â buddiolwr, 2020)

3.55 Roedd rhanddeiliaid hefyd o'r farn fod 3-SET yn rhagweithiol wrth fynd ati i geisio cynyddu a dangos y cyfraniadau tuag at y themâu trawsbynciol y gallai sefydliadau eu cyflawni neu rai yr oeddent eisoes yn eu cyflawni:

> 'Mae'n sylfaenol i'r rhaglen. Beth maen nhw'n ei wneud yw chwilio amdano a'i gynyddu yng ngheisiadau pobl. Maen nhw eisiau gweld tystiolaeth ohonyn nhw i gyd a debyg mai dyna sut maen nhw'n eu cefnogi trwy eu hatgoffa o'u pwysigrwydd. Mae ganddyn nhw naratif cyson amdanyn nhw.' (Cyfweliad â rhanddeiliad, 2020)

3.56 Mae'r rheolwyr eu hunain yn priodoli hyn i berthynas dda ac adeiladol gyda thîm themâu trawsbynciol WEFO ac yn nodi eu hymdrechion i weithio gyda'r tîm hwnnw i ddatblygu'r sesiynau hyfforddi, y dogfennau gwybodaeth a'r deunyddiau lledaenu. Yn ogystal, mae'r tîm wedi cael tîm themâu trawsbynciol WEFO i gefnogi eu hyfforddiant.

3.57 Mae gan CGGC hefyd hyrwyddwr penodol ar gyfer y themâu trawsbynciol, a hwnnw'n cefnogi gwaith 3-SET yn fanwl, yn benodol trwy gyd-ddatblygu neu gynnal y sesiynau hyfforddi:

> 'Mae gennym berthynas dda iawn gyda thîm themâu trawsbynciol WEFO. Rwyf wedi gweithio mewn partneriaeth i ddatblygu'r modiwl ar y themâu ynghyd â'r taflenni gwybodaeth a'r gwersi ystafell ddosbarth. Maen nhw wedi gwneud ambell i weminar i ni hefyd. Mae hefyd yn dda sicrhau bod pethau'n addas at y diben ac mae'n sicrhau eu bod yn cael yr hyn sydd ei angen, yn hytrach na'i fod yn ymarfer i dicio blwch yn unig.' (Cyfweliad â rheolwr, 2020)

**Pa mor effeithiol y mae 3-SET wedi eich helpu chi a'ch sefydliad i baratoi at y dyfodol a'r hirdymor?**

3.58 Yn sgil y Deyrnas Unedig yn ymadael â'r UE, mae paratoi sefydliadau trydydd sector ar gyfer y dyfodol, ar ôl cyllid yr UE, wedi dod yn flaenoriaeth arall sy'n allweddol i 3-SET. Mae'r tîm wedi cefnogi'r sector yn uniongyrchol, trwy eu gwaith gyda sefydliadau, ac ar lefel strategol trwy eu hymwneud â pholisi yng Nghymru a thu hwnt.

3.59 Mae'r gefnogaeth uniongyrchol i sefydliadau wedi'i rhoi heb addasu dyluniad neu ddarpariaeth weithredol y gefnogaeth gan 3-SET. Newidiwyd cynnwys yr hyfforddiant, yr arweiniad a'r gweithgareddau rhwydweithio. Cyflwynwyd y cynnwys diwygiedig yn fuan ar ôl y bleidlais i adael yr UE, a'i gadw'n berthnasol i'r sefyllfa newidiol. Awgryma hyn fod y model a'r tîm yn gallu troi cynnwys penodol tuag at sefyllfa sy'n newid ac at ystod o gyd-destunau heb leihau ei effaith a'i werth (gweler isod). Dywedodd personél rheoli iddynt fynd ar ofyn arbenigedd academaidd ac arbenigedd yn y sector er mwyn sicrhau y gellid cyflwyno'r cynnwys mwyaf perthnasol a chywir trwy'r canllawiau, y sesiynau briffio, y cylchlythyrau a'r hyfforddiant.


3.60 Fodd bynnag, credir bod effaith pandemig y coronafeirws wedi amharu ar ymdrechion i gefnogi sefydliadau unigol, oherwydd bod eu sylw i gyd ar heriau gweithredu yn ystod y cyfnodau clo. Yn wir, pan ofynnwyd iddynt beth oedd eu heriau allweddol i'r dyfodol agos, dywedodd 90 y cant o ymatebion y cyfweliadau mai pandemig COVID-19 a'i effaith oedd y brif her iddynt. Er y cyfeiriwyd at ystod o heriau eraill hefyd, fel y'u nodir yn Ffigur 3.9 isod, gallai pob un fod yn gysylltiedig â phandemig y coronafeirws neu'r cyfyngiadau ar symud (neu ddeall eu bod yn ganlyniad i hynny).

3.61 Mater penodol a nodwyd oedd yr angen i ymgysylltu'n ddigidol yn ystod y cyfnodau clo, yn enwedig gydag unigolion bregus yr oedd yn rhaid iddynt aros gartref oherwydd eu hiechyd. Fodd bynnag, efallai na fyddai gan yr unigolion hyn yr offer na'r sgiliau i ymgysylltu'n ddigidol â hwy, gan gyflwyno ystod o heriau i sefydliadau'r trydydd sector:

> 'COVID-19. Mae'n anodd iawn ymgysylltu â phobl sy'n ddefnyddwyr gwasanaeth. Rydyn ni'n cael llawer llai o atgyfeiriadau atom, gan fod sefydliadau partner ar gau. Ychydig iawn o leoliadau gwirfoddol sy'n weithredol ar hyn o bryd. Roedd yn rhaid i ni ddod o hyd i gyfrifiaduron llechen er mwyn gallu parhau i gysylltu â'n carfan, gan nad oedd gan lawer ohonynt offer TG.' (Cyfweliad â buddiolwr, 2020)

‘Rhan fwyaf o fy ngwaith yw rhoi hyfforddiant digidol i bobl dros 60 oed ac mae’r rhan fwyaf ohonynt yn gorfod aros gartre i warchod eu hiechyd. Mae angen hyfforddiant wyneb yn wyneb arnynt i gael mynediad at hyfforddiant digidol.’ (Cyfweliad â buddiolwr, 2020)

**Ffigur 3.9: Heriau yn y tymor byr/dyfodol agos**




Ffynhonnell: Cyfweliadau â buddiolwyr (N=52)

3.62 Pan ofynnwyd iddynt drafod eu heriau a’u ffocws i’r tymor hirach, h.y. tu hwnt i’r 12 mis nesaf, dywedodd dros bedwar o bob pump ohonynt (86 y cant) mai’r brif her oedd diwedd cyllid yr EU. At hynny, awgrymodd tua hanner (53 y cant) fod ansicrwydd ynghylch y Gronfa Ffyniant Gyffredin yn her arall. Awgryma data’r cyfweliadau fod sefydliadau’n ymwybodol o’r heriau o adael yr UE. Fodd bynnag, mae eu ffocws tymor byr bron yn gyfan gwbl ar yr heriau gweithredol yn sgil pandemig COVID-19. Felly mae risg na fydd sefydliadau, oherwydd y pwyslais mawr ar y pandemig a’i effaith, yn gallu neilltuo digon o adnoddau at baratoi ar gyfer gadael yr Undeb Ewropeaidd, er gwaethaf y gefnogaeth a gynigir gan 3-SET.

**Cymorth i’r dyfodol a chynllunio olyniaeth**

3.63 Cyflwynir amrywiaeth yr ymatebion yn Ffigur 3.10 isod. Mae’r prif ffyrdd y mae 3-SET wedi cefnogi cynllunio ar gyfer y dyfodol wedi cynnwys codi ymwybyddiaeth o

ffynonellau cyllid amgen a chefnogi paratoadau ar gyfer Brexit, a hynny i raddau helaeth yn golygu codi ymwybyddiaeth a deall ei oblygiadau. Nid oedd tua dwy ran o bump (41 y cant) y sefydliadau wedi trafod y materion hyn gyda 3-SET. Gall y ffigur olaf hwn fod oherwydd effaith y pandemig (fel y trafodwyd uchod), neu oherwydd nad yw 3-SET wedi mynd i'r afael (nac wedi argyhoeddi'r sefydliadau hyn i fynd i'r afael) â'r pwnc hyd yn hyn.


3.64 Nododd tua chwarter yr ymatebion ryw fath arall o gefnogaeth, er bod y rhain fel rheol yn ymwneud â 3-SET yn cyfeirio atynt neu nhw'n argymell darparwyr cymorth eraill neu rai amgen a oedd yn ymwneud â chyfleoedd cyllido eraill:

> 'Fe wnaeth 3-SET ein helpu i roi polisïau a gweithdrefnau ar waith ar gyfer rheoli diwedd prosiectau a hefyd ein cyfeirio at sefydliadau y gallem fynd atynt i gael cyllid etifeddiaeth. Fe wnaethon nhw hefyd ein helpu i fod ag agwedd fwy strategol er mwyn osgoi mynd o un prosiect i'r llall ac i beidio byw o'r llaw i'r genau o ran cyllid prosiectau. Rydyn ni bob amser yn sicrhau bod prosiectau'n gorgyffwrdd fel nad yw'r cyllid yn dod i ben yn gyfan gwbl.' (Cyfweliad â buddiolwr, 2020)

3.65 Roedd sefydliadau a oedd wedi ymwneud yn rheolaidd â 3-SET fel petaent yn fwy cadarnhaol yn eu hymatebion, gan gyfeirio at y cylchlythyrau a'r diweddariadau sydd wedi sicrhau bod ganddynt yr wybodaeth ddiweddara am y sefyllfa wrth iddi newid:

> 'Rydych chi'n cael rhyngweithio cyson gyda 3-SET. Maen nhw'n rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf i chi am gyllid newydd a beth bynnag sy'n codi am y Gronfa Ffyniant Gyffredin. Maen nhw hefyd wedi ein helpu i ddatblygu syniadau am brosiect newydd y gallwn eu cyflwyno pan ddaw'r prosiect ESF hwn i ben.' (Cyfweliad â buddiolwr, 2020)

**Ffigur 3.10: Pa mor effeithiol y mae 3-SET wedi eich helpu chi a'ch sefydliad i baratoi at y dyfodol a'r hirdymor?**




Ffynhonnell: Cyfweliadau â buddiolwyr (N=52)

3.66 Yr ail ffordd y mae 3-SET wedi cefnogi sefydliadau â'u dyfodol yw trwy ymgysylltu strategol ac ymwneud â pholisi ar lefelau Cymru a'r Deyrnas Unedig. Mae'n annhebygol y byddai sefydliadau yn sylwi ar y rhyngweithiadau hyn ond gellir eu holrhain trwy adolygu'r ymgysylltiad â strwythurau polisi. Trafodir y rhyngweithiadau a'r gweithgareddau hyn isod.

**Ymgysylltu strategol a pholisi**

3.67 Nod 3-SET wrth fynd i'r afael â pholisïau yw cefnogi amcanion craidd 3-SET ar lefel ehangach a strategol. Mae'r gwaith hwn wedi canolbwyntio ar ddau fater craidd, sef sicrhau cynrychiolaeth a hyrwyddo gwerth gwaith y trydydd sector, a sicrhau olyniaeth ac etifeddiaeth prosiectau'r trydydd sector a ariennir gan Ewrop yn dilyn Brexit.

3.68 Mae 3-SET wedi ymgysylltu â strwythurau llunio polisi sefydledig a cheisio dylanwadu arnynt. Mae'r rhain i raddau helaeth wedi cynnwys pwyllgorau Seneddol y Cynulliad/y Senedd a'r Deyrnas Unedig, cyflwyniadau mewn digwyddiadau, cyhoeddiadau ymchwil, ac ymgynghoriadau Llywodraeth Cymru neu'r DU (pob un ohonynt yn sianeli sefydledig a ffurfiol sy'n gysylltiedig â datblygu polisi a phrosesau gwneud penderfyniadau democrataidd).

3.69 Mae 3-SET wedi ymwneud â'r strwythurau hyn yn uniongyrchol neu trwy CGGC. Yn wir, ystyrir mai cryfder allweddol model cyflenwi 3-SET yw'r gallu a'r cyfle i fwydo i mewn i CGGC a chynyddu effaith eu dealltwriaeth (trwy eu cysylltiad â strwythurau polisi). Mae bod yn rhan o'r CGGC ehangach (gan fod â mynediad cynhwysfawr bron â bod i ymgysylltu strategol a pholisi CGGC) yn cael ei ystyried yn gryfder allweddol yn y cynllun:

> 'Mae mor bwysig bod gan y sector lais sy'n gryf ac y gwrandewir arno. Mae'n waith y mae 3-SET a CGGC wedi ceisio ei wthio ymlaen […] — [mae] 3-SET yn enwedig – yn llwybr da i hynny.' (Cyfweliad â rhanddeiliad, 2020)

3.70 Mae'r tîm rheoli hefyd wedi cefnogi a rhoi tystiolaeth gefnogol i randdeiliaid ehangach sy'n hyrwyddo ac yn hybu buddiannau'r trydydd sector ar wahanol lefelau llywodraethu:

> '[…] Rwyf wedi cynrychioli Cymru ym Mrwsel. Rwyf wedi dibynnu ar yr wybodaeth a roddwyd gan 3-SET. Wrth siarad â sefydliadau gwirfoddol eraill […] mewn cynadleddau, ym mhob un o'r cyfleoedd hyn mewn gwirionedd, rwyf wedi manteisio ar arbenigedd 3-SET ac, o ganlyniad i hyn, mae 3-SET a CGGC yn hysbys ac yn uchel eu parch ar draws yr aelod-wladwriaethau. Cefais fy synnu faint sy'n gwybod amdano a faint oedd yn genfigennus ohono a sut roedd pobl yn ei gopïo. Mae wedi bod yn wych siarad â nhw pan oeddwn angen sicrwydd am y materion hyn, a fy helpu i rannu ymarfer ar draws partneriaid. Bydd arwyddion croesawgar i barhau [a byddwn eisiau parhau] i ymgysylltu â nhw ar ôl i ni adael yr UE.' (Cyfweliad â rhanddeiliad, 2020)

3.71 Fodd bynnag, roedd rhanddeiliaid yn cwestiynu effeithiolrwydd y sianeli hyn mewn perthynas â pholisi Llywodraeth y Deyrnas Unedig. Yn gyntaf, roedd argraff bod llai o ymwybyddiaeth a dealltwriaeth o drydydd sector Cymru yn San Steffan a Whitehall; yn ail, roedd argraff y gallai polisi gael ei ddatblygu 'ar fympwy' neu heb gyfeirio at dystiolaeth a gyflwynwyd yn ffurfiol. Nid oedd yr argraff hon yn bresennol mewn perthynas â Llywodraeth Cymru. Yn wir, datgelodd y cyfweliadau â rhanddeiliad a rheolwyr yr argraff fod 3-SET, yn enwedig drwy CGGC, wedi bod â pherthynas effeithiol â staff Llywodraeth Cymru a bod gwerth y trydydd sector yn cael ei ddeall yn well.

3.72 Mae ymgysylltiad strategol a pholisi 3-SET hefyd wedi bod ar ran y trydydd sector yn gyffredinol, nid y sefydliadau a gefnogir yn unig.

*Cynrychioli a hyrwyddo'r trydydd sector*

3.73 Ar lefel strategol, mae 3-SET wedi ceisio bod yn eiriolwr dros sefydliadau'r trydydd sector fel darparwyr buddsoddiad cyhoeddus strategol. Wrth geisio gwneud hynny, maent wedi anelu at godi proffil y gwaith a'r potensial ymhlith cyrff cyllido a lefelau amrywiol y llywodraeth, yn ogystal â cheisio gwneud cyllid yn fwy hygyrch i'r trydydd sector. Fel y nodwyd, aethpwyd i'r afael â'r amcanion hyn trwy strwythurau polisi ffurfiol.

3.74 Yn thematig, mae'r ymdrechion wedi amrywio. Rhan gyson o waith polisi 3-SET yw hyrwyddo gwerth a chyfraniad y trydydd sector yn gyffredinol, ynghyd â gallu unigryw'r trydydd sector i sicrhau buddsoddiad strategol. Mewn ymateb i ymgynghoriad Pwyllgor Cymunedau, Cydraddoldeb a Llywodraeth Leol y Senedd ar flaenoriaethau, er enghraifft, roedd ymateb CGGC, gan dynnu ar arbenigedd a chyfraniad 3-SET, wedi sôn am y dulliau arloesol a'r mynediad sydd gan y trydydd sector mewn perthynas â chymunedau ac unigolion difreintiedig:

> 'Mae'r trydydd sector yn parhau i chwarae rhan fawr yn rhaglenni cyfredol yr UE trwy gynnal ystod eang o brosiectau ESF sy'n cyflwyno dulliau arbenigol, arloesol o helpu'r rhai mwyaf difreintiedig i oresgyn rhwystrau i gyflogaeth, gan ymgysylltu â NEETs a chodi dyheadau pobl ifanc, cefnogi datblygiad menywod mewn cyflogaeth, bwrw ymlaen â'r agenda cynhwysiant digidol a datblygu'r economi gymdeithasol yng Nghymru.' (CGGC, 2016)

3.75 Maes ffocws arall o bwys o ran ymgysylltu â pholisi yw Brexit. Mae'r ymdrechion hyn wedi cynnwys cyfrannu tystiolaeth i'r adroddiad 'Buddsoddi Rhanbarthol yng Nghymru ar ôl Brexit' (WEFO, 2018), yn ogystal â chyhoeddiad CGGC (mewn partneriaeth â Llywodraeth Cymru) o'r enw 'Grymuso Cymunedau yng nghyd-destun Brexit' (CGGC, 2019). Archwiliai'r cyntaf y cyd-destun ar ôl Brexit (a'r ansicrwydd yn ei sgil) ac argymell elfennau o'r trefniadau cyfredol y dylid eu cadw yn dilyn Brexit (gan gynnwys gwasanaeth cymorth a chyngor technegol tebyg i 3-SET). Roedd yr ail, wedyn, yn edrych ar sut y gallai proses Brexit effeithio ar wasanaethau cymunedol yng Nghymru. Yn bwysig, fel y mae'r adroddiad ei hun yn ei ddweud, gwelodd Llywodraeth Cymru yr angen am yr ymchwil ac am gyfraniad 3-SET a CGGC, a hynny'n awgrymu rhywfaint o ddibyniaeth ac ymddiriedaeth yn yr wybodaeth, y ddealltwriaeth a'r data sydd gan y tîm mewn perthynas â'r trydydd sector (CGGC, 2019).

3.76 O ganlyniad i'r adroddiad, cydnabuwyd CGGC gan Lywodraeth Cymru am 'nodi effeithiau posibl Brexit ar ein cymunedau, y gwasanaethau a ddarperir iddynt, a'r cyrff trydydd sector sy'n darparu llawer o'r gwasanaethau hyn' (Hutt, 2019). Yn ogystal â'r gydnabyddiaeth hon, helpodd yr adroddiad i sicrhau cefnogaeth gwerth £50 miliwn trwy Gronfa Bontio'r UE i ddatblygu porth ar-lein i gefnogi sefydliadau'r trydydd sector.

3.77 Mae gwaith ehangach mewn perthynas â Brexit wedi cynnwys cyfraniadau i Bwyllgor Materion Cymreig Tŷ'r Cyffredin; cyfarfodydd uniongyrchol â Llywodraeth Cymru er mwyn cyfrannu at Fframwaith ar gyfer Buddsoddi Rhanbarthol a'u Strategaeth Adferiad Economaidd; a gwaith ehangach i annog ymgysylltiad â strwythurau polisi, yn benodol trwy gwrdd â sefydliadau'r trydydd sector i annog cyfraniadau at ymgynghoriadau polisi, yn enwedig ymgynghoriad i Fframwaith ar gyfer Buddsoddi Rhanbarthol yng Nghymru.

*Olyniaeth ac etifeddiaeth*

3.78 Yn sgil refferendwm y Deyrnas Unedig ynghylch eu haelodaeth o'r Undeb Ewropeaidd yn 2016, bu ansicrwydd ymhlith y trydydd sector mewn perthynas â chyllid yn y dyfodol, olyniaeth ac etifeddiaeth y gwaith a ariennir gan Ewrop.

3.79 Yn ystod camau cynharach proses Brexit roedd ffocws yr ymgysylltu â pholisi ar godi ymwybyddiaeth o'r risgiau y byddai Brexit yn esgor arnynt. Roedd llawer o'r gwaith hwn yn rhan o'r cynrychioli a'r hyrwyddo ehangach a amlinellwyd uchod. Er enghraifft, roedd cyfraniadau at waith Pwyllgor Materion Allanol a Deddfwriaeth Ychwanegol a arweiniodd at ei adroddiad dan yr enw 'Papur Gwyn Bil y Diddymu Mawr: Goblygiadau i Gymru' (Cynulliad Cenedlaethol Cymru, 2017) wedi cynnwys codi ymwybyddiaeth o'r niwed sy'n debygol o gael ei achosi i'r cysylltiadau agos rhwng trydydd sector Cymru a rhwydweithiau Ewropeaidd ehangach.

3.80 Tynnodd rhanddeiliaid sylw hefyd at y modd y rhoddodd 3-SET lais i'r sector, gan godi pryderon a rhybuddio am risgiau i'r sector mewn cyfnod pan gafodd y ddadl ehangach ynghylch Brexit ei wleidyddoli:

> 'Mae 3-SET wedi gwneud yn dda iawn wrth ddod yn llais Brexit dros y sector, a oedd yn anodd iawn yn y dyddiau cynnar. Ni châi unrhyw un a oedd yn cael arian cyhoeddus ymgyrchu. Byddwn i'n dadlau ei fod yn beth amhleidiol. Ydy, mae'n polareiddio gwleidyddion, felly byddai mor werthfawr cael rhywun sy'n gallu

cyflwyno llais y sector elusennol, i lobïo drostyn nhw, a chael bod yn ddienw. Roedd yna lawer o osgoi a mynd i guddio.' (Cyfweliad â rhanddeiliad, 2020)

3.81 Yn fwy diweddar, mae'r ffocws wedi symud tuag at ddylanwadu ar ymdrechion i lywio unrhyw raglenni cyllido newydd. Efallai mai'r enghraifft orau o ddangos hyn yw ei gyfraniadau i bapur Bwyllgor Cyllid Cynulliad Cenedlaethol Cymru 2018 dan yr enw 'Y paratoadau ar gyfer disodli ffrydiau cyllido'r Undeb Ewropeaidd yng Nghymru' (CCC, 2018). Canolbwyntiai'r cyfraniadau ar ddadlau dros ddatblygu ffrydiau cyllido olynol a'r rheiny'n cynnwys cynrychiolaeth o'r sectorau cyhoeddus, preifat ac, yn bwysig, y trydydd sector: 'Bydd hyn yn cefnogi cyd-gynhyrchu gweithgareddau sy'n adeiladu gwytnwch a ffyniant yng nghymunedau mwyaf difreintiedig Cymru.'

3.82 Yn ystod ymgynghoriadau ar gyfer adroddiadau megis 'Ymchwiliad i bolisi rhanbarthol – beth nesaf i Gymru?' gan Bwyllgor Materion Allanol a Deddfwriaeth Ychwanegol, roedd CGGC – gan ddefnyddio mewnwelediad 3-SET – a Plant y Cymoedd/Valleys Kids [sefydliad partner] ill dau wedi rhybuddio er gwaethaf addewid o gyllid ar ôl Brexit, fod yr ansicrwydd ynghylch y ffurf y bydd hyn yn ei gymryd wedi arwain at ddifaterwch ar lefel sylfaenol prosiectau:

'Mae yna lawer iawn o ansicrwydd o hyd, llawer o ddifaterwch posib i'r rhaglen gyfredol hefyd – oherwydd nid ydynt o reidrwydd eisiau cymryd gormod o ran, oherwydd mae ganddynt ofn y risgiau, er bod y Trysorlys wedi rhoi addewid. Mae yna ddifaterwch yno yn dal, rhyw "A dweud y gwir, dydyn ni ddim am gymryd rhan ar hyn o bryd nes ein bod yn gwybod beth ddaw yn y dyfodol.'' (CCC, 2018)

**Themâu cyffredin**

3.83 Thema gyffredin ar draws y cyfweliadau a'r ymatebion oedd y gefnogaeth gyson a gafwyd trwy gydol oes y ceisiadau a'r prosiectau. Mae tystiolaeth glir bod 3-SET wedi meithrin cysylltiadau gwaith cryf a pharhaol gydag ystod o sefydliadau, a hynny yn ei dro yn golygu eu bod hwythau'n troi yn gyson at y gefnogaeth a gynigir gan 3-SET ac yn ymddiried yn y gefnogaeth, boed hynny ar gyfer materion cyffredin fel cefnogaeth gyda cheisiadau a monitro neu ar gyfer materion sy'n codi na ragwelwyd, megis y rhai a gododd yn sgil pandemig COVID-19:

'O'r cam cais ymlaen, mae 3-SET wedi bod yn rhan ac wedi cynnig cefnogaeth. Maen nhw bob amser wedi bod yno i roi arweiniad a chyngor pan oedden ni ei angen e. Yn yr un modd ag addasu i [COVID-19], o ran y broses hawlio, cawsom

hyfforddiant ac arweiniad ar sut i ddefnyddio system PDS, sef lle rydyn ni'n cofnodi'r holl wybodaeth am gyfranogwyr a chynnydd.' (Cyfweliad â buddiolwr, 2020)

3.84 Roedd y sefydliadau a gyfwelwyd hefyd wedi dadlennu cryn ymddiriedaeth yn 3-SET, waeth pa mor aml yr oeddent yn ymwneud â nhw. Adlewyrchwyd hyn mewn sylwadau a wnaed gan staff rheoli a nododd hefyd y byddai llawer o sefydliadau yn dychwelyd atynt pan fyddent yn chwilio am gefnogaeth neu gyngor. Roedd hyn oherwydd y cysylltiadau hirsefydlog a phersonol sydd wedi'u meithrin dros flynyddoedd:

> 'Mae'n dibynnu faint maen nhw'n ymgysylltu â ni. Efallai na fyddan nhw'n ymgysylltu â ni'n rheolaidd – efallai nad ydyn nhw o reidrwydd yn gwybod mai 3-SET yw e. Weithiau nid dyna'r brand maen nhw'n ei gofio – ond y bobl yn y tîm. Mae perthnasoedd da iawn wedi'u creu.' (Cyfweliad â rheolwr, 2020)

**Gwrthffeithiol: Beth fyddai sefydliadau wedi'u gwneud heb gymorth 3-SET?**

3.85 Mae sefyllfa gwrthffeithiol yn ddull effeithiol o roi effaith ymyrraeth neu weithgaredd yn ei gyd-destun. Yn y bôn, mae gwerthuswyr yn gofyn a allai (neu a fyddai) yr effaith hon wedi digwydd pe na bai'r ymyrraeth neu'r gweithgaredd wedi digwydd. Yn ddelfrydol, mae archwilio'r gwrthffeithiol yn golygu edrych ar grŵp rheoli (h.y. grŵp nad oedd wedi derbyn y gefnogaeth).

3.86 Ar gyfer y gwerthusiad hwn, dosbarthwyd yr arolwg ar-lein i bob sefydliad trydydd sector a oedd â chysylltiad â CGGC ar ryw ffurf, ni waeth a oeddent wedi defnyddio 3-SET ai peidio. Derbyniodd yr arolwg 23 o ymatebion gan sefydliadau nad oeddent wedi defnyddio 3-SET ond a oedd, serch hynny, wedi cyflawni neu wneud cais/ystyried gwneud cais am brosiectau a ariennir gan Ewrop ar ryw ffurf, a gellid ystyried bod eu hymatebion yn ffordd i archwilio'r gwrthffeithiol.

3.87 Er bod y sefydliadau hyn wedi ymgysylltu â chyllid Ewropeaidd, nid oedd tua hanner yn gwybod digon am gefnogaeth 3-SET i gymryd rhan. Mae hyn yn awgrymu y gallai mwy o hyrwyddo neu hyrwyddo gwell wedi agor y gefnogaeth i fwy o sefydliadau, er nad yw'r data sydd ar gael yn ei gwneud yn bosibl meintioli faint o sefydliadau sydd wedi colli cael cefnogaeth.

3.88 Roedd lleiafrif naill ai'n teimlo nad oedd 3-SET yn cynnig cefnogaeth berthnasol neu eu bod yn teimlo nad oedd angen unrhyw gefnogaeth arnynt. Teimlai lleiafrif bach nad oeddent yn gymwys. Dim ond tri sefydliad a oedd wedi chwilio am gefnogaeth

amgen, er ei bod yn aneglur a oedd y gefnogaeth hon yn berthnasol i gyllid Ewropeaidd neu unrhyw fath o gefnogaeth a gynigia 3-SET.[9]

3.89 Gofynnwyd i fuddiolwyr hefyd ystyried y dewisiadau amgen i gefnogaeth 3-SET. Roedd yr ymatebwyr hyn yn gryf o'r farn fod y gefnogaeth yn hanfodol er mwyn iddynt gael mynediad at gyllid Ewropeaidd, a gwneud cais amdano. Roedd y rhesymau cyson a gynigiwyd yn ymwneud â chymhlethdod cyllid Ewropeaidd ac/neu ddiffyg capasiti cymharol[10] yn sefydliadau'r trydydd sector i ymgysylltu'n effeithiol â'r prosesau. Yr hyn sy'n fwyaf amlwg oedd absenoldeb unrhyw gefnogaeth amgen. Nid oedd dewis arall, dim ond ceisio mynd am gyllid Ewropeaidd ar eu pennau eu hunain:

> 'Mae'r system gyflenwi yn Lloegr yn wahanol ac, felly, yng Nghymru mae angen 3-SET arnoch i fod yn gyfryngwr gyda WEFO, ond yn Lloegr rydych chi'n cysylltu â'r tîm yn uniongyrchol (er bod yr ymateb yn llawer arafach na mynd at 3-SET i gael atebion).' (Cyfweliad â buddiolwr, 2020)
>
> 'Rydyn ni'n gweithio ledled Cymru, felly mae'r ymwneud â'r awdurdodau lleol yn amrywio'n fawr ac maen nhw'n tueddu i fod yn brysur iawn. Mae'r gefnogaeth gan 3-SET yn fwy strwythuredig ac yn cynnwys mwy o feysydd.' (Cyfweliad â buddiolwr, 2020)

3.90 Dywedodd chwarter y sefydliadau a gyfwelwyd (25 y cant) eu bod hefyd wedi chwilio am gefnogaeth yn ychwanegol at yr hyn a gynigir gan 3-SET. Roedd dros hanner y rhain wedi cysylltu â chynghorwyr cyllido awdurdodau lleol, tra bod y lleill wedi mynd ar ofyn naill ai WEFO neu gynghorwyr preifat. Roedd rhai hefyd wedi mynd at Gyngor Gwasanaethau Ieuenctid Gwirfoddol Cymru. Ymddengys bod mwyafrif y trafodaethau hyn yn ymwneud â datblygu syniadau, tra bod rhai hefyd wedi trafod eu hetifeddiaeth a phosibiliadau cyllido ar ôl yr UE.

3.91 Mae'r gefnogaeth ychwanegol hon felly'n tueddu i ddod y tu allan i gylch gwaith neu gynnig cymorth 3-SET ac nid yw'n awgrymu bod yna unrhyw ffynonellau cymorth eraill neu rai gwell na'r hyn a gynigir gan 3-SET. Yn wir, pan ofynnwyd iddynt sut mae cynnig 3-SET yn cymharu â'r gefnogaeth ychwanegol, awgrymodd yr holl

---

[9] Dim ond tri sefydliad a chwiliodd am gefnogaeth na ddarparwyd gan 3-SET. Ni fanylodd un pa gefnogaeth amgen oedd hon, ac roedd un arall wedi mynychu digwyddiad CGGC ynghylch cyllid Ewropeaidd yn gyffredinol, a allai fod wedi bod yn ddigwyddiad 3-SET mewn gwirionedd, ond o ganlyniad daeth y digwyddiad â'u diddordeb a'u hymgysylltiad â chyllid Ewropeaidd i ben. Mynychodd y trydydd sefydliad ddigwyddiad Cronfa Dreftadaeth y Loteri mewn perthynas â phrosiect penodol, nad yw'n gysylltiedig â chyllid Ewropeaidd.
[10] Diffinnir capasiti i fod â'r amser, y personél, y sgiliau neu'r profiad i ymgysylltu â'r prosesau cyllido.

ymatebwyr (13) fod cefnogaeth 3-SET naill ai'n well neu o fath gwahanol. Ymhellach, awgrymodd ymatebwyr fod cefnogaeth 3-SET, o gymharu, yn haws cael gafael arni, bod gan y tîm wybodaeth ehangach a mwy arbenigol o'r maes, a bod mwy o barodrwydd i annog a meithrin cydweithredu.

3.92 Roedd personél rheoli hefyd o'r farn bod cymhlethdod cyllid Ewropeaidd yn debygol o fod yn her rhy fawr i lawer o sefydliadau ac, o ganlyniad, yn arwain at beidio ag ymgysylltu:

'Credaf y byddai'r trydydd sector yn wynebu rhwystr enfawr pe byddai'r gefnogaeth honno ddim yno. Mae [cyllid Ewropeaidd] mor gymhleth, mae angen i chi gyfieithu peth ohono ac mae angen i chi allu dehongli'r iaith maen nhw'n ei defnyddio, sy'n troi pobl i ffwrdd rhag ymgeisio. Byddai ymwneud y trydydd sector yn darfod (ar wahân i'r rheiny sy'n deall y fiwrocratiaeth drom).' (Cyfweliad â rheolwr, 2020)

# 4. Canfyddiadau: y Broses

4.1 Mae gwerthuso prosesau yn edrych ar fecanwaith a model darparu'r ymyrraeth neu'r gwasanaeth dan sylw. Nod gwerthuso'r broses yw dod i ddeall a dysgu gwersi a fydd yn llywio rheolaeth barhaus yr ymyrraeth neu raglenni eraill yn y dyfodol. Bydd y bennod hon yn astudio'r rhesymeg sylfaenol dros 3-SET, ei ddyluniad a'i fodel darparu yn ogystal â'r profiad o gynnig cefnogaeth i'r trydydd sector. Yn sgil diddordeb penodol yn yr heriau sy'n wynebu'r sector yn y dyfodol, yn ogystal â'r gwersi y gellir eu dysgu o brofiad 3-SET, mae adran wedi'i neilltuo i edrych ar y materion hyn.

**Rhesymeg**

4.2 Roedd diffiniad rheolwyr, rhanddeiliaid a buddiolwyr o resymeg 3-SET yn cyd-fynd â'i gilydd, a chytunent fod y rhesymeg wedi bod (ac yn dal i fod) yn gyfiawnhad cadarn dros y gweithgareddau. Ystyrir bod 3-SET yn cynnig cymorth arbenigol, technegol ac yn cynrychioli'r sector. Yn y bôn, mae 3-SET yn gyfryngwr, yn helpu ac yn datblygu'r ymgysylltiad rhwng cyllidwyr (WEFO yn benodol) a chyrff cyflenwi yn y trydydd sector:

> 'Y rhesymeg sylfaenol yw ei bod yn anodd i unrhyw un gael gafael ar gyllid Ewropeaidd, ond yn enwedig y trydydd sector (sydd mewn sefyllfa dda i gyflawni mewn gwirionedd) […]. Rwyf bob amser wedi dweud ein bod fel gwasanaeth cyfieithu – rydyn ni'n edrych ar reoliad cymhleth neu ddarn cymhleth o ganllawiau a'u gwneud ychydig yn haws eu deall. Nid bod pobl yn dwp, ond mae cymaint ohono – mae'n golygu gwneud yn glir beth sy'n berthnasol. Mae'r rhesymeg sylfaenol dros beth rydyn ni'n ei wneud yn dal i sefyll. Mae hynny'n berthnasol ym mha bynnag arena rydych chi'n ein rhoi ni ynddo.' (Cyfweliad â rheolwr, 2020)

> 'Mae pysgodyn Babel, sef yn yr achos hwn 3-SET, yn rhan bwysig o bob ecosystem. Gall fod yn anodd i sefydliadau gael eu clywed yng nghoridorau pŵer y cyllidwr [...]. Weithiau dyw'r cyllidwr ond yn gallu siarad mewn du a gwyn ac ni all gael ei weld yn siarad yn llwydaidd.' (Cyfweliad â rhanddeiliad, 2020)

4.3 Tynnodd rhai rhanddeiliaid sylw at fanteision safle hanesyddol y tîm yn y trydydd sector. Yn ogystal, er y bu newidiadau i'r ffocws gweithredol, mae'r rhesymeg wedi aros yn gyson ers blynyddoedd lawer a bydd yn parhau i fod yn berthnasol yng nghyswllt unrhyw gyllidwyr eraill newydd yn dilyn Brexit, h.y. nid oes angen

cyfyngu'r rhesymeg dros 3-SET i'r berthynas rhwng y trydydd sector a chyllidwyr Ewropeaidd:

> 'Mae 3-SET wedi bod o gwmpas ers amser maith mewn amryw iteriadau, felly mae'n fodel sy'n wedi'i brofi i fod yn werthfawr […]. Roedd gan 3-SET [yng nghyfnod] Amcan 1 gannoedd o brosiectau llai uniongyrchol, yna fe wnaethon ni symud i gyfnod heb lawer o gyflawnwyr uniongyrchol ar gyfer WEFO. Mae 3-SET wedi newid i gyd-fynd â hynny, ond mae'r llinyn craidd o sicrhau bod barn yn cael ei chlywed, cyfrannu at drafodaethau [polisi], datblygu arferion a llywodraethu da, bwydo'n ôl sut y gall y sector chwarae mwy o ran pe bai rheoliadau'n cael eu newid – mae hynny'n eithaf cyffredin drwyddi draw.' (Cyfweliad â rhanddeiliad, 2020)

> 'Yn y bôn, mae wedi bodoli i hyrwyddo'r defnydd gorau o gronfeydd Ewropeaidd – gallai hyn yn fuan gael ei ymestyn i gronfeydd eraill.' (Cyfweliad â rhanddeiliad, 2020)

**Dyluniad**

4.4 Un o gryfderau allweddol dyluniad 3-SET yw ei safle yn CGGC, sef corff cefnogi ac eirioli sy'n ddylanwadol, yn ddibynadwy ac yn gynhwysfawr ar gyfer y trydydd sector yng Nghymru. Soniwyd am hyn yn gyson i fod yn gryfder sylweddol, gan ddod â manteision i 3-SET ei hun, i CGGC, ac i sefydliadau'r trydydd sector.

4.5 Mae buddion allweddol y berthynas â CGGC yn ymwneud, yn gyntaf oll, â'r ystod o gefnogaeth amgen ac ehangach y gall 3-SET gyfeirio sefydliadau atynt. Mae'r mynediad at gasgliadau ehangach o arbenigedd a chysylltiadau yn gryfder arall, a llawer o'r rhai a gyfwelwyd, gan gynnwys buddiolwyr, wedi tynnu sylw at yr hyder sydd gan nifer yn CGGC a 3-SET. Yn olaf, ac fel y trafodwyd yn fanylach isod, credwyd mai CGGC oedd y sefydliad arferol, uchel ei barch, 'i fynd ato' ar gyfer unrhyw sefydliad trydydd sector, ac y credwyd y byddai unrhyw sefydliad sy'n mynd at y corff ymbarél i gael cefnogaeth â phrosiectau cyllid Ewropeaidd, waeth beth wyddent am 3-SET, yn cael eu trosglwyddo i'r tîm yn gyflym ac yn llyfn:

> 'Mae bod yn rhan o sefydliad ehangach fel CGGC wedi helpu i lunio dyluniad a gwaith y rhaglen dros y blynyddoedd ac mae'n rhoi hyder. Mae'r [Corff Cyfryngol] yn rhoi modd i ni gael gafael ar uwch reolwyr a swyddogion eraill. Rydyn ni'n gallu siarad o brofiad am yr heriau a'r cyfleoedd rydyn ni wedi dod ar eu traws.' (Cyfweliad â rheolwr, 2020)

‘Yr hyn sydd wir yn gweithio’n dda iawn gyda’i drefniant yw’r holl bobl sy’n gweithio yn CGGC, oherwydd rydyn ni’n gallu defnyddio eu harbenigedd nhw. Maen nhw wedi bod o gwmpas ers amser maith ac mae ganddynt wybodaeth am y cronfeydd sydd wedi cronni dros nifer o flynyddoedd. Rydym yn gweithio’n agos iawn gyda’n cydweithwyr yn Cynhwysiant Gweithredol a chronfeydd eraill ledled Cymru – mae’n gipolwg mor werthfawr.’ (Cyfweliad â rheolwr, 2020)

‘Mae’n rhan o CGGC ... ers Amcan 1. Mae yna wybodaeth a chapasiti i fanteisio arnynt hefyd, felly mae’n ehangach na staff a strwythur 3-SET yn unig. Dyw [staff 3-SET] ddim yn ddamcaniaethol yn unig – rydyn ni’n gwybod sut mae prosiectau’n gweithio. Dydyn ni ddim yn dameidiog – rydyn ni’n defnyddio enghreifftiau bywyd go iawn sydd wedi codi o’n profiad.’ (Cyfweliad â rheolwr, 2020)

4.6 Credir hefyd bod y gallu i ymgysylltu â strwythurau polisi trwy CGGC ac fel rhan ohono wedi bod yn fudd sydd wedi codi o’r dyluniad. Ystyrir mai cryfder allweddol y dyluniad yw bod yn rhan o CGGC yn ehangach (gan fod â mynediad agos iawn sydd bron yn ddi-dor at ymgysylltu strategol a pholisi ehangach CGGC).

4.7 Roedd un pryder a gododd o’r cysylltiad agos â CGGC yn ymwneud â’r anawsterau wrth esbonio’r gefnogaeth sydd ar gael:

‘Un o’r problemau sydd gen i yw gweld ble mae 3-SET yn dechrau ac yn gorffen a ble mae CGGC yn dechrau ac yn gorffen. Yn aml byddwn i’n dweud mai gweithgareddau CGGC yw rhai o’r pethau ond dydyn nhw ddim. [Yn hytrach, gweithgareddau 3-SET ydyn nhw.] Mae beth sy’n dod o dan yr ymbarél yn aneglur weithiau. Does dim ots i mi. Ond o ran priodoli pethau i 3-SET, dydw i ddim yn siŵr.’ (Cyfweliad â rhanddeiliad, 2020)

4.8 Fodd bynnag, nid ystyrid bod hyn yn broblem os nad yw 3-SET, oherwydd cyfyngiadau ei gylch gwaith, yn gallu cefnogi sefydliadau. Mewn achosion o’r fath, ac oherwydd ei wybodaeth a’i gysylltiad â CGGC, mae’r tîm wedi gallu cyfeirio yn effeithiol. Yn wir, teimlai rhai rhanddeiliaid fod arbenigedd a ffocws arbenigol 3-SET yn cyfoethogi cynnig ehangach CGGC heb orgyffwrdd a dyblygu’r cynnig cymorth ehangach:

‘Mae gan CGGC ei weithgareddau craidd, ac mae 3-SET yn gwneud hynny yn arbennig i’r casgliad eithaf sylweddol o sefydliadau sy’n ymwneud â chyllid Ewropeaidd. Mae eu cefnogaeth yn cyd-fynd â’r hyn y mae CGGC eisiau ei

wneud neu y dylent fod yn ei wneud ond maen nhw'n gallu targedu'r gynulleidfa honno.' (Cyfweliad â rhanddeiliad, 2020)

4.9 Fodd bynnag, awgrymodd rhanddeiliaid y gallai'r diffyg eglurder ynghylch ei gylch gwaith fod yn rhwystr i rai sefydliadau rhag ymgysylltu â 3-SET:

> 'Mae'n wych oherwydd bod y materion sydd gan bobl wrth fynd atyn nhw yn gymhleth – mae angen i sefydliadau rheng flaen gael rhywun *au fait* gyda'r cyflawni a'r rheoli. Mae'n anodd os nad yw pobl yn credu bod cyngor 3-SET yn berthnasol iddyn nhw.' (Cyfweliad â rhanddeiliad, 2020)

4.10 Fel y nodwyd eisoes, teimlai rhanddeiliaid hefyd fod 3-SET, trwy weithredu fel cyfryngwr rhwng cyllidwyr a sefydliadau cyflenwi, yn ychwanegu gwerth a dealltwriaeth ac yn ehangu cyrhaeddiad CGGC a WEFO.

4.11 Credir bod annibyniaeth y gefnogaeth, heb unrhyw sefydliadau eraill yn ei gynnig ac, felly, yn 'cystadlu' am gleientiaid, yn fodd i hwyluso ac annog atgyfeiriadau:

> 'Un o'r pethau da iawn o weithio ym maes cyllid Ewropeaidd yw bod yna lawer o orgyffwrdd yng nghefnogaeth y trydydd sector yn gyffredinol, ond ym maes cyllid Ewropeaidd ni yw'r arbenigwyr ac rydyn ni'n cael ein gweld fel yr arbenigwyr yn y maes hwnnw. Nid oes llawer o wrthdaro yn ein strwythur trydydd sector ein hunain. Does dim cystadleuaeth. Rwyf wedi cael y sgwrs hon gyda phrif swyddogion oherwydd bod cyllid Ewropeaidd yn rhywbeth rydyn ni'n arbenigwyr arno.' (Cyfweliad â rheolwr, 2020)

4.12 Ystyriwyd hefyd mai cryfder allweddol oedd hyd oes hir 3-SET, ynghyd â'i berthynas agos â rhaglenni etifeddiaeth. Adfyfyriodd rhanddeiliaid ar werth y cysylltiadau tymor hir a'r cysylltiadau â'r sector, ynghyd â thynnu sylw at y modd y mae rhaglen sydd wedi para dros gyfnod hirach o amser wedi gallu meithrin cysylltiadau fel hyn:

> 'Rwy'n credu ei fod yn gwneud hynny'n dda iawn, iawn. Mae cael cysylltiadau tymor hir â rhaglenni yn datblygu arbenigedd. Pe byddai'n dymor byr, yna (yn amlwg) mae gan bobl lai o brofiad a chysylltiadau. Mantais rhaglen hirdymor yw adeiladu dyfnder, profiad a pharch. Mae'r un olaf hwnnw'n hynod bwysig.' (Cyfweliad â rhanddeiliad, 2020)

4.13 Fel y nodwyd uchod, codwyd pryderon, serch hynny, mewn perthynas ag effeithiolrwydd ymgysylltu â strwythurau polisi'r Deyrnas Unedig. Fodd bynnag, ni awgrymodd unrhyw sefydliad nac unigolyn na ddylai ymgysylltu o'r fath ddigwydd.


4.14 Yn olaf, mewn perthynas â'i ddyluniad, soniodd buddiolwyr, rhanddeiliaid a phersonél rheoli am botensial 3-SET i gefnogi grŵp llawer ehangach o sefydliadau. Fodd bynnag, credir bod cyfyngu'r gefnogaeth i sefydliadau a ariennir gan ESF neu ERDF wedi atal y tîm rhag cefnogi mwy o sefydliadau, hyd yn oed pan oedd y tîm yn teimlo bod yr arbenigedd a'r wybodaeth ganddynt i wneud hynny. Gwelwyd bod y cynnig hyfforddiant yn benodol yn apelio y tu hwnt i'r ffrydiau cyllido perthnasol ac yn apelio at ystod eang o sefydliadau.

*Hyrwyddo 3-SET a'r defnydd arno*

4.15 Nododd mwyafrif llethol y rhai a gyfwelwyd (71 y cant) eu bod wedi dod i wybod am gynnig cymorth 3-SET naill ai trwy eu profiad blaenorol eu hunain neu ar argymhelliad sefydliad arall a oedd wedi ymwneud â 3-SET. Cyflwynir y data yn Ffigur 4.1 isod. Mae'n codi dwy ystyriaeth bosibl. Yn gyntaf, mae profiadau sefydliadau gyda 3-SET yn aml yn ddigon cadarnhaol i ennyn argymhellion ac ymgysylltu aml.

4.16 Yn ail, roedd tua un o bob chwech (16 y cant) o'r rhai a gyfwelwyd wedi dod i wybod yn uniongyrchol trwy ymdrechion hyrwyddo 3-SET. Gall hyn adlewyrchu natur sefydledig 3-SET a CGGC fel ffynonellau cymorth ac/neu'r cyfnod o amser y mae'r tîm wedi bod yn weithgar ar ryw ffurf yn y sector. Nid oes llawer o sefydliadau yn y sector nad ydynt yn gwybod bod 3-SET neu CGGC yn cynnig cefnogaeth i sefydliadau'r trydydd sector sy'n ymgysylltu â chyllid Ewropeaidd. Eto, gall hyn awgrymu methiant cymharol i hyrwyddo'r cynnig yn llwyddiannus; fodd bynnag, nid oedd y data gan y sefydliadau nad oeddent wedi cymryd rhan yn cefnogi hyn, ac nid oedd unrhyw ddata pellach gan randdeiliaid na phersonél rheoli.

**Ffigur 4.1: Sut y daethoch i wybod am y gwasanaethau y gallai 3-SET eu cynnig i chi?**




Ffynhonnell: Cyfweliadau â buddiolwyr (N=52)

4.17 Mae cred hefyd fod sefydliadau'n dod o hyd i'r gefnogaeth nid trwy unrhyw hyrwyddo neu brofiad o 3-SET, ond trwy fynd at CGGC – sef ffynhonnell gyfarwydd i'r sector i gael cymorth a gwybodaeth – ac yna cael eu trosglwyddo i'r tîm:

> 'Rwy'n credu os yw sefydliad trydydd sector eisiau cael gafael ar gyllid Ewropeaidd, yna at CGGC y maen nhw'n mynd. Maen nhw'n gwybod mai CGGC yw'r lle i fynd iddo. Gwnaethom lawer o waith gyda'r Cynghorau Gwirfoddol Sirol i sicrhau eu bod yn deall beth y gallai cefnogaeth 3-SET ei gynnig.' (Cyfweliad â rheolwr, 2020)

4.18 Dywedodd personél rheoli hefyd eu bod wrth hyrwyddo ac annog cyllid Ewropeaidd yn ceisio rhoi portread realistig o'r heriau a ddaw yn ei sgil ac, o ganlyniad, y cydymffurfio angenrheidiol:

> 'Beth wnaethon ni oedd dod â hynny at y bwrdd gyda dos o realiti, ac egluro nad yw cyllid Ewropeaidd i bawb. Mi welais i nifer fawr o brosiectau yn dod drwodd mewn swydd flaenorol na ddylent fod wedi mynd am gyllid Ewropeaidd ac a oedd yn rhwym o fethu – mae hynny ei hun yn helpu'r gyfradd gydymffurfio. Pobl nad oes ganddyn nhw'r strwythurau yn eu lle … sydd ddim yn mynd am y cyllid – ond nid yw'r cyllid wedi'i sefydlu ar eu cyfer nhw. Dyna pryd mae gennych chi brosiectau sydd wir yn ei chael hi'n anghywir. Mae'n rhwydd iawn mynd allan yna a dweud: "Edrychwch pa mor wych yw'r cyllid hwn a pha mor hawdd yw cael gafael arno." [Ond] wedyn gall y cyflenwi a'r gweithredu fod yn hynod anodd, felly

rydyn ni wedi bod yn gweithio gyda nhw i ddeall realiti'r cyllid hefyd ac mae hynny wedi helpu'r gyfradd gydymffurfio yn y sector yn ogystal.' (Cyfweliad â rheolwr, 2020)

*Effeithiau allanol*

4.19 Mae dau ffactor allanol wedi effeithio ar gynnig 3-SET ac wedi dod â risgiau sylweddol i'r sefydliadau sy'n cael eu cefnogi. Mae Brexit a phandemig y coronafeirws wedi cael effaith wahanol ar y rhaglen. Mae Brexit wedi cael ei drafod mewn perthynas â dyluniad y rhaglen; fodd bynnag, ac eithrio mwy o ffocws ar gefnogi cynaliadwyedd mewn dyfodol y tu allan i'r Undeb Ewropeaidd, gellid rhoi cymorth perthnasol heb newidiadau i ddyluniad y rhaglen.

4.20 Mae pandemig y coronafeirws wedi golygu bod angen newid pellach wrth ddarparu cynnwys, wrth orfod cefnogi sefydliadau i ddelio â'r heriau gweithredol a amlinellwyd yn y bennod flaenorol. Yn weithredol, mae'r pandemig hefyd wedi golygu bod angen newid i ddarpariaeth ddigidol ac o bell. Awgryma'r data bod hyn wedi bod yn llwyddiannus, gydag ychydig iawn o awgrymiadau nad yw'r ddarpariaeth wedi gweithio, ac yn wir rywfaint o awgrym y gallai darpariaeth ddigidol fod yn fwy priodol i sefydliadau ac unigolion sy'n brin eu hamser a'u hadnoddau.

4.21 Tra bod y sefydliadau yn ceisio delio ag effaith y pandemig, mae risg bod y ffocws ar ddatblygu a sicrhau cynaliadwyedd y tu hwnt i gyllid Ewropeaidd wedi'i ohirio neu ei lesteirio:

> 'Mae parodrwydd yn allweddol i unrhyw raglen cymorth technegol a chredaf fod y pandemig [COVID-19] cyfredol wedi effeithio arno o ran paratoi i adael yr UE, a dim ond yn ystod yr wythnosau diwethaf rydyn ni wedi gweld y sylw yn cael ei symud yn ôl at y materion hyn. Mae eu holl sylw wedi bod ar oroesi'r pandemig o ran cefnogi staff a buddiolwyr.' (Cyfweliad â rhanddeiliad, 2020)

4.22 O ystyried yr amser a gollwyd a bod y Deyrnas Unedig wedi gadael yr UE yn y cyfamser, efallai y bydd angen cefnogaeth bellach ar sefydliadau 3-SET i sicrhau bod paratoadau digonol yn cael eu gwneud i gynnal eu gwaith a'u heffaith ar ôl i'r cyllid ddod i ben. Er ei fod eisoes yn flaenoriaeth, mae'n bosibl fod y brys arno wedi cynyddu oherwydd yr amser a gollwyd yn addasu i'r pandemig a dod dros hwnnw.

*Rheolaeth*

4.23 Mae parch arbennig o uchel at y tîm rheoli ymysg rhanddeiliaid a sefydliadau, yn ogystal â chael eu parchu ledled y sector am eu gwybodaeth, eu harbenigedd a'u profiad. Ymddengys fod y profiadau cadarnhaol y mae buddiolwyr wedi'u cael wrth ymgysylltu â'r gefnogaeth wedi cyfrannu at y farn hon.

4.24 Fel y nodwyd eisoes, mae disgwyl y cyflawnir pob targed allbwn neu ragori arno, ac argraff buddiolwyr a rhanddeiliaid yw bod y gefnogaeth wedi cael impact, a hynny'n aml yn effaith barhaus neu hirhoedlog ar y sefydliadau:

> 'Rydyn ni'n eithaf hapus o ran y cynllun busnes a ddatblygwyd ar gyfer y prosiect ac [o ran] cyrraedd y targedau, dylem ragori arnynt. O ran y rhwydweithiau a'r digwyddiadau rydyn ni'n eu gwneud, mae'r rheini wedi cael derbyniad da ac mae pobl yn eu hystyried yn ffordd dda o godi materion a phryderon ac maen nhw'n ein gweld ni fel cyfrwng y gallan nhw ymgysylltu â Llywodraeth Cymru drwyddo.' (Cyfweliad â rheolwr, 2020)

4.25 Roedd y rhai a gyfwelwyd yn aml yn enwi unigolion yn y tîm yr oeddent wedi gweithio gyda nhw, gan awgrymu yn gyson bod y berthynas a ddatblygwyd gydag aelodau o'r tîm yn rheswm allweddol dros barhau i ymwneud â'r gefnogaeth a gynigid, yn ogystal ag ymddiried ynddo a dibynnu arno:

> 'Pryd bynnag rydw i wedi bod angen help, maen nhw wedi bod yn rhagorol. Rwy'n cymryd rhan ar y camau syniadau a phob amser rydw i jest mynd i ofyn i [enw aelod 3-SET] am unrhyw beth.' (Cyfweliad â rhanddeiliad, 2020)

4.26 Yn fwy cyffredinol, awgryma'r data fod y tîm rheoli wedi datblygu cryn arbenigedd a phrofiad, yn ogystal â rhwydwaith pwerus o gysylltiadau, cynghorwyr ac arbenigwyr ategol (sydd o fudd i'r sector o fewn a thu hwnt i gyd-destun a chylch gwaith 3-SET). Edrychir ar y mater hwn yn fanylach yn yr adran 'Y Dyfodol' isod.

*Beth sydd ar goll o gymorth 3-SET?*

4.27 Gofynnwyd i fuddiolwyr a oeddent yn credu bod unrhyw beth ar goll o'r gefnogaeth y mae rhaglen 3-SET yn ei chynnig. Credai cyfran fawr o'r cyfranogwyr (45 y cant) nad oedd unrhyw beth ar goll ac na allent feddwl am unrhyw beth arall y gellid ei gynnwys. Roedd yr ymatebion eraill yn adlewyrchu materion sydd wedi'u trafod yn yr adroddiad hwn, sef yr awydd am fwy o gefnogaeth a hybu cydweithredu ag

awdurdodau lleol a sefydliadau eraill (20 y cant) a chydweithredu ar draws sectorau (15 y cant):

> ‘Rwy’n credu y dylai 3-SET edrych mwy ar draws-atgyfeirio ac annog sefydliadau tebyg i weithio gyda’i gilydd. Mae gennym sgiliau a gwybodaeth arbenigol y gallai sefydliadau eraill elwa ohonynt. Mae sefydliadau’r trydydd sector yn dal i fod yn ynysig iawn yn eu dull gweithio, yn hytrach dylent fod yn gweithio gyda’i gilydd, a dylai 3-SET fod â rôl wrth gael gwared â’r rhwystrau hyn.’ (Cyfweliad â buddiolwr, 2020)

> ‘Dylai 3-SET geisio datblygu mwy o gysylltiadau rhwng y trydydd sector a’r awdurdodau lleol. Dylai helpu i ddatblygu strategaeth drosfwaol ar draws rhanbarth cyfan gan gael cydweithredu rhwng y trydydd sector, awdurdodau lleol a chwmnïau preifat.’ (Cyfweliad â buddiolwr, 2020)

**Y dyfodol**


4.28 Mae elfen allweddol o waith 3-SET yn ymwneud â chynnal – y tu allan i’r Undeb Ewropeaidd – effaith ac ymgysylltiad sefydliadau’r trydydd sector wrth gyflawni buddsoddiad strategol. Ymhellach, roedd dyhead y byddai’r adroddiad hwn yn archwilio’r mater yn fanwl, gan roi ystyriaeth ddyledus i’r heriau sy’n wynebu’r sector yn y tymor byr a’r tymor hir, y math o gefnogaeth y gallai fod ei hangen yn dilyn Brexit, a’r strwythurau neu’r modelau hynny a allai ddarparu cefnogaeth o’r fath.

4.29 Archwiliwyd yr heriau sy’n wynebu’r sector yn dilyn Brexit yn fwy penodol ac yn fwy manwl mewn cyhoeddiadau ehangach, yn anad dim y rhai a gynhyrchwyd gan CGGC/3-SET eu hunain neu’r rhai y maent wedi cyflwyno tystiolaeth iddynt. Ceir rhagor o fanylion yn yr adran ‘Ymgysylltu strategol a pholisi’ uchod (3.67). Bydd yr adran hon yn canolbwyntio ar yr ymatebion a’r trafodaethau yn y cyfweliadau.

*Heriau’r sector*

4.30 Mae Ffigur 4.2 isod yn amlinellu’r heriau a gredir sy’n wynebu sefydliadau yn syth neu yn y tymor byr. Awgryma’r data’n gryf bod pandemig COVID-19 wedi effeithio ar sefydliadau’r trydydd sector a bod ffocws eu gwaith yn ymwneud i raddau helaeth, os nad yn gyfan gwbl, â mynd i’r afael â’r heriau gweithredol yn sgil y cyfnodau o gyfyngiadau ar symud, a hynny yn peryglu peidio â pharatoi’n ddigonol ar gyfer diwedd cyllid yr UE.


**Ffigur 4.2: Heriau yn y tymor byr**




Ffynhonnell: Cyfweliadau â buddiolwyr (N=52)

4.31 Pan ofynnwyd iddynt ystyried heriau fwy i'r tymor hirach, fodd bynnag (gweler Ffigur 4.3 isod), soniodd sefydliadau am nifer o faterion, llawer ohonynt yn rhyng-gysylltiedig ac yn aml â'u gwreiddiau mewn cyllido cynaliadwyedd. Roedd diwedd cyllid yr UE a'r ansicrwydd ynghylch mynediad at y Gronfa Ffyniant Gyffredin yn dominyddu ymatebion. Fodd bynnag, gallai arallgyfeirio ffrydiau refeniw, cystadleuaeth am gyllid (28 y cant o'u cyfuno), a phroblemau staffio (14 y cant) fod yn gysylltiedig â'r mater craidd o addasu i ddiwedd llif refeniw allweddol a'r ansicrwydd ynghylch posibiliadau ar gyfer cyllid newydd.

**Ffigur 4.3: Heriau yn y tymor hirach, y tu hwnt i 12/18 mis**




Ffynhonnell: Cyfweliadau â buddiolwyr (N=52)

4.32 Nododd rhanddeiliaid yn glir mai'r ansicrwydd ynghylch y Gronfa Ffyniant Gyffredin a chyfleoedd refeniw ac ariannu yn y dyfodol yw'r her fwyaf yn y tymor byr a'r tymor hir:

> 'Y diffyg gwybod – yn y tymor byrrach a'r tymor hirach. Mae llawer o sefydliadau yn dibynnu ar gyllid Ewropeaidd. Dyw cyllid Ewropeaidd ddim yn eich gorfodi i ail-greu prosiect newydd bob tro. Dyw e ddim yn llawer [o gyllid] i'r llywodraeth, ond mae'n dalp sylweddol sy'n mynd i'r trydydd sector. Mae angen i ni gadw anghenion y trydydd sector ar flaen [yr agenda] gyda WEFO, Llywodraeth Cymru, a Llywodraeth y DU. Dydyn ni ddim yn gwybod am [COVID-19] na'r tymor hirach [yn dilyn Brexit]. Mae cynlluniau ar ôl Brexit wedi'u hysgrifennu yn y tywod. Erbyn yr adeg hon, roeddem yn disgwyl gwybod beth oedd y camau nesaf, ond (yn amlwg) dydyn ni ddim. Mae angen 3-SET ac mae'n chwarae rhan hanfodol oherwydd ei fod mewn sefyllfa i helpu'r trydydd sector.' (Cyfweliad â rhanddeiliad, 2020)

4.33 Rhagwelai sawl rhanddeiliad hefyd (h.y. yn dilyn pandemig COVID-19) y byddai cynnydd tebygol yn y galw am y gwasanaethau y mae sefydliadau'r trydydd sector yn eu darparu, yn enwedig mewn perthynas â chyflogaeth. Fodd bynnag, roedd adnoddau'n debygol o leihau, a mynegwyd ofnau mewn perthynas â hyfywedd llawer o sefydliadau yn y cyfamser, yn anad dim oherwydd yr anallu i godi arian yn effeithiol yn ystod y pandemig:

> 'Cynaliadwyedd sefydliadau ar ran honno'r cyllid. Nawr, gyda [COVID-19], does gyda ni ddim syniad sut olwg fydd ar y sector wrth symud ymlaen – faint fydd yn goroesi. Mae Prifysgol Abertawe yn rhagweld na fydd 40% o sefydliadau iechyd meddwl yn goroesi – dydyn ni ddim yn gwybod faint o incwm fydd yn cael ei golli.' (Cyfweliadau â rhanddeiliad, 2020)

4.34 Yn wir, wrth ragweld mwy o alw am wasanaethau, roedd buddiolwyr hefyd wedi nodi bod y trydydd sector yn parhau i allu cynnig dull sy'n bodoli eisoes o ateb y cynnydd hwn yn y galw, os caiff ei ariannu'n ddigonol. Yn ogystal, awgrymodd rhai buddiolwyr bosibiliadau cyllido ehangach:

> 'Bydd angen mwy o gefnogaeth ar y trydydd sector gan ei fod yn wynebu cynnydd yn y galw oherwydd [COVID-19], e.e. iechyd meddwl a chynnydd mewn diweithdra; [felly], bydd angen i CGGC gefnogi sefydliadau i ddod o hyd i fwy o gyllid a chynyddu eu capasiti. Rwyf hefyd yn credu [bod] angen gwneud mwy ynghylch dod o hyd i gyllid sy'n diferu i lawr i'r elusennau llai.' (Cyfweliad â buddiolwr, 2020)

> 'Mae dyfodol cyfan y trydydd sector yn ansicr iawn ar hyn o bryd. Bydd yn dibynnu ar flaenoriaethau'r llywodraeth. Gallaf weld y bydd mwy o ffocws ar brosiectau cyflogadwyedd a CGGC/3-SET a gallai'r trydydd sector helpu gyda'r rhain trwy ddatblygu cysylltiadau rhwng y trydydd sector a diwydiant a chwmnïau preifat.' (Cyfweliad â buddiolwr, 2020)

4.35 Wrth drafod heriau i'r tymor hirach, soniodd rhanddeiliaid yn aml am yr angen i gael cyllid yn lle'r cyllid a gollwyd o'r UE, ond hefyd yr anawsterau o wneud hynny (gan y bydd hi'n debygol y bydd telerau strwythurau cyllido newydd yn cael eu penderfynu yn San Steffan):

> 'Mae'r ansicrwydd yn ymwneud â sut fydd trefn ariannu'r dyfodol yn edrych. Bydd y cipio pŵer enfawr ar ddiwedd yr M4 yn parhau. Os cawn gymaint o arian ag a gawn nawr, byddai hynny'n wyrth lwyr. Bydd yr agenda yn cael ei gosod yn

Llundain, a bydd arian yn cael ei roi i ddinas-ranbarthau, nad yw'n cyd-fynd â blaenoriaethau Llywodraeth Cymru. Mae mwyafrif ein problemau, y tu hwnt i'r rhai uniongyrchol nawr, yn broblemau gwleidyddol.' (Cyfweliad â rhanddeiliad, 2020)

4.36 Ymddengys felly mai her allweddol yw un strategol sy'n gysylltiedig â pholisi, sef tynnu sylw yn San Steffan at fuddion a gwerth y trydydd sector i allu gweithredu cyllid strategol. Mae'n annhebygol y bydd gan sefydliadau unigol y capasiti i ymgysylltu â strwythurau polisi a hwythau'n brysur â heriau gweithredol pandemig COVID-19. Felly, mae'n debygol y bydd angen cefnogaeth bellach ar sefydliadau'r trydydd sector, oherwydd yr amser a'r adnoddau a dreulir yn delio â'r pandemig a'i oblygiadau, i ddeall a pharatoi at drefniadau ôl-Brexit. Ategwyd y materion hyn gan sylwadau rheolwyr 3-SET:

> 'Rwy'n credu o ran deall goblygiadau Brexit, mae llawer o sefydliadau'n ddall i'r cysylltiadau sydd ganddyn nhw ag Ewrop ac i'w darpariaeth sefydliadol, [yn ogystal â methu] gweld eu gallu i ddylanwadu ar bolisi a deddfwriaeth. Chwilio am ffynonellau cyllid mwy cynaliadwy, fel nad ydyn nhw'n rhedeg ar grantiau yn unig, iddyn nhw fedru bod yn fwy cynaliadwy. Mae adfer [COVID-19] yn rhywbeth arall, sut olwg bynnag fydd ar hynny. Codi ymwybyddiaeth ynghylch sut fydd y dirwedd yn edrych [ar ôl COVID-19] a Brexit.' (Cyfweliad â rheolwr, 2020)

*Anghenion cymorth*

4.37 Mae'n debygol y bydd y gefnogaeth, ar sail sylwadau'r rheolwyr a'r rhanddeiliaid, yn gefnogaeth strategol a gweithredol. Yn gyntaf, bydd angen sicrhau, drwy'r strwythurau polisi perthnasol, bod hyrwyddo ar yr achos dros sicrhau bod gan drydydd sector Cymru fynediad at gyllid newydd, yn enwedig y Gronfa Ffyniant Gyffredin. Mae 3-SET, fel y nodwyd uchod, eisoes wedi dechrau ar y gwaith hwn.

4.38 Yn ail, mae'n debygol y bydd angen rhoi cefnogaeth ymarferol, arweiniad a hyfforddiant i sefydliadau'r trydydd sector i ddatblygu eu hymwybyddiaeth, eu dealltwriaeth a'u gallu i gael gafael ar unrhyw gyllid newydd. Mae'r amcanion hyn yn debyg iawn i'r hyn y mae 3-SET eisoes yn ei gynnig mewn perthynas â chyllid Ewropeaidd.

4.39 Dywedodd personél rheoli hefyd fod angen cefnogaeth bellach a mwy penodol er mwyn cynorthwyo i drosglwyddo i ffyrdd newydd o weithio, gan gynnwys gwell


cefnogaeth i ddarpariaeth ddigidol a chymorth i sicrhau swyddi sy'n fwy cynaliadwy yn ariannol.

4.40 Trafododd buddiolwyr hefyd eu barn am eu hanghenion cymorth ar gyfer y dyfodol. Nid yw'n syndod mai paratoi ar gyfer cyllid Ewropeaidd a'r hyn ddaw yn ei le a gododd amlaf (33 y cant), ynghyd â materion cysylltiedig megis yr angen am ragor o wybodaeth am y Gronfa Ffyniant Gyffredin (25 y cant). Roedd cefnogaeth arall, megis hyfforddiant staff (29 y cant), ac ystod o faterion penodol yn ymwneud â chapasiti hefyd yn gyffredin. Dim ond 15 y cant o'r ymatebwyr a nododd nad oeddent yn rhagweld unrhyw anghenion cymorth yn y dyfodol. Cyflwynir nifer yr ymatebion gwahanol yn Ffigur 4.4 isod:

> 'Helpu i sicrhau cyllid newydd a pharatoi at y sefyllfa ariannu ar ôl yr UE. Help gyda'r trosglwyddo i'r Gronfa Ffyniant Gyffredin.' (Cyfweliad â buddiolwr, 2020)

> 'Cynnal y gefnogaeth a'r cynnig hyfforddiant sy'n bodoli nawr. Bydd rhagor o'n staff angen hyfforddiant ar y broses hawlio ac mae angen mwy o hyfforddiant arnom i wella galluoedd staff a'u defnyddio mewn sawl rôl.' (Cyfweliad â buddiolwr, 2020)

**Ffigur 4.4: Pa elfennau o gymorth 3-SET fydd eu hangen yn y dyfodol?**




Ffynhonnell: Cyfweliadau â buddiolwyr (N=52)

*Strwythur*

4.41 Yn olaf, ystyriwyd barn y rhai a gyfwelwyd ar y strwythur neu'r model a allai ddarparu'r gefnogaeth. Yn gyffredinol, cytunwyd yn eang bod angen rhyw fath o blatfform neu strwythur i roi cefnogaeth barhaus i sefydliadau. Roedd llawer o'r sylwadau hefyd wedi sôn am yr angen am ffynhonnell gymorth a gwybodaeth sy'n ddibynadwy:

> 'Bydd bob amser angen platfform ar y sector sydd â'r arbenigedd i ddwyn ynghyd y gwahanol ddarnau o wybodaeth, sydd â'r arbenigedd i ymgysylltu â phartneriaid, ac sydd â'r gallu i ddysgu o brofiadau blaenorol ac ymgyrchu dros welliannau, a bydd sefydliadau'r trydydd sector sy'n cael trafferthion yn desbrad am farn ddibynadwy.' (Cyfweliad â rhanddeiliad, 2020)

4.42 Credai mwyafrif helaeth y buddiolwyr (87 y cant)[11] fod cyfiawnhad dros ryw fath o gymorth 3-SET. Awgrymodd mwyafrif y rhain fod angen model tebyg iawn, mewn perthynas â'r strwythurau cyllido newydd yn unig. Tynnwyd sylw yn benodol at staff i fod yn rhai sydd â rôl allweddol i'w chwarae wrth reoli'r gefnogaeth, y newid i'r strwythurau newydd, neu'r ddau:

> 'Mae angen pendant i 3-SET reoli'r trosglwyddo i'r Gronfa Ffyniant Gyffredin. Mae gan staff 3-SET yr wybodaeth a'r profiad o helpu sefydliadau. Helpu sefydliadau newydd i fynd trwy'r broses.' (Cyfweliad â buddiolwr, 2020)

4.43 Mynegodd rhanddeiliaid gred hefyd y byddai angen platfform tebyg yn y dyfodol yn bennaf i gefnogi ymgysylltiad ag unrhyw strwythurau cyllido newydd:

> ' […]. Rwy'n credu [bod] 3-SET [yn addas], oherwydd ei gysylltiadau aelodaeth a'i allu i weithredu ac i ledaenu gwybodaeth. Bydd rhaglenni newydd yn arwain at ansicrwydd, a gall y broses o reoli rhaglenni fod yn wahanol […]. Bydd sefydliadau'n ysu am gael rhyw fath o wasanaeth 3-SET.' (Cyfweliad â rhanddeiliad, 2020)

4.44 Awgrymodd personél rheoli hefyd y byddai angen yn parhau yn y trydydd sector am gefnogaeth o'r math a gynigir gan 3-SET:

> 'Bydd, yn bendant. O fy mhrofiad i, mae'n bendant yn adnodd gwerthfawr i'r sector. Mae mor braf gweld pa mor llwyddiannus y gall y sector fod gyda'r math

[11] Nid oedd yr ymatebwyr eraill wedi mynegi barn nac awgrymu y gallai fod angen rhyw fath o gefnogaeth 3-SET, yn hytrach nag yn bendant ei angen.

hwn o gefnogaeth. Byddai'r llwyddiant hwn yn tyfu pe gallai 3-SET gefnogi ar draws y ffrydiau cyllido. Hyd yn oed heb arian Ewropeaidd, bydd cyllid arall y bydd angen help ar sefydliadau [i'w gael], yn enwedig rhai bach. Mae'r cysylltiadau sydd gennym â Llywodraeth Cymru a'n gwybodaeth am anghenion y sector mor bwysig, a bydd hyn yn dod hyd yn oed yn bwysicach yn y blynyddoedd nesaf yng nghyd-destun Brexit a [COVID-19].' (Cyfweliad â rheolwr, 2020)

'Rwy'n credu ei fod wedi profi y gall y trydydd sector reoli cefnogaeth [cyllid] yr UE yn llwyddiannus os ydynt yn cael y canllawiau cywir. Dylai'r cynnig [cefnogaeth] hwnnw fod yn seiliedig ar adeiladu gwytnwch yn y sector, ond hefyd addasu ac ymateb i'r hyn sydd ei angen ar y sector. Ydi, mae hynny'n gyfiawnhad pam y dylai barhau.' (Cyfweliad â rheolwr, 2020)

4.45 Awgrymodd rhai buddiolwyr, fodd bynnag, y byddai'n syniad i unrhyw strwythur o'r fath fod â mwy o rôl wrth gydlynu consortia i gynyddu'r capasiti cyflenwi:

'Bydd bob amser angen cefnogaeth ac arweiniad ar brosiectau. Rwy'n credu [y bydd] angen i 3-SET wneud mwy i ddod â sefydliadau ynghyd a chreu consortia i gyflawni prosiectau ar raddfa fwy.' (Cyfweliad â buddiolwr, 2020)

# 5. Casgliadau

5.1 Bydd y bennod hon yn dod â'r adroddiad i ben trwy ystyried y cwestiynau ymchwil craidd a mynd i'r afael â chanfyddiadau ehangach ac ychwanegol a gododd yn ystod y dadansoddiad, cyn cyflwyno argymhellion i'w hystyried. Bydd y bennod yn cyflwyno canfyddiadau'r gwerthusiad ar y canlyniadau yn gyntaf, ac yna'r gwerthusiad ar y broses.

5.2 Mae'r dystiolaeth a'r data a archwiliwyd ar gyfer yr adroddiad hwn yn awgrymu bod 3-SET wedi bod, ac yn debygol o barhau i fod, yn wasanaeth effeithiol, gwerthfawr, angenrheidiol a mawr ei effaith i'r trydydd sector yng Nghymru. Yn fwy na hynny, mae achos i'w ddadlau y gallai ei gyfraniad yn yr ychydig flynyddoedd olaf fod yn fwyaf gwerthfawr mewn perthynas â'r dyfodol, wrth baratoi sefydliadau i gael mynediad at strwythurau cyllido newydd ac i lobïo dros y sector a'i fynediad at strwythurau buddsoddi amgen ar lefel strategol a pholisi.

*Gwerthuso canlyniadau*

5.3 Awgryma'r data monitro bod 3-SET wedi bod yn gwneud cynnydd da tuag at ei ddangosyddion perfformiad. Mae staff rheoli yn rhagweld y byddant yn cyrraedd neu'n rhagori ar y targedau erbyn diwedd y rhaglen. Yr unig eithriad yw nifer yr e-gylchlythyrau oherwydd penderfyniad bwriadol (y cytunwyd arno gyda WEFO) i rannu llai o gylchlythyrau ond rhai manylach, wedi'u teilwra i faterion sy'n codi fel Brexit a phandemig COVID-19.

5.4 Mae dosbarthiad daearyddol digwyddiadau yn y cnawd wedi adlewyrchu daearyddiaeth y sector, ac ni dderbyniwyd na chyflwynwyd unrhyw gŵynion i'r tîm gwerthuso mewn perthynas â lleoliad digwyddiadau a chyrsiau hyfforddi.

5.5 Mae'r tîm hefyd wedi ymateb i 311 o ymholiadau gan y sector ac wedi ymateb neu gyfrannu at 15 ymgynghoriad polisi neu ymholiad yng Nghymru neu'r Deyrnas Unedig. Mae 3-SET hefyd wedi mynychu a chyfrannu at 16 o rwydweithiau ffurfiol, wrth iddo geisio hyrwyddo a chefnogi'r sector ar lefel strategol a pholisi.

*Effaith gyffredinol*

5.6 Awgrymodd mwyafrif sylweddol y cyfweleion fod o leiaf un maes o'u gwaith neu sefydliad wedi'i wella neu ei ddatblygu oherwydd cefnogaeth 3-SET. Roedd y data'n awgrymu bod ystod o newidiadau cadarnhaol wedi'u gwneud o fewn y sefydliadau o ganlyniad i'r gefnogaeth, gan gynnwys uwchsgilio, gwell cydymffurfio a hawliadau,

gwell ceisiadau, a bod yn fwy gwybodus a rhwydweithio. Roedd y sgoriau a roddwyd am yr effaith, er ei fod yn oddrychol, yn gyson uchel, serch hynny.

5.7 Soniodd buddiolwyr hefyd am effeithiau meddalach ond gwerthfawr megis mwy o hyder wrth ymwneud â gofynion cyllid Ewropeaidd a bodloni'r gofynion hynny.

5.8 Awgrymodd mwyafrif y cyfweleion hefyd fod y newidiadau'n barhaol neu y byddent yn aros yn eu lle tan (o leiaf) ddiwedd oes y prosiect.

*A yw 3-SET wedi llwyddo i annog sefydliadau'r trydydd sector i ymgeisio i Gronfeydd Strwythurol pan na fyddent fel arall efallai wedi gwneud hynny?*

5.9 Awgryma'r data yn gryf fod 3-SET yn annog sefydliadau i wneud cais am arian pan ydynt yn ansicr. Ychydig iawn o'r rhai a gyfwelwyd a nododd nad oedd 3-SET wedi gwneud hynny, a allai fod yn gysylltiedig ag ymgais fwriadol ar ran y tîm i feithrin disgwyliadau realistig o ran gofynion cydymffurfio cyllid Ewropeaidd; mewn geiriau eraill, er y byddai sefydliadau (yn ddelfrydol) yn ymgeisio, mae 3-SET yn credu nad yw rhai sefydliadau mewn sefyllfa dda bob amser ac mai'r penderfyniad cywir fyddai peidio ag ymgeisio.

5.10 Awgrymodd buddiolwyr fod 3-SET yn annog eu ceisiadau mewn sawl ffordd, yn fwyaf arbennig trwy gynnig a rhoi cefnogaeth gyson trwy gydol y broses ymgeisio, trwy godi ymwybyddiaeth am y cyllid a'u gofynion, a thrwy gynyddu hyder darpar ymgeiswyr.

5.11 Yr wybodaeth a ledaenwyd trwy'r cylchlythyrau a'r digwyddiadau oedd y prif ffyrdd y teimlai'r rhai a gyfwelwyd eu bod yn cael eu hannog, ynghyd â nifer llai o sefydliadau yn teimlo eu bod wedi cael cefnogaeth ac anogaeth dda mewn sesiynau hyfforddi penodol (megis rhai i wella sgiliau ysgrifennu cais).

*A yw 3-SET wedi rhoi arweiniad clir ac effeithiol sydd wedi cefnogi sefydliadau'r trydydd sector i ymgeisio'n llwyddiannus am Gronfeydd Strwythurol?*

5.12 Roedd buddiolwyr hefyd o'r farn fod 3-SET wedi darparu canllawiau effeithiol i'w cefnogi i wneud cais llwyddiannus am gyllid. Yn wir, ni chafwyd awgrym gan neb nad oedd 3-SET wedi eu cefnogi i ryw raddau, gyda'r mwyafrif yn credu eu bod wedi gwneud hynny i raddau helaeth.

5.13 Teimlai'r rhai a gyfwelwyd mai adolygu parhaus ar ffurflenni cais a dogfennaeth oedd y brif ffordd yr oedd y tîm wedi eu cefnogi, ynghyd â'r gwelliannau a awgrymwyd yn ystod y broses. Roedd y gefnogaeth â ffurflenni wedi parhau i

gamau diweddarach y prosiectau, gan gefnogi adnewyddu cyllid yn ogystal â cheisiadau cychwynnol.

*A yw 3-SET wedi rhoi arweiniad clir ac effeithiol sydd wedi cefnogi sefydliadau'r trydydd sector i weithredu prosiectau'r Cronfeydd Strwythurol yn llwyddiannus?*

5.14 Roedd buddiolwyr hefyd yn gryf o'r farn fod 3-SET wedi rhoi arweiniad effeithiol ar gyfer cefnogi gweithredu eu prosiectau. Credai'r mwyafrif fod 3-SET wedi eu cefnogi i raddau helaeth, tra nad oedd unrhyw un wedi awgrymu eu bod wedi methu â darparu cefnogaeth ddefnyddiol pan ofynnwyd am gefnogaeth o'r fath.

5.15 Cefnogodd 3-SET nifer fawr o sefydliadau trwy wella eu gweithdrefnau monitro a chydymffurfio, sef amcan arall allweddol yng nghynllun busnes 3-SET. Ar ben hynny, roedd y tîm wedi cynorthwyo a chefnogi ymgysylltiad uniongyrchol â WEFO, gan yn aml negodi'r gofynion cydymffurfio er mwyn bodloni pryderon WEFO a'r sefydliadau ill dau.

5.16 Yn wir, roedd rôl cyfryngwr, sef rhwng y sefydliadau a'r cyllidwr, yn rôl werthfawr y credir iddi gael ei chyflawni'n dda. Credwyd bod y tîm wedi gallu 'cyfieithu' gofynion y sefydliadau cyllido a'r sefydliadau cyflenwi i'w gilydd.

*A yw 3-SET wedi hyrwyddo rhwydweithio a chydweithredu yn y trydydd sector?*

5.17 Awgrymodd mwyafrif sylweddol y sefydliadau fod y tîm wedi hyrwyddo rhwydweithio a chydweithredu yn y trydydd sector. Ystyriwyd mai 3-SET a'r digwyddiadau oedd y prif ffyrdd y gwnaed hyn. Fodd bynnag, soniodd llawer o fuddiolwyr hefyd am y cyfleoedd rhwydweithio posibl yr oedd digwyddiadau hyfforddi yn eu cynnig.

5.18 At hynny, roedd sefydliadau oedd yn cyflawni ar brosiectau mwy o faint, fel Cynhwysiant Gweithredol, yn arbennig o gadarnhaol mewn perthynas â'r cyfleoedd i rwydweithio a chydweithio.

*A yw 3-SET wedi bod yn llwyddiannus wrth frocera cysylltiadau rhwng y trydydd sector, WEFO, partneriaid rhanbarthol ac/neu awdurdodau lleol?*

5.19 Teimlai dros hanner y rhai a gyfwelwyd fod 3-SET wedi broceru cysylltiadau o'r fath i ryw raddau neu i raddau helaeth, er nad oedd yr ymatebion mor hynod gadarnhaol ag mewn perthynas â'r cwestiynau ymchwil a amlinellwyd uchod.

5.20 Cyfeiriwyd o bryd i'w gilydd at ddigwyddiadau fel ffordd o ffurfio neu ddatblygu cysylltiadau; fodd bynnag, ymddengys bod y mwyafrif wedi'u brocera trwy gyflawni prosiectau. Roedd hyn yn arbennig o wir yn achos sefydliadau sy'n cyflawni ar ran

rhaglenni mwy o faint. Awgryma’r data hefyd fod llysgenhadon a rhannu gwybodaeth ac arfer da hefyd yn meithrin ymddiriedaeth a dealltwriaeth a oedd yn cefnogi brocera cysylltiadau yn llai uniongyrchol.

5.21 Er mai cysylltiadau ag awdurdodau lleol a sefydlid amlaf, mynegodd sefydliadau, er hynny, awydd i ddatblygu mwy o gysylltiadau â chynghorau. Ar ben hynny, soniodd sefydliadau am awydd i ymgysylltu â phartneriaid y tu allan i’r trydydd sector, yn ogystal â gwneud gwaith mwy cydweithredol yn y dyfodol. Cyfeiriodd rhai buddiolwyr hefyd at gyfleoedd cyllido yn y dyfodol megis y Gronfa Ffyniant Gyffredin, ac awydd i gydweithredu â sefydliadau eraill, neu hyd yn oed i greu consortia i gyflawni prosiectau ar raddfa fwy o faint.

*A yw 3-SET wedi cefnogi sefydliadau i gyflawni’r Themâu Trawsbynciol?*

5.22 Awgryma’r data bod y gwaith sy’n cael ei gyflawni gan y trydydd sector yn aml yn gwneud cyfraniad fertigol i’r themâu trawsbynciol, h.y. mae’r prosiectau a’r gwaith a wneir yn mynd i’r afael yn uniongyrchol â’r themâu. Teimlwyd bod hyn, ar y naill law, yn gryfder penodol yng ngwaith y trydydd sector, ond hefyd ar y llaw arall yn faes y mae’r sector yn hanesyddol wedi ei chael yn anodd ei dystiolaethu.

5.23 Yn ôl y data gan fuddiolwyr, fodd bynnag, awgrymir bod 3-SET wedi gweithio i fynd i’r afael â’r diffygion hyn. Awgrymir yn gryf yn nata’r cyfweliadau fod 3-SET wedi cefnogi sefydliadau mewn amryw o ffyrdd mewn perthynas â’r themâu trawsbynciol. Mae llawer o’r gefnogaeth yn broses o ddiffinio’r themâu a dangos neu egluro ymhle a sut y gallai’r sefydliadau dystiolaethu eu cyfraniadau yn effeithiol ac yn effeithlon.

5.24 Credwyd mai cyrsiau hyfforddi a chefnogaeth uniongyrchol gan hyrwyddwr themâu trawsbynciol yn y tîm oedd y ffordd orau o ddarparu’r gefnogaeth hon. Arfer effeithiol y soniwyd amdano hefyd oedd natur ragweithiol y tîm a’r hyrwyddwr wrth ymgysylltu â sefydliadau mewn perthynas â’r themâu.

5.25 Mae 3-SET ei hun yn dweud mai ffactor allweddol yn ei lwyddiant yw’r berthynas dda gyda thîm themâu trawsbynciol WEFO. Yn wir, mae’r tîm wedi defnyddio arbenigedd a phersonél WEFO i gyfathrebu ac ymgysylltu’n uniongyrchol â’r sector ar y mater.

*Pa mor effeithiol y mae 3-SET wedi eich helpu chi a'ch sefydliad i baratoi at y dyfodol a'r hirdymor?*

5.26 Wrth gefnogi sefydliadau i gynllunio ar gyfer y dyfodol a chynnal effaith eu gwaith y tu hwnt i'r cyllid, newidiodd y cyd-destun yn hyn o beth yn sgil penderfyniad Prydain i adael yr UE. Byddai angen i gynllunio'r dyfodol o'r pwynt hwnnw ymlaen ystyried cyllid gwahanol i gyllid Ewropeaidd, nid parhad na datblygu rhaglenni. Mae'r ansicrwydd ynghylch telerau gadael yr UE a'r strwythur cyllido newydd posibl wedi cyflwyno heriau pellach.

5.27 Fodd bynnag, mae'r cyflymder y cafodd cynnwys gweithgareddau rhwydweithio, hyfforddiant a chanllawiau eu newid a'u cyflwyno ar ôl y bleidlais i adael yr UE yn awgrymu bod 3-SET wedi llwyddo i symud ei ffocws ar y flaenoriaeth a godai. Defnyddiodd y tîm gyngor arbenigol i roi'r wybodaeth ddiweddaraf i'r sector am ddatblygiadau parhaus a'u goblygiadau i'r sector, yn bennaf trwy eu cylchlythyrau.

5.28 At hynny, rhoddwyd cefnogaeth uniongyrchol i sefydliadau trwy'r hyfforddiant, y digwyddiadau a'r arweiniad, yn ogystal ag mewn dull mwy pwrpasol trwy ymholiadau uniongyrchol. Mae 3-SET ar yr un pryd wedi ceisio dylanwadu ar y strwythurau polisi yng Nghymru a'r DU er mwyn hyrwyddo gwerth y sector a'i allu i sicrhau buddsoddiad strategol mewn cymunedau. Mae'r tîm hefyd wedi ceisio cyflwyno tystiolaeth a dylanwadu ar ddatblygiad polisi a strwythurau a fydd yn cymryd lle cyllid Ewropeaidd.

5.29 Er bod cefnogaeth wedi'i rhoi, credir bod effaith pandemig y coronafeirws wedi rhwystro neu oedi ymdrechion sefydliadau i fynd i'r afael â'r heriau a ddaw yn sgil diwedd cyllid Ewropeaidd. Nododd sefydliadau eu hunain eu bod yn rhoi sylw helaeth i'r heriau gweithredol yn sgil y pandemig a bod paratoi ar gyfer Brexit a'i oblygiadau cyllido (erbyn hyn) yn nod tymor hir.

5.30 Mae 3-SET wedi dangos ei allu i ledaenu gwybodaeth ac arweiniad perthnasol a chyfredol, ochr yn ochr ag ymgysylltu ar lefel polisi a strategol i hyrwyddo a chefnogi'r sector a'i ddyfodol. Fodd bynnag, mae risg na fydd sefydliadau eu hunain wedi cael y cyfle na'r capasiti, oherwydd pandemig COVID-19, i symud mor gyflym neu mor bell wrth baratoi at ddiwedd cyllid Ewropeaidd. At hynny, er bod 3-SET wedi annog sefydliadau i gyflwyno tystiolaeth ac ymgysylltu â fforymau a strwythurau polisi ffurfiol, mae'n debygol bod y capasiti i wneud hynny wrth orfod

mynd i'r afael â heriau'r pandemig wedi lleihau. Mae gwerth a phwysigrwydd gwaith 3-SET yn ymgysylltu â pholisi yn debygol o gynyddu o ganlyniad i hyn.

*Ymgysylltu â pholisi*

5.31 Mae 3-SET yn weithredol yn mynd ati i hyrwyddo gwerth a chyfraniad cyfredol a phosibl y sector mewn perthynas â buddsoddiad strategol. Mae'r ymdrechion hyn wedi'u cyfeirio at strwythurau polisi ffurfiol yng Nghymru a'r Deyrnas Unedig. Cyflwyno tystiolaeth ac ymatebion i ymgynghoriadau yw mwyafrif y gwaith hwn, ond mae'r tîm hefyd wedi bod yn weithgar mewn nifer o rwydweithiau, wedi cyhoeddi ymchwil, ac wedi cydweithio â phartneriaid eraill yn gyson. Mae 3-SET hefyd yn cyfrannu at gyflwyniadau a gwaith CGGC yn ymgysylltu â pholisi, gan luosi eu heffaith eu hunain ar yr un pryd â chryfhau effaith CGGC.

5.32 Mae'r gwaith wedi canolbwyntio ar ddau brif fater, sef sicrhau cynrychiolaeth ar gyfer darpariaeth y trydydd sector a hyrwyddo'r ddarpariaeth honno, yn ogystal â sicrhau olyniaeth ac etifeddiaeth prosiectau'r trydydd sector a ariennir gan Ewrop yn dilyn Brexit.

5.33 Mae mesur effaith yr ymdrechion hyn yn arbennig o anodd, er bod amlygrwydd cyflwyniadau mewn adroddiadau cyhoeddedig, aelodaeth helaeth y rhwydwaith, a'r modd y mae Llywodraeth Cymru wedi troi at y tîm i gefnogi ymchwil yn awgrymu bod negeseuon y tîm yng Nghymru yn cael eu clywed a'u hystyried.

5.34 Roedd rhanddeiliaid yn llai hyderus mewn perthynas ag ymgysylltu â strwythurau polisi'r Deyrnas Unedig, gan awgrymu y gallai fod yn her gan nad yw San Steffan a Whitehall mor gyfarwydd â'r sector. Soniodd rhanddeiliaid am yr argraff y gallai polisi gael ei ddatblygu 'ar fympwy' neu heb gyfeirio at dystiolaeth a gyflwynwyd yn ffurfiol. Mae'r olaf o'r materion hyn y tu hwnt i reolaeth 3-SET.

*Themâu cyffredin*

5.35 Gwelwyd themâu pellach a rhai cyffredin yn y data. Yn fwyaf amlwg, credir bod y cysylltiadau gwaith cryf a pharhaol gydag ystod o sefydliadau wedi annog ymgysylltiad â'r gefnogaeth a roddir gan 3-SET ac ymddiriedaeth yn y gefnogaeth honno.

**Gwerthuso'r broses**

5.36 Mae rhesymeg 3-SET wedi parhau'n gymharol gyson. Mae'r angen am blatfform neu strwythur i gyfryngu rhwng y cyrff cyflenwi a chyllido wedi aros yr un fath ac

mae'n debygol y bydd ei angen yn y dyfodol. Ar ben hynny, mae rôl 'cyfieithu' y gofynion cydymffurfio i'r sector a chyfleu i'r cyllidwr elfennau ymarferol gweithredu yn cefnogi ac yn ychwanegu gwerth at y ddwy ochr, yn ogystal ag annog rheolaeth, gweithredu a chydymffurfio da ar brosiectau. Er gwaethaf dau ffactor allanol arwyddocaol, sef pandemig COVID-19 a Brexit, mae'r rhesymeg, yn y bôn, yn parhau i fod wedi'i gyfiawnhau.

5.37 Mae 3-SET wedi elwa o iteriadau blaenorol ac etifeddiaeth o ryngweithio a meithrin cysylltiadau â'r sector. Mae cysondeb o'r fath yn gryfder allweddol yn y dyluniad. Fodd bynnag, mae'r amserlen estynedig wedi rhoi cyfleoedd pellach i'r tîm sefydlu a meithrin cysylltiadau â'r sector, yn ogystal â theilwra a datblygu'r gefnogaeth dros y blynyddoedd.

5.38 Mantais allweddol arall y dyluniad yw safle 3-SET yn CGGC. Credir yn eang bod 3-SET yn ychwanegu gwerth ac yn cyfrannu gwybodaeth a dealltwriaeth i CGGC yn ehangach. Mae CGGC hefyd yn cynyddu ymgysylltiad strategol a pholisi 3-SET. Mae sefydliadau yn y trydydd sector yn aml yn ystyried y CGGC fel y man galw cyntaf wrth chwilio am gefnogaeth, ac mae trosglwyddo sefydliadau ymlaen i gefnogaeth 3-SET os ydynt yn gymwys yn broses llyfn a di-dor. Gall y tîm hefyd dynnu ar arbenigedd a phrofiad ehangach staff CGGC.

5.39 Anfantais fechan i'r berthynas â CGGC yw'r her sydd gan rai sefydliadau wrth egluro cylch gwaith 3-SET ac ystod y gefnogaeth a gynigir ganddo. Fel y nodwyd, fodd bynnag, mae'r rhwyddineb y gellir trosglwyddo sefydliadau i CGGC neu eu cyfeirio at gefnogaeth ehangach os nad ydynt yn gymwys ar gyfer cynnig 3-SET yn taflu'r anfantais hon i'r cysgod i raddau helaeth.

5.40 Budd arall y credir sydd i'r dyluniad yw annibyniaeth dybiedig y gefnogaeth ac, i bob pwrpas, unig ddarparwr y math hwn o gefnogaeth, heb unrhyw sefydliadau eraill yn 'cystadlu' am gleientiaid.

5.41 Er bod pleidlais Brexit wedi newid y cyd-destun ac wedi annog y tîm i gynyddu ei ffocws ar gynllunio at y dyfodol, ni newidiwyd y model cyflenwi gweithredol. Roedd modd newid cynnwys yr wybodaeth, yr arweiniad, yr hyfforddiant a'r digwyddiadau heb addasu'r model.

5.42 Daeth yr unig newid sylweddol i'r cynllun gweithredol o ganlyniad i adolygiad mewnol ar y galw am hyfforddiant, yn ogystal â phenderfyniad i gynnig llai o gyrsiau hyfforddi pwrpasol. Awgryma hyn fod cylch gwerthuso mewnol effeithiol ar waith,

hyd yn oed o fewn model sydd wedi dangos ei fod yn effeithiol, yn creu effaith ac yn hyblyg.

5.43 Cyfyngiad allweddol fe ymddengys yw'r cylch gwaith tynn a'r cyfyngiad ar yr ystod o sefydliadau sy'n gymwys i gael y gefnogaeth. Awgryma'r data fod 3-SET mewn sefyllfa dda i gefnogi grŵp ehangach o sefydliadau, ac y byddai'n denu mwy i'w ddigwyddiadau hyfforddi yn benodol, oni bai am y cylch gwaith. Mae'n bosibl fod cyfiawnhad dros ehangu'r cwmpas a'r cylch gwaith, yn enwedig o gofio ymgysylltiad y tîm hyd yma â datblygu cyllid newydd, ac y byddai cefnogi sefydliadau i addasu i Brexit a'r strwythurau newydd o fudd i bob sefydliad yn y sector, nid dim ond y rheini sydd wedi derbyn cyllid Ewropeaidd yn uniongyrchol.

*Hyrwyddo*

5.44 Ymddengys fod hyrwyddo cefnogaeth 3-SET yn fwyaf llwyddiannus ac yn digwydd amlaf drwy fod pobl yn sôn wrth ei gilydd amdano ac o ganlyniad i brofiad blaenorol. Lleiafrif o sefydliadau yn unig a nododd eu bod wedi dod yn ymwybodol o'r gwasanaethau trwy ddigwyddiadau, y wefan neu'r rhestr bostio.

5.45 Gall fod hyn yn adlewyrchiad o natur sefydledig y tîm yn y sector a'u bod nhw ac/neu CGGC yn fan cychwyn cyffredin i unrhyw sefydliad sy'n chwilio am gefnogaeth. Fodd bynnag, mae'r data, ynghyd â'r awgrym nad oedd y rheiny nad oeddent wedi ymgysylltu â 3-SET yn ymwybodol o'r gwasanaeth, yn awgrymu y gallai'r hyrwyddo ar y gwasanaeth fod yn fwy effeithiol. Mae ystyried a yw diwygio ar y cam hwn yn cyfiawnhau cost yr adnoddau a'r ymdrech ar yr adeg hon yn oes 3-SET yn debygol o fod angen ymchwil ac ystyriaeth bellach.

*Rheolaeth*

5.46 Canmolwyd y tîm rheoli yn eang am roi i'r sector gefnogaeth effeithlon a gâi effaith. Yn fwy na hynny, mae sefydliadau a rhanddeiliaid yn eu parchu'n fawr am eu harbenigedd ymarferol a thechnegol, ac am eu proffesiynoldeb a'u profiad. Mae'r berthynas dda a phersonol a ddatblygwyd dros y blynyddoedd yn amlwg yn ffactor allweddol sydd wedi at arwain at ffydd yn y tîm.

5.47 Mae'r personél rheoli wedi dangos bod cylch gwerthuso mewnol effeithiol ar waith yn y tîm, wrth iddynt geisio gwella a datblygu'r cymorth a gynigir trwy gydol oes 3-SET.

5.48 Yn fwy cyffredinol, mae'r tîm wedi datblygu cryn arbenigedd a phrofiad technegol ac ymarferol, ochr yn ochr â rhwydwaith pwerus a helaeth o gysylltiadau, cynghorwyr ac arbenigwyr ategol, a phob un o'r rhain yn cyfoethogi ac yn ychwanegu gwerth at y cymorth a gynigir.

**Y Dyfodol**

5.49 Mae'r sector yn wynebu ystod o heriau yn y blynyddoedd i ddod, er bod sefydliadau fel petaent yn rhoi eu sylw i gyd ar ddelio yn y tymor byr â'r heriau gweithredol yn sgil pandemig COVID-19 a'r cyfnodau clo. Roeddent, serch hynny, yn ymwybodol bod her cyllid yr UE yn dod i ben yn un sylweddol, er ei bod yn rhywbeth y deellir sy'n her tymor hirach, i gael sylw ar ôl y pandemig.

5.50 At hynny, awgrymodd rhanddeiliaid fod heriau cynnal yr ariannu a'u gwaith cyflenwi yn heriau mwy taer, tra bod sefydliadau hefyd yn debygol o weld cynnydd yn y galw am wasanaethau, ar yr un pryd â llai o refeniw yn dod o weithgareddau codi arian.

5.51 Ymddengys bod risg, felly, nad oes gan sefydliadau'r trydydd sector, yn bennaf oherwydd heriau pandemig COVID-19, y capasiti i fynd i'r afael yn effeithiol ag etifeddiaeth a chynllunio i'r dyfodol, ac efallai y bydd angen cymorth ychwanegol arnynt dros y tymor byr i dymor canolig. Efallai y bydd 3-SET yn gwneud cyfraniad gwerthfawr yn hyn o beth yn y blynyddoedd olaf.

5.52 Wrth edrych i'r dyfodol, roedd sefydliadau a rhanddeiliaid yn glir eu barn bod y math o gymorth technegol ac eiriolaeth a ddarperir gan 3-SET mewn perthynas â chyllid Ewropeaidd yn debygol o fod ei angen mewn perthynas ag unrhyw strwythurau cyllido, ac yn arbennig rhai mawr, a ddaw i gymryd lle'r ESIF, sef y Gronfa Ffyniant Gyffredin mae'n siŵr. Mae'n debygol y bydd y cyfnod cychwynnol yn arbennig o allweddol wrth sicrhau bod modd cael mynediad at y cronfeydd.

5.53 Gan ddibynnu ar union ffurf y Gronfa Ffyniant Gyffredin, efallai y bydd gan 3-SET rôl yn paratoi'r tir ar gyfer platfform cymorth ac wrth archwilio modelau cyflenwi amgen ar gyfer y sector, megis sefydlu consortia i ymgeisio am y cyllid newydd a'i ddefnyddio. Ar ben hynny, mae'n debygol iawn y bydd buddsoddi strategol yn y dyfodol yn alinio â'r fframwaith rhanbarthol a ddatblygwyd yng Nghymru, yn ogystal â'r Bargeinion Twf/Dinesig. Felly, mae'n debygol y bydd angen rhywfaint o sybsidiaredd a gweithredu rhanbarthol ar unrhyw blatfform cenedlaethol posibl.

5.54 Yn ogystal, her allweddol, gysylltiedig sydd hefyd yn dod i'r amlwg yw dangos i lunwyr polisi yn San Steffan a Whitehall fuddion a gwerth y trydydd sector yng

Nghymru i weithredu cyllid strategol. Mae’n annhebygol y gall sefydliadau unigol fynd i’r afael â’r strwythurau polisi hyn gan eu bod yn brysur â heriau gweithredol pandemig COVID-19. O’r herwydd, cynyddu mae gwerth a phwysigrwydd gwaith 3-SET yn ymgysylltu â pholisi wrth i’r cyllid newydd gael ei ddatblygu.

*Strwythur*

5.55 Awgryma’r data y bydd angen a galw am blatfform tebyg sy’n rhoi cymorth technegol tebyg i 3-SET ar ôl diwedd cyllid Ewropeaidd. Dylai union ffurf a strwythur y platfform hwn gael ei ddylunio drwy roi ystyriaeth i anghenion cymorth y sector a phrofiad 3-SET. Mae’n debygol mai’r angen mwyaf i’r platfform fydd cefnogi ymgysylltiad â rhaglenni buddsoddi strwythurol mawr a allai gymryd lle cyllid Ewropeaidd yn y dyfodol. Mae’n debyg y bydd ei gyfraniad mwyaf gwerthfawr yn a) cefnogi’r trydydd sector i gael gafael ar y cyllid, a b) parhau â’r cymorth technegol effeithiol sydd wedi galluogi’r trydydd sector i fod yn llwyddiannus wrth ymgeisio, cyflenwi ac ychwanegu gwerth at raglenni buddsoddi strategol.

5.56 Er hynny, bydd mynediad i’r cronfeydd yn brif her i’r trydydd sector. Her cyn hynny, felly, fydd cyflwyno’r achos fod trydydd sector Cymru yn gallu cyflawni buddsoddiadau strategol, yn ogystal â phwyso ar lunwyr polisi wrth iddynt ddylunio unrhyw strwythurau cyllido bod mawr angen cadw mewn cof drydydd sector Cymru, ei gapasiti a’i anghenion.

## Argymhellion

5.57 **Argymhelliad 1:** Roedd y data’n awgrymu bod sefydliadau’n ymgysylltu’n bennaf â 3-SET o ganlyniad i brofiad blaenorol neu oherwydd fod wedi rhywun wedi sôn amdano. Fodd bynnag, awgrymai’r data hefyd fod rhai sefydliadau nad oeddent wedi ymgysylltu â 3-SET oherwydd nad oeddent yn ymwybodol o’r gwasanaeth. Mae posibilrwydd felly y gallai’r hyrwyddo ar y gwasanaeth fod yn fwy effeithiol er mwyn ennyn diddordeb y rheiny nad ydynt yn ymwybodol o’r gwasanaeth. Mae’n debygol y bydd angen ymchwilio ac ystyried ymhellach i benderfynu a yw’r adnoddau sydd ar gael yn cyfiawnhau ymdrech sylweddol i adolygu a diwygio arferion ar y cam hwn yn oes 3-SET. Dylai 3-SET ystyried archwilio dichonoldeb a dulliau posibl o hyrwyddo’r gwasanaeth yn fwy effeithiol.

5.58 **Argymhelliad 2:** Er mai perthynas â’r awdurdodau lleol oedd y rhai mwyaf cyffredin i gael eu sefydlu, mynegodd sefydliadau (serch hynny) awydd i ddatblygu mwy o

gysylltiadau â chynghorau. Roedd cysylltiadau yn cael eu brocera ran amlaf trwy rwydwaith a digwyddiadau 3-SET neu o ganlyniad i gydweithredu. Dylai 3-SET ymchwilio i gyfleoedd i ddod â sefydliadau i gysylltiad ag awdurdodau lleol yn amlach. Gellid ystyried hyn ochr yn ochr ag Argymhellion 3 a 4, yn ogystal ag unrhyw ymdrechion i gwmpasu'r potensial i gonsortia wneud ceisiadau am gyllid yn y dyfodol.

5.59 **Argymhelliad 3:** Mynegodd sefydliadau ddyhead i ymgysylltu â phartneriaid y tu hwnt i'r trydydd sector, ac i wneud mwy o waith cydweithredol yn y dyfodol. Wrth ymchwilio i bosibiliadau gwneud cais drwy gonsortia, ac mewn cyfuniad ag Argymhellion 2 a 4, dylai 3-SET archwilio cyfleoedd i gynnwys partneriaid o'r tu allan i'r sector. Gellid bwrw ymlaen â hyn yn ystod y cam cwmpasu i archwilio a datblygu ceisiadau consortiwm, a thrwy ddefnyddio'r rhwydweithiau ehangach o randdeiliaid sydd gan awdurdodau lleol.

5.60 **Argymhelliad 4:** Soniodd rhai buddiolwyr am gyfleoedd cyllido yn y dyfodol megis y Gronfa Ffyniant Gyffredin, yn ogystal ag awydd i gydweithredu â sefydliadau eraill, neu hyd yn oed i greu consortia i gynnal prosiectau ar raddfa fwy o faint. Bydd hyn yn dibynnu i raddau helaeth ar ffurf, meini prawf a hygyrchedd unrhyw raglenni cyllido newydd. Fodd bynnag, er mwyn cefnogi cynllunio a chynaliadwyedd yn y sector yn y dyfodol, dylai 3-SET ystyried archwilio a dechrau ar waith rhagarweiniol i gwmpasu a dwyn ynghyd ddarpar bartneriaid i gydweithio ar gynigion am gyllid. Efallai y byddai 3-SET am gynnwys partneriaid o'r tu allan i'r sector i gryfhau ac ychwanegu gwerth at gynigion yn y dyfodol. Gweler hefyd Argymhellion 2 a 3.

5.61 **Argymhelliad 5:** Tybir yn eang fod gan 3-SET y capasiti i gefnogi rhagor o sefydliadau, yn enwedig trwy ddigwyddiadau hyfforddi, pe na bai wedi'i gyfyngu i gefnogi prosiectau a ariennir gan ESIF yn unig. Fodd bynnag, o ystyried gwaith y tîm hyd yma yn ymwneud â datblygu'r cronfeydd i gymryd lle cyllid Ewropeaidd, mae'n bosibl y gallai fod cyfiawnhad i gefnogi sefydliadau i addasu i Brexit a'r strwythurau newydd ac y byddai hyn yn bodloni amcanion 3-SET yn ogystal ag yn ehangu'r sefydliadau y mae'r gefnogaeth yn berthnasol iddynt. Dylai 3-SET edrych ar ffyrdd y gall ei waith mewn perthynas â chyllid newydd fod o fudd i sefydliadau y tu hwnt i'r rheiny sy'n derbyn y rownd hon o gyllid ESIF.

5.62 **Argymhelliad 6:** Mae risg nad yw sefydliadau'r trydydd sector wedi cael y cyfle na'r capasiti, oherwydd pandemig COVID-19, i symud mor gyflym neu mor bell ag y byddai'n ddymunol wrth baratoi ar gyfer diwedd cyllid Ewropeaidd. Mae'n debygol,

felly, y bydd angen cymorth ychwanegol ar sefydliadau er mwyn symud yn gyflym tuag at sefyllfa fwy cynaliadwy pan ddaw cyllid i ben. Dylai 3-SET geisio asesu'r cynnydd a wnaed yn y sector wrth baratoi at ddiwedd cyllid Ewropeaidd, yn ogystal â'r anghenion cymorth ychwanegol a allai fod gan sefydliadau erbyn hyn.

5.63 **Argymhelliad 7:** Er bod 3-SET wedi annog sefydliadau'r trydydd sector i gyflwyno tystiolaeth ac ymgysylltu â fforymau a strwythurau polisi ffurfiol, mae eu capasiti i wneud hynny wedi lleihau o bosibl wrth iddynt fynd i'r afael â heriau pandemig COVID-19. Mae gwerth a phwysigrwydd ymgysylltiad 3-SET â pholisi yn debygol o fod wedi cynyddu o ganlyniad i hyn. At hynny, mae'r teimlad y gallai datblygu polisi ar lefel y Deyrnas Unedig ddigwydd 'ar fympwy' neu heb gyfeirio at dystiolaeth a gyflwynwyd yn ffurfiol, ac os yw hyn yn gywir awgrymir bod yr ymdrechion i godi ymwybyddiaeth o'r gwerth y mae trydydd sector Cymru yn ei ychwanegu at gyflawni buddsoddiad strategol yn dod yn bwysicach fyth. Ar gyfer y blynyddoedd sydd ar ôl ganddo, dylai 3-SET ei ystyried yn flaenoriaeth i hyrwyddo'r trydydd sector yng Nghymru, ei anghenion a'i ofynion, ei allu i gyflawni prosiectau sy'n gysylltiedig â rhaglenni buddsoddi strategol, a'r gwerth a'r cyrhaeddiad ychwanegol y mae'n eu cynnig. Dylid ystyried y strwythurau cyllido newydd sy'n dod i'r fei yn 'darged' blaenoriaeth ar gyfer yr hyrwyddo hwn, a dylai'r mesur llwyddiant fod ar sail sicrhau bod y trydydd sector yng Nghymru yn cael mynediad at y cyllid hwn.

5.64 **Argymhelliad 8:** Mae barn gyffredinol y bydd angen platfform tebyg i 3-SET yn y dyfodol, sef platfform sy'n cynnig cymorth technegol ac sy'n hyrwyddo trydydd sector Cymru, yn enwedig yng nghyd-destun strwythurau buddsoddi strategol mawr. Yn dibynnu ar y ffurf a fydd i strwythurau fel y Gronfa Ffyniant Gyffredin, dylai 3-SET ystyried ei rôl wrth baratoi'r tir ar gyfer platfform cymorth o'r fath. Gall hyn gynnwys nodi'r gefnogaeth o ran hyfforddiant ac arweiniad sy'n debygol o fod eu hangen; brocera cysylltiadau a allai arwain at geisiadau (gweler Argymhellion 2, 3 a 4); nodi ffyrdd y gellir cynnig mynediad at arbenigedd a phrofiad 3-SET yn y dyfodol; ac archwilio modelau cyflenwi amgen ar gyfer y sector, megis sefydlu consortia ac/neu feithrin cydweithredu.

5.65 **Argymhelliad 9:** Fel y nodwyd, credir yn gyffredinol y bydd angen platfform yn y dyfodol sy'n cynnig cymorth technegol ac sy'n hyrwyddo trydydd sector Cymru. Dylai Llywodraeth Cymru, os yw am ddatblygu platfform o'r fath, ystyried 3-SET a'i arbenigedd, ei brofiad, ei enw da sefydledig, ei lwyddiant a'i effaith fel ffordd o ychwanegu gwerth at unrhyw blatfform newydd. Yn ogystal, er bod ystyriaethau

ehangach ar waith, megis dimensiwn rhanbarthol cynllunio economaidd a strategol, serch hynny, mae rhesymeg a dyluniad 3-SET yn fodel profedig ac effeithiol i roi cymorth technegol i’r sector a’i hyrwyddo.

**Adran gyfeiriadau**

CGGC (2016). *Blaenoriaethau ar gyfer Pwyllgor Cymunedau, Cydraddoldeb a Llywodraeth Leol (CCC): Ymateb i Ymgynghoriad gan CGGC*, (aethpwyd iddo Ionawr 2021)

CGGC (2019). *Grymuso Cymunedau yng nghyd-destun Brexit: Canfyddiadau Ymchwil, Dadansoddiad ac Argymhellion i Gynorthwyo Mudiadau'r Trydydd Sector yng Nghymru*, (aethpwyd iddo Ionawr 2021)

Cynulliad Cenedlaethol Cymru, Pwyllgor Materion Allanol a Deddfwriaeth Ychwanegol (2017). *Ymchwiliad i bolisi rhanbarthol – beth nesaf i Gymru?*, (aethpwyd iddo Ionawr 2021)

Cynulliad Cenedlaethol Cymru, Pwyllgor Materion Allanol a Deddfwriaeth Ychwanegol (2017). *Papur Gwyn ar Fil y Diddymu Mawr: Goblygiadau i Gymru*, (aethpwyd iddo Ionawr 2021)

Cynulliad Cenedlaethol Cymru, Pwyllgor Cyllid (2018). *Y paratoadau ar gyfer disodli ffrydiau cyllido'r Undeb Ewropeaidd yng Nghymru*, (aethpwyd iddo Ionawr 2021)

Hutt, Jane (2019). *Datganiad Ysgrifenedig: Grymuso Cymunedau yng nghyd-destun Brexit*, (aethpwyd iddo Ionawr 2021)

WEFO (2018). *Buddsoddi Rhanbarthol yng Nghymru ar ôl Brexit, Ymarfer Ymgysylltu – Adroddiad Cryno*, (aethpwyd iddo Ionawr 2021)

## Atodiad A

### Tabl A.1: Rhestr lawn o'r digwyddiadau hyfforddi a gynhaliwyd neu a gynlluniwyd

| Cwrs Hyfforddi | Sawl gwaith y'i cynhaliwyd |
|---|---|
| Hyfforddiant Cymorth Gwladwriaethol | 2 |
| Brexit – Goblygiadau i'r Sector Gwirfoddol yng Nghymru | 2 |
| Beth yw Cyllid Ewropeaidd | 2 |
| Gweithio trawswladol | 1 |
| Cynhwysiant Gweithredol – Beth yw Cyflogaeth gyda Chefnogaeth? | 1 |
| Mesur Canlyniadau Meddal | 4 |
| Rheoli Prosiect a ariannir gan yr UE | 4 |
| Erasmus+ | 1 |
| Rheolaeth Ariannol ar Brosiect a ariannir gan yr UE | 4 |
| System Sicrhau Ansawdd Ymarferol i Fudiadau Bach (PQASSO) | 1 |
| Diogelu Data a Chyfrinachedd | 6 |
| Ennyn diddordeb eich cynulleidfa darged | 3 |
| Beth yw Cyllid Trawswladol? | 1 |
| Cynllunio Olyniaeth | 1 |
| Gweithdy WEFO: Themâu Trawsbynciol a Monitro a Gwerthuso | 2 |
| Rhaglen Iwerddon Cymru | 1 |
| Cyflwyniad i Dendro | 1 |
| Cwrs ar-lein Themâu Trawsbynciol | 5 |
| Ymgysylltu Effeithiol | 2 |
| Arian Cyfatebol (Ar-lein) | 2 |
| Cyflwyniad i Gydweithredu Tiriogaethol Ewropeaidd (ETC) | 1 |
| Casglu Data a Chywirdeb ar gyfer Prosiectau Cynhwysiant Gweithredol | 1 |
| Dod â phrosiect i ben (Cymraeg) | 3 |
| Llunio Strategaeth Codi Arian Lwyddiannus | 0 |
| Cyflwyniad i Gaffael (Gweminar) | 1 |
| Cyflwyniad i Gaffael (Ar-lein) | 1 |
| Cyllid yr UE a'r Trydydd Sector: Llwyddiannau'r Gorffennol a Chyfleoedd Presennol | 0 |
| Beth gall y Gronfa Tyfu Busnesau Cymdeithasol (SBGF) ei wneud i chi? | 0 |
| Sut i Ysgrifennu Manyleb Gwerthuso | 0 |
| Sut i lunio Cyllideb ar gyfer eich prosiect a ariannir gan yr UE (Ar-lein) | 4 |
| Marchnata eich prosiect sydd wedi cael cyllid Ewropeaidd | 0 |
| Awdit ar gyfer prosiectau Cynhwysiant Gweithredol | 1 |
| Cyflwyniad i Horizon 2020 | 0 |
| Diogelu Gwirfoddolwyr a Chyfranogwyr eich Prosiect | 1 |
| Rheoli Prosiect Cronfa Cynhwysiant Gweithredol | 7 |
| Dyfodol Polisi Rhanbarthol ar ôl Brexit | 1 |

| Cwrs Hyfforddi | Sawl gwaith y'i cynhaliwyd |
|---|---|
| Gweminar Themâu Trawsbynciol WEFO | 1 |
| Cyflwyniad i'r GDPR | 0 |
| Cyflwyniad i Interreg Gogledd-orllewin Ewrop (NWE) | 1 |
| Diogelu Data a GDPR ar gyfer STEM Cymru (Penodol) | 1 |
| GDPR ar gyfer prosiectau a ariannir gan yr UE | 3 |
| Rheoli Prosiect ESF | 5 |
| Cyflwyniad i'r Corfflu Cydsefyll Ewropeaidd | 1 |
| Mesur Canlyniadau Cadarnhaol | 3 |
| Rheoli prosiect ESF – penodol ar gyfer Cyngor Cymru i Bobl Fyddar (WCFDP) | 1 |
| Cyflwyniad i ddiogelu ar gyfer Aelodau Staff y Gronfa Cynhwysiant Gweithredol | 1 |
| Themâu Trawsbynciol – Penodol ar gyfer Hamdden Aneurin | 1 |
| Themâu Trawsbynciol – Penodol ar gyfer Pontydd i Waith | 1 |
| Sesiynau Gwybodaeth y Gronfa Cynhwysiant Gweithredol | 4 |
| Cynllun Hyder Anabledd | 1 |
| Gweminar Kickstart | 1 |
| Gweminar Statws Preswylwyr Sefydlog i Ddinasyddion yr UE (EUSS) | 2 |
| Gweminar Data Cymru | 1 |
| Gweminar Cymunedau Digidol Cymru | 1 |
| Hwyluso Ar-lein | 3 |
| Archwiliad Iechyd Creu Incwm | 1 |

## Atodiad B

### Canllaw i'r drafodaeth

1. Cyflwynwch eich hun a'ch rôl.

2. Pa **gysylltiad**, os o gwbl, ydych chi / eich sefydliad wedi'i gael gyda chyllid ESF/ERDF yng Nghymru ers 2014?
    a. *Rydym yn brif noddwr neu'n gyd-noddwr ar brosiect ESF/ERDF sydd wedi'i gymeradwyo gan WEFO*
    b. *Rydym yn cynnal gwasanaeth/gweithgarwch sydd wedi'i ariannu gan ESF/ERDF – pwy ydych chi'n darparu ar eu cyfer?* [nid yw 3-SET yn cael cefnogi'r RDP]
    c. *Rydym yn/wedi ystyried cais am gyllid drwy'r ESF/ERDF*
    d. *Rydym yn cynnal gwasanaeth drwy ffynhonnell arall Cyllid Ewropeaidd (e.e. RDP, Erasmus, Iwerddon Cymru, Horizon2020 etc)*
    e. *Rhywbeth arall (manylwch)*

### Ymgysylltu â 3-SET

3. **Sut y daethoch i wybod am y gwasanaethau y gallai 3-SET eu cynnig i chi**?
    a. *Gwefan CGGC (gan gynnwys tudalen we 3-SET)*
    b. *Cylchlythyr/rhestr bostio CGGC (gan gynnwys cylchlythyr/bwletin cyllid 3-SET)*
    c. *Cyswllt mewn digwyddiad (manylwch)*
    d. *Cylchlythyr/rhestr bostio arall (manylwch)*
    e. *Rhywun wedi sôn/profiad blaenorol*
    f. *Cael eich atgyfeirio (manylwch)*
    g. *Rhywbeth arall*

4. **Pam wnaethoch chi ymgysylltu** â 3-SET a pha mor rhwydd/anodd oedd gwneud hynny?
    a. *A oeddech chi'n ystyried ymwneud â chyllid ESF/ERDF?*
    b. *A oeddech chi'n paratoi cais ar gyfer cyllid / cynllun busnes?*
    c. *A oeddech chi'n sefydlu prosiect (cynllunio gweithdrefnau rheoli, etc.)?*
    d. *A oeddech chi'n cyflawni prosiect?*
    e. *A oeddech yn dod â phrosiect i ben?*
    f. *Rhywbeth arall?*

5. Pa gymorth/gwasanaethau 3-SET **ydych chi wedi eu defnyddio/manteisio arnynt**? (Ticiwch bob un sy'n berthnasol)
    a. *Cyngor cyffredinol ac/neu arweiniad gan aelod o dîm 3-SET yn CGGC*
    b. *Cyrsiau hyfforddi (ar-lein)*
    c. *Cyrsiau hyfforddi (mewn person)*
    d. *Rhwydweithiau (3-SET)*
    e. *Digwyddiadau gwybodaeth a chodi ymwybyddiaeth wedi'u cynnal gan 3-SET*
    f. *Gwybodaeth am gyllid* ESF/ERDF *ar wefan CGGC*

g. *Cylchlythyr misol 3-SET neu’r diweddariadau rheolaidd am gyllid*
h. *Rhywbeth arall (manylwch...)*

**Effaith**

6. Pa **effaith** y mae’r gefnogaeth wedi’i chael arnoch chi neu eich sefydliad?
    a. *Ydych chi wedi gwneud unrhyw newidiadau o ganlyniad i’r cymorth?*
    b. *Pa mor barhaol yw’r newidiadau hyn?*

7. Wrth feddwl am y cymorth a gawsoch gan 3-SET, rhowch farc rhwng 0 (dim o gwbl) i 10 (yn fawr iawn), **faint wnaethoch chi ac/neu eich sefydliad elwa** o’r cyswllt a gawsoch â 3-SET?
    a. Chi yn bersonol?
    b. Eich sefydliad/mudiad?

8. Pa mor effeithiol y mae 3-SET wedi eich helpu chi a’ch sefydliad i **baratoi at y dyfodol a’r hirdymor**?
    a. *Pa gamau gweithredu penodol sydd wedi bod fwyaf pwysig?*

9. Sut mae 3-SET yn cefnogi cyflawni’r **Themâu Trawsbynciol**?

10. Yn eich profiad chi, **i ba raddau** y mae 3-SET wedi:
    a. *Llwyddo i annog sefydliadau’r trydydd sector i ymgeisio am Gronfeydd Strwythurol pan na fyddent fel arall efallai wedi gwneud hynny?*
    b. *Rhoi arweiniad clir ac effeithiol sydd wedi cefnogi sefydliadau’r trydydd sector i ymgeisio’n llwyddiannus am Gronfeydd Strwythurol?*
    c. *Rhoi arweiniad clir ac effeithiol sydd wedi cefnogi sefydliadau’r trydydd sector i weithredu prosiectau’r Cronfeydd Strwythurol yn llwyddiannus?*
    d. *Hyrwyddo rhwydweithio a chydweithredu yn y trydydd sector?*
    e. *Brocera’n llwyddiannus gysylltiadau rhwng y trydydd sector, WEFO, partneriaid rhanbarthol ac/neu awdurdodau lleol?*

**Ystyriaethau cyffredinol ac ehangach**

11. A oes rhywbeth y teimlwch sydd wedi bod **ar goll o’r hyn y mae 3-SET** wedi bod yn ei gynnig neu unrhyw beth arall yr hoffech ei weld o ran cefnogaeth yn y dyfodol?

12. A ydych wedi defnyddio **unrhyw wasanaethau neu gymorth arall** heblaw am 3-SET, mewn perthynas ag ESF/ERDF ers 2014?
    a. Os do, pa gymorth?
    b. Pa mor dda y mae gweithgareddau a chymorth 3-SET yn cyd-fynd ac/neu’n cymharu â’r rhain?

**Y Dyfodol**

13. Beth yw'r **heriau** sy'n wynebu eich sefydliad? (*Meddyliwch am yr heriau yn cynnal prosiectau wedi'u hariannu'n gyhoeddus; sicrhau cymorth a hyfforddiant; unrhyw heriau eraill)*
    a. *Yn ystod y 6-18 mis nesaf?*
    b. *Yn y tymor hirach, y tu hwnt i 12/18 mis?*

14. Pa **elfennau o gymorth 3-SET** fyddwch chi eu hangen yn y dyfodol?
    c. *Yn ystod y 6-18 mis nesaf?*

15. Pa **gymorth arall** y teimlwch y byddwch ei angen?
    d. *Yn ystod y 6-18 mis nesaf?*
    e. *Yn y tymor hirach, y tu hwnt i 12/18 mis?*

16. Pa **wersi eraill y gellid eu dysgu** o brofiad 3-SET?
    f. *Pa wersi o'r math hwn o **strwythur**?*
    g. *Pa wersi o'r math hwn o **gefnogaeth**?*
    h. *Wrth feddwl am y mesurau iechyd cyhoeddus cyfredol mewn ymateb i Covid-19, a oes unrhyw ddysgu a wnaed y dylid ei ystyried yn y dyfodol?*
    i. *Wrth feddwl am bolisi cyhoeddus yn y dyfodol, pa rôl y mae'r trydydd sector yn ei chwarae, a ddylai neu a allai ei chwarae – a pha gefnogaeth sy'n debygol o fod yn ofynnol er mwyn ei alluogi i wneud hynny?*

17. A fydd angen / a oes cyfiawnhad am unrhyw **barhad (ar ryw ffurf) ar brosiect 3-SET** yn y dyfodol?
    j. *Cefnogi'r sector yn gyffredinol?*
    k. *Cefnogi gweithredu'r Gronfa Ffyniant Gyffredin neu unrhyw amcanion strategol eraill gan Lywodraeth Cymru neu'r DU?*

18. A oes gennych chi unrhyw beth i'w ychwanegu at rywbeth rydyn ni wedi'i drafod neu a hoffech chi godi mater nad ydyn ni wedi'i drafod?

***<u>Diolch am roi eich amser</u>***